



CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
RHONDDA CYNON TAF
COUNTY BOROUGH COUNCIL

GWŶS I GYFARFOD O'R CYNGOR

C.Hanagan
Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Y Pafiliynau
Parc Hen Lofa'r Cambrian
Cwm Clydach, CF40 2XX

Dolen gyswllt: Hannah Williams - Uned Busnes y Cyngor - Gwasanaethau
Llywodraethol (07385401954)

DYMA WŶS I CHI i gyfarfod rhithwir o **Is-bwyllgor Y CABINET AR FATERION Y GYMRAEG** yn cael ei gynnal ar **Dydd MAWRTH, 9FED MAI, 2023** am **3.00 PM**.

Caiff Aelodau nad ydyn nhw'n aelodau o'r pwyllgor ac aelodau o'r cyhoedd gyfrannu yn y cyfarfod ar faterion y cyfarfod er bydd y cais yn ôl doethineb y Cadeirydd. Gofynnwn i chi roi gwybod i Wasanaethau Democrataidd erbyn 5PM am Dydd Iau 4 Mai trwy ddefnyddio'r manylion cyswllt uchod, gan gynnwys rhoi gwybod a fyddwch chi'n siarad Cymraeg neu Saesneg.

AGENDA

Tudalennau

1. DATGAN BUDDIANT

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Aelodau yn unol â'r Cod Ymddygiad.

Nodwch:

1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr eitem mae eu buddiant yn ymwneud ag ef a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant sy'n rhagfarnu, rhaid iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

2. COFNODION

Derbyn cofnodion o gyfarfod Is-bwyllgor y Cabinet ar faterion y Gymraeg a gynhaliwyd ar 25 Hydref, 2022.

3. STRATEGAETH HYBU'R GYMRAEG A'R CYNLLUN GWEITHREDU

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu sy'n nodi sylwadau'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu, a fu'n trafod Strategaeth Hybu'r Gymraeg a'r Cynllun Gweithredu yn ei gyfarfod ar 21 Mawrth 2023.

7 - 64

4. ADRODDIAD MONITRO BLYNYDDOL - Y GYMRAEG

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Materion Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymuned, sy'n rhoi cyfle i'r Is-bwyllgor drafod yr Adroddiad Monitro Blynnyddol o ran y Gymraeg ar gyfer 2022-23.

65 - 106

5. MATERION BRYD

Trafod unrhyw faterion sydd, yn ôl doethineb y Cadeirydd, yn faterion brys yng ngoleuni amgylchiadau arbennig.

Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu **Cylchreliad:-**

Cadeirydd ac Is-gadeirydd:

Y Cyngorydd R Lewis ac Y Cyngorydd C Leyshon

Y Cyngorwyr Bwrdeistref Sirol:

Y Cyngorydd M Webber, Y Cyngorydd G Caple and Y Cyngorydd M Norris



CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF

IS-BWYLLGOR Y CABINET AR FATERION Y GYMRAEG

Cofnodion o gyfarfod y Is-bwyllgor y Cabinet ar Faterion y Gymraeg a gynhaliwyd Dydd
Mawrth, 25 Hydref 2022 am 10.00 am ym Rhithwir.

Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol - Is-bwyllgor y Cabinet ar Faterion y Gymraeg Aelodau oedd yn bresennol:-:-

Y Cyngorydd R Lewis (Cadeirydd)

Y Cyngorydd M Webber Y Cyngorydd G Caple

Swyddogion oedd yn bresennol

Ms L Davies, Cyfarwyddwr – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a Gwasanaethau'r Gymuned

Ms G Davies, Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant

Mr S Gealy, Rheolwr Gwasanaethau Cymraeg

Ms L Sheppard-Thomas, Gwasanaethau Cymraeg

Mr S Thomas - Swyddog Prosiect Yr Eisteddfod

Mr O Rowlands – Menter Iaith

1 Croeso ac Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau a'r Swyddogion i gyfarfod Is-bwyllgor y Cabinet ar Faterion y Gymraeg. Daeth ymddiheuriadau am absenoldeb i law oddi wrth Gynghorwyr y Fwrdeistref Sirol C. Leyshon ac M. Norris.

2 Datgan Buddiant

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, doedd dim datganiadau o fuddiant ynglŷn â'r agenda.

3 Cofnodion

PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Rhagfyr 2021 yn rhai cywir.

4 Strategaeth Hybu'r Gymraeg 2022 i 2027

Darparodd Rheolwr y Gwasanaeth – Gwasanaethau Cymraeg gopi diwygiedig o Strategaeth Hybu'r Gymraeg i Is-bwyllgor y Cabinet ar Faterion y Gymraeg fel sy'n ofynnol o dan Safon 145 o'r Hysbysiad Cydymffurfio a gafodd ei gyflwyno i Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf o dan Adran 44 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Yna cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaeth Ms N. Davies, ymgynghorydd arbenigol o'r grŵp cynllunio iaith Nico Cyf, a gafodd ei gomisiynu i helpu i lunio'r strategaeth bum mlynedd uchelgeisiol. Yn rhan o'r strategaeth, ymgynghorwyd â thrigolion ym mis Hydref 2021. Mae modd darllen canlyniadau'r ymgynghoriad yn Atodiad 2 yr adroddiad.

Dywedodd yr ymgynghorydd fod adolygiad y strategaeth gyntaf yn darparu pedwar prif faes i'w hystyried wrth ddrafftio'r strategaeth newydd, sef:

1. Ymateb i ddata'r Cyfrifiad ynghylch y Gymraeg yn yr ardal (mae disgwyl i'r data fod ar gael ym mis Rhagfyr 2022 a byddai'n sail i gynllun gweithredu)
2. Yr amgylchiadau, sy'n newid yn barhaus
3. Pwysigrwydd partneriaethau
4. Pwysigrwydd mesur llwyddiant ac effaith y strategaeth ar drigolion

Esboniodd yr ymgynghorydd gyd-destun y strategaeth newydd i'r Aelodau, a oedd yn cynnwys ystyried yr amgylchedd gwleidyddol ac effeithiau'r pandemig. Yna, cafodd yr Aelodau wybod am y tair thema genedlaethol allweddol yn y strategaeth newydd, sef:

1. Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg
2. Cynyddu defnydd y Gymraeg
3. Creu amodau ffafriol – seilwaith a chyd-destun

Cafodd ei egluro bod yna gyfleoedd yn y strategaeth i gryfhau a hybu'r Gymraeg trwy achlysuron megis yr Eisteddfod, y celfyddydau, chwaraeon a thrwy gynnal arolygon gyda thrigolion.

Rhoddodd y Cadeirydd ei ddiolch i'r ddau swyddog am y cyflwyniad llawn gwybodaeth, gan nodi bod y gwaith dan sylw yn cwmpasu'r Cyngor cyfan. Talodd deyrnged i Garfan Ymgynghori'r Cyngor am sicrhau bod aelodau'r cyhoedd, busnesau, sefydliadau partner a'r trydydd sector yn cymryd rhan.

Roedd y Cadeirydd yn falch o nodi bod llawer o arferion da wedi deillio o'r strategaeth gyntaf. Dywedodd y byddai'r strategaeth newydd yn caniatáu i'r awdurdod lleol ddatblygu ac addasu i'r amgylchiadau presennol i sicrhau bod RhCT yn lle sy'n annog pobl i ddysgu Cymraeg a datblygu'r iaith, boed hynny gartref neu drwy ddulliau addysgol neu adloniadol.

Roedd y Cadeirydd o'r farn bod yr awdurdod lleol yn uchelgeisiol o ran ei dargedau i'r Gymraeg, gan gyfeirio at y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg sy'n gobeithio cynyddu nifer y dysgwyr blwyddyn un 10% dros y deng mlynedd nesaf. Soniodd y Cadeirydd hefyd am raglen gyfalaf sylweddol y Cyngor dros y blyneddau diwethaf a'r buddsoddiad mewn nifer o adeiladau newydd ar gyfer ysgolion Cymraeg i apelio at fwy o rieni a dysgwyr.

Manteisiodd y Dirprwy Arweinydd ar y cyfle i ganmol yr ysgol newydd o'r radd

flaenaf sy'n cael ei hadeiladu yn Rhydyfelin ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg. Ategodd y Dirprwy Arweinydd sylwadau'r Cadeirydd ynglŷn â'r targedau uchelgeisiol a osodwyd gan y Cyngor a Llywodraeth Cymru ond roedd yn obeithiol y byddai'r meysydd sydd wedi'u nodi yn y strategaeth yn helpu'r Cyngor i gyflawni rhywfaint tuag ati.

Gan gyfeirio at yr anfanteision economaidd-gymdeithasol a Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, a geir yn Atodiad 3 yr adroddiad, dywedodd y Dirprwy Arweinydd fod lefelau uchel o sgiliau llythrennedd gwael gan oedolion mewn llawer o gymunedau, gan bwysleisio pwysigrwydd cynwysoldeb wrth hyrwyddo'r Gymraeg. Cytunodd y Dirprwy Arweinydd fod ymgynghori yn hanfodol, gan siarad am bwysigrwydd gwrandao ar gymunedau wrth i gynydd fynd rhagddo.

Siaradodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion lechyd a Gofal Cymdeithasol yn gadarnhaol am y strategaeth hybu uchelgeisiol, gan bwysleisio bod manteision cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd i wlad ddwyieithog neu amlieithog. Dywedodd yr Aelod o'r Cabinet mai'r ffordd orau o ennyn diddordeb pobl ifainc fyddai ar y cam cynharaf posibl yn eu haddysg.

Wrth ymateb i'r Aelod o'r Cabinet, dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant fod Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg a'r cwricwlwm newydd i Gymru yn canolbwyntio ar hybu'r iaith, nid yn unig mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg ond mewn ysgolion cyfrwng Saesneg hefyd. Dywedodd y Cyfarwyddwr fod y cwricwlwm newydd i Gymru yn rhoi blaenoriaeth i hybu'r iaith o oedran ifanc iawn, a bod Estyn yn arolygu'r ysgolion cyfrwng Saesneg ar y sail honno hefyd. Gan gyfeirio at y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg, rhoddodd y Cyfarwyddwr wybod am y saith deilliant allweddol. Eglurodd mai'r nod oedd canolbwyntio ar gynyddu nifer y dysgwyr sy'n siarad Cymraeg ym mlwyddyn un, ond roedd hefyd yn cynnwys mesurau eraill megis defnydd iaith mewn cyd-destun anffurfiol, y gweithlu addysg, ac unrhyw bwysau ar gapasiti sy'n bodoli.

Siaradodd Prif Weithredwr Menter Iaith yn gadarnhaol am y berthynas â'r Cyngor, gan sôn am achlysuron sydd ar ddod megis Parti Ponty ac, wrth gwrs, yr Eisteddfod. Eglurodd fod timau'n cydweithio i gyflwyno targedau i Lywodraeth Cymru. Yn dilyn yr achlysuron, y nod fyddai cadw'r momentwm i fynd a dysgu o'r profiad.

Aeth Prif Weithredwr Menter Iaith ymlaen i sôn am lwyddiant y Siarter Iaith, a oedd wedi helpu dysgwyr ail iaith. Rhoddodd wybod fod ysgolion cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg wedi cymryd rhan ym Mharti Ponty, a oedd yn cyfleu'r neges y gall yr holl gymuned ddathlu'r Gymraeg. Cyfeiriodd hefyd at Gymdeithas Bêl-droed Cymru, ac roedd Menter Iaith yn falch o fod wedi sicrhau cyllid i gynnal prosiectau ar y cyd â nhw a Llywodraeth Cymru i hybu'r iaith. Rhoddodd Menter Iaith ddiolch i'r Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant am godi ymwybyddiaeth yn yr ysgolion i sicrhau bod pob dysgwr yn cael yr un cyfleoedd.

Ategodd y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant sylwadau Menter Iaith mewn perthynas â gwaith partneriaeth a pha mor sylfaenol yw hi i gyflawni targedau mor uchelgeisiol. Soniodd y Cyfarwyddwr yn gadarnhaol am y berthynas gryfach fyth â Menter Iaith a'r berthynas gref â phartneriaid eraill megis colegau, gweithwyr ieuchyd proffesiynol a staff yn y sector cyfrwng Saesneg yn ogystal â'r rhai yn y sector Cymraeg.

Rhoddodd y Cadeirydd ei ddiolch i'r swyddogion am yr adroddiad cynhwysfawr, gan atgoffa'r Aelodau y byddai'r Is-bwyllgor yn adolygu cynllun gweithredu mewn cyfarfod yn y dyfodol.

PENDERFYNODD Is-bwyllgor y Cabinet ar faterion y Gymraeg:

1. Nodi cynnwys yr adroddiad yma a'r strategaeth gysylltiedig
2. Cymeradwyo Strategaeth Hybu'r Gymraeg 2022 i 2027

Daeth y cyfarfod i ben am 10.45 am

**Y Cynghorydd R Lewis
Cadeirydd.**



CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF

BLWYDDYN Y CYNGOR 2022-23

IS-BWYLLGOR Y CABINET AR FATERION Y GYMRAEG

CYNLLUN GWEITHREDU STRATEGAETH HYBU'R GYMRAEG 2022-2027

ADRODDIAD Y CYFARWYDDWR GWASANAETH – GWASANAETHAU
DEMOCRATAIDD A CHYFATHREBU

1. DIBEN YR ADRODDIAD

- 1.1 Diben yr adroddiad yw rhoi sylwadau ac arsylwadau i Is-bwyllgor y Cabinet ar faterion y Gymraeg yn dilyn gwaith cyn y cam craffu gan y [Pwyllgor Trosolwg a Chraffu](#) ar Strategaeth Hybu'r Gymraeg yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar [21 Mawrth 2023](#)

2. ARGYMHELLION

- 2.1 Argymhellir bod Is-bwyllgor y Cabinet ar faterion y Gymraeg yn nodi sylwadau ac arsylwadau'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu fel y nodir ym mharagraff 5 yr adroddiad

3. RHESYMAU DROS YR ARGYMHELLION

- 3.1 Yr angen i Is-bwyllgor y Cabinet ar faterion y Gymraeg fod yn effro i sylwadau ac arsylwadau'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu cyn trafod a chymeradwyo Strategaeth Hybu'r Gymraeg 2022-27

4. GWYBODAETH GEFNDIROL

- 4.1 Yn dilyn ymrwymiad i gynnal gwaith cyn y cam craffu ar Strategaeth Hybu'r Gymraeg cyn i Is-bwyllgor y Cabinet ei thrafod, derbyniodd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu adroddiad y Cyfarwyddwr Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymuned a amlinellodd nod yr ail gynllun gweithredu a sut mae'r Cyngor, a'i bartneriaid, yn bwriadu ychwanegu at waith y 5 mlynedd diwethaf i hybu'r iaith a hwyluso'r defnydd ohoni

- 4.2 Diben y gwaith cyn y cam craffu oedd rhoi cyfle i Bwyllgor Trosolwg a Chraffu'r Cyngor lunio sylwadau ac arsylwadau ar y cyd er mwyn i Is-bwyllgor y Cabinet eu trafod yn ei gyfarfod ar [9 Mai 2023](#)

5. **MATERION ALLWEDDOL**

- 5.1 Yng nghyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu, cyflwynodd Aelodau sylwadau mewn perthynas â rhai o'r materion allweddol, megis:-

- Roedd Aelodau'n falch o gael gwybod bod Swyddog Eisteddfod eisoes wedi bod yn gweithio gyda nifer o bartneriaid i gynyddu ymgysylltiad a chyfranogiad. Hoffai Aelodau weld targedau yng nghynlluniau gweithredu a busnes Eisteddfod yn y dyfodol.
- Nododd Aelodau yr hoffon nhw weld rhagor o gyfleoedd a chyfeiriadau sy'n trin y Gymraeg fel iaith fyw fel bod pobl yn parhau i ddefnyddio'r Gymraeg a datblygu eu sgiliau Cymraeg ar ôl iddyn nhw adael addysg brif ffrwd.
- Rhoddodd Aelodau glod i Wasanaeth y Llyfrgelloedd am ei ymgysylltiad â'r gymuned i annog pobl i gymryd rhan mewn gweithgareddau trwy gyfrwng y Gymraeg.
- Cyfeiriodd y Pwyllgor at nifer y disgyblion sy'n dewis gadael addysg cyfrwng Cymraeg, ac **argymhellodd** fod yr Awdurdod yn monitro'r data yma a'r rhesymau pam maen nhw'n gadael yn agos. Cyfeiriodd Aelodau at ddarpariaeth ADY mewn addysg cyfrwng Cymraeg ac at rieni nad ydyn nhw'n teimlo'n hyderus y bydd modd iddyn nhw roi cymorth i'w plant i wneud gwaith cartref a gweithgareddau allgyrsiol.
- **Argymhellodd** Aelodau gynnal gwaith pellach i ddeall beth yw'r rhwystrau canfyddedig o ran ymgysylltu â'r Gymraeg, megis cysylltiadau ag amddifadedd.

6. **CASGLIAD**

- 6.1 Mae craffu yn rhan hanfodol o lywodraethu da ac mae'n gwella proses gwneud penderfyniadau a darpariaeth gwasanaethau'r Cyngor. Felly bydd gwaith cyn y cam craffu yn y maes yma, wedi'i gynnal gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu, yn atgyfnerthu atebolrwydd ac yn helpu'r Cabinet i wneud unrhyw benderfyniadau ar y materion yma yn y dyfodol.

7. GOBLYGIADAU CYDRADDOLDEB AC AMRYWIAETH/DYLETSWYDD ECONOMAIDD-GYMDEITHASOL

- 7.1 Mae Asesiad Cydraddoldeb ac Amrywiaeth / Effaith Economaidd-gymdeithasol wedi'i gwblhau ar gyfer prif Strategaeth Hybu'r Gymraeg 2022-2027, ac mae modd bwrw golwg arno yma.

8. GOBLYGIADAU ARIANNOL AC ADNODDAU

- 8.1 Does dim goblygiadau ariannol penodol sy'n gysylltiedig â'r adroddiad yma. Serch hynny, efallai bydd costau ac adnoddau sydd eu hangen ar wasanaethau er mwyn gwireddu'r Cynllun Gweithredu.

9.0 GOBLYGIADAU'R IAITH GYMRAEG

- 9.1 Cafodd Asesiad Effaith ar y Gymraeg ei gwblhau ar gyfer prif Strategaeth Hybu'r Gymraeg 2022-2027 ac mae modd bwrw golwg arno [yma](#).

10.0 GOBLYGIADAU CYFREITHIOL A DEDDFWRIAETH BERTHNASOL

- 10.1 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Safonau Statudol ar gyfer y Gymraeg 2015 sy'n rheoleiddio'r gwaith yma. Mae'r strategaeth hefyd yn gysylltiedig â'r Strategaeth Mwy Na Geiriau (fframwaith strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol Cymraeg) a Chynlluniau Strategol y Gymraeg Mewn Addysg (o dan y Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013).

DEDDF LLYWODRAETH LEOL 1972

fel sy wedi'i diwygio gan

DDEDDF LLYWODRAETH LEOL (CYFLE I WELD GWYBODAETH) 1985

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF

RHESTR O BAPURAU CEFNDIR:

IS-BWYLLGOR Y CABINET AR FATERION Y GYMRAEG

**ADRODDIAD Y CYFARWYDDWR GWASANAETH – GWASANAETHAU
DEMOCRATAIDD A CHYFATHREBU**



CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF

IS-BWYLLGOR Y CABINET AR FATERION Y GYMRAEG

9 MAI 2023

STRATEGAETH HYBU'R GYMRAEG 2022 – 2027

**ADRODDIAD CYFARWYDDWR MATERION IECHYD A DIOGELWCH Y
CYHOEDD, A GWASANAETHAU CYMUNED MEWN TRAFODAETH GYDA
DEILIAD Y PORTFFOLIO PERTHNASOL, Y CYNG. RHYS LEWIS**

Awdur(on): Nicola Lewis, Pennaeth Gwasanaethau Cymuned
a'r Gymraeg
Steffan Gealy, Rheolwr Gwasanaethau Cymraeg

1.0 DIBEN YR ADRODDIAD

- 1.1 Diben yr adroddiad yw rhoi copi diwygiedig o Gynllun Gweithredu Strategaeth Hybu'r Gymraeg (Atodiad 2) i Is-bwyllgor y Cabinet ar faterion y Gymraeg i gefnogi gweithrediad Strategaeth Hybu'r Gymraeg 2022-2027 (Atodiad 1), a gafodd ei chymeradwyo gan y Pwyllgor yma ar 25 Hydref 2022.

2.0 ARGYMHELLION

Dyma'r argymhellion i'r Aelodau:-

- 2.1 Nodi cynnwys yr adroddiad hwn a'r Cynllun Gweithredu cysylltiedig
- 2.2. Cymeradwyo Cynllun Gweithredu'r Strategaeth Hybu'r Gymraeg 2022 i 2027.

3.0 RHESYMAU DROS YR ARGYMHELLION

- 3.1 Mae'n ofynnol i'r Cyngor baratoi Strategaeth Bum Mlynedd i hwyluso a hybu'r Gymraeg yn y sir o dan Safon 145 yr Hysbysiad Cydymffurfio sydd wedi'i gyhoeddi dan adran 44 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

4.0 CEFNDIR

- 4.1 Cymeradwyodd y Pwyllgor yma, sef Is-bwyllgor y Cabinet ar faterion y Gymraeg, gopi diwygiedig o Strategaeth Hybu'r Gymraeg (Atodiad 1) ar 25 Hydref 2022 fel sy'n ofynnol o dan Safon 145 o'r Hysbysiad Cydymffurfio a gafodd ei gyflwyno i Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf o dan Adran 44 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011.
- 4.2 Yn 2021, daeth Strategaeth Hybu'r Gymraeg Bum Mlynedd gyntaf y Cyngor i ben.
- 4.3 Yn dilyn cymeradwyaeth ym mis Ebrill 2021 gan gyn Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg, cafodd Nico Cyf, sefydliad allanol sy'n arbenigo mewn cynllunio iaith, ei gomisiynu er mwyn cynorthwyo'r Cyngor wrth lunio Strategaeth Hybu'r Gymraeg wedi'i diwygio ar gyfer 2022-2027.
- 4.4 Comisiynwyd Nico Cyf i roi cymorth i'r Cyngor hefyd wrth lunio cynllun gweithredu sy'n cefnogi gweithredu'r Strategaeth. Cytunodd Is-bwyllgor y Cabinet ar faterion y Gymraeg y byddai raid i'r cynllun gweithredu fynd trwy'r broses graffu er mwyn derbyn argymhellion cyn i'r Is-bwyllgor ei gymeradwyo.
- 4.5 Yn dilyn hynny, cafodd y cynllun gweithredu drafft ei ystyried gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar 21 Mawrth 2023.

5.0 Y SEFYLLFA BRESENNOL / Y CYNNIG

- 5.1 Fe fydd Cynllun Gweithredu 2022-2027 yn ail gynllun gweithredu Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf i gefnogi'r Cyngor wrth gyflawni'i Strategaeth Hybu'r Gymraeg. Bydd y cynllun yma'n barhad o'r cynllun gweithredu cyntaf (2016-2021)
- 5.2. Bwriad yr ail Strategaeth Bum Mlynedd ydy manteisio ar y gwaith y mae'r Cyngor a'i bartneriaid wedi'i wneud i hybu a hwyluso'r Gymraeg yn ystod y pum mlynedd diwethaf.
- 5.3 Bydd y cynllun gweithredu'n chwarae rhan wrth gefnogi amcan y strategaeth, sef cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn y Fwrdeistref Sirol yn unol ag ymgyrch Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru; y garreg filltir nesaf ydy cynnydd o 5% yn nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghyfrifiad 2021.

5.4 Hefyd, bydd y cynllun gweithredu'n cyd-fynd â thair prif thema genedlaethol sy'n cael eu nodi yn y Strategaeth, fel a ganlyn:

➤ Thema 1: Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg

- Trosglwyddo'r iaith yn y teulu
- Y Blynyddoedd Cynnar
- Addysg statudol
- Addysg ôl-16
- Y gweithlu addysg, adnoddau a chymwysterau

➤ Thema 2: Cynyddu defnydd o'r Gymraeg

- Yn y gweithle
- Gwasanaethau
- Defnydd o'r Gymraeg yn gymdeithasol

➤ Thema 3: Creu amodau ffafriol – seilwaith a chyd-destun

- Y gymuned a'r economi
- Diwylliant a'r cyfryngau
- Cymru yn y byd ehangach
- Technoleg ddigidol
- Seilwaith ieithyddol modern
- Cynllunio iaith
- Gwerthuso ac ymchwil

5.5 Mae hefyd yn bwysig nodi y bydd partneriaid y Cyngor i gyd yn chwarae rhan allweddol wrth gyflawni ail Strategaeth Hybu'r Gymraeg, ac felly mae'r cynllun gweithredu wedi'i rannu'n ddwy. Mae rhan 1 yn amlinellu'r gweithgareddau a thargedau sy'n cael eu harwain gan y Cyngor, naill ai'n uniongyrchol neu drwy gomisiynu gwasanaethau eraill gan sefydliadau eraill; ac yn Rhan 2 o'r cynllun gweithredu mae cyfle i bartneriaid gyfrannu at lwyddiant y strategaeth gyffredinol.

5.6 Ni fydd yr un goblygiadau o ran monitro a chraffu ar gyfer Rhan 2 o'r cynllun gweithredu, ond fe fydd partneriaid yn cael eu gwahodd i roi'r wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â'r cynnydd bob blwyddyn.

6.0 GOBLYGIADAU O RAN CYDRADDOLDEB AC AMRYWIAETH / DYLETSWYDD ECONOMAIDD GYMDEITHASOL

6.1 Mae asesiad Cydraddoldeb ac Amrywiaeth / Economaidd Gymdeithasol wedi'i gwblhau ar gyfer prif Strategaeth Hybu'r Gymraeg 2022-2027, ac mae modd bwrw golwg arno [yma](#).

7.0 YMGYNGHORI

- 7.1 Cafodd ymgynghoriad cyhoeddus ei gynnal yn 2021 ar gyfer y brif strategaeth ynghyd â thrafodaethau â rhanddeiliaid a gwasanaethau allweddol drwy gydol cyfnod drafftio'r cynllun gweithredu newydd.

8.0 GOBLYGIADAU ARIANNOL

- 8.1 Does dim goblygiadau ariannol penodol sy'n gysylltiedig â'r adroddiad yma. Serch hyn, efallai bydd costau ac adnoddau sydd eu hangen ar wasanaethau er mwyn gwireddu'r Cynllun Gweithredu.

9.0 GOBLYGIADAU'R IAITH GYMRAEG

- 9.1 Cafodd Asesiad Effaith y Gymraeg ei gwblhau ar gyfer prif Strategaeth Hybu'r Gymraeg 2022-2027 ac mae modd bwrw golwg arno [yma](#).

10.0 GOBLYGIADAU CYFREITHIOL A DEDDFWRIAETH BERTHNASOL

- 10.1 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Safonau Statudol ar gyfer y Gymraeg 2015 sy'n rheoleiddio'r gwaith yma. Mae'r strategaeth hefyd yn gysylltiedig â'r Strategaeth Mwy Na Geiriau (fframwaith strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol Cymraeg) a Chynlluniau Strategol y Gymraeg Mewn Addysg (o dan y Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013).

11.0 CASGLIAD

- 11.1 Byddai'r Strategaeth Hybu'r Gymraeg 2022-27 a'r Cynllun Gweithredu yn ychwanegu at y gwaith da gafodd ei wneud gan wasanaethau'r Cyngor a'n partneriaid yn rhan o'r strategaeth gyntaf. Cafodd hyn effaith gadarnhaol ar ddarparu gwasanaethau yn y Gymraeg i drigolion Rhondda Cynon Taf.



Strategaeth Hybu'r Gymraeg 2022-2027

Hybu'r Gymraeg a hwyluso'r defnydd ohoni
yn Rhondda Cynon Taf

Wedi'i pharatoi yn unol â gofynion Safon 145,
Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015.

This document is available in English

Strategaeth Hybu'r Gymraeg

Trosolwg

Dyma strategaeth 5 mlynedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ar gyfer hybu'r Gymraeg. Mae wedi'i pharatoi yn unol â gofynion Safon 145, Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015. Mae'n disodli strategaeth hybu gyntaf y Cyngor a oedd yn cwmpasu'r cyfnod 2017-2022. Cafodd y strategaeth newydd hon ei chymeradwyo gan Is-bwyllgor y Cabinet ar faterion y Gymraeg ar xx xx 2022.

Mae'r Strategaeth hon yn esbonio sut bydd y Cyngor yn hybu'r Gymraeg ac yn hwyluso'r defnydd ohoni yn ehangach yn ardal Rhondda Cynon Taf a bydd ei gweithrediad yn destun craffu rheolaidd gan Is-bwyllgor y Cabinet ar faterion y Gymraeg.

Rhagor o wybodaeth

Am ragor o wybodaeth ynglŷn â'r strategaeth hon, cysylltwch â:

Uned Gwasanaethau Cymraeg swyddogiaith@rctcbc.gov.uk

Cynnwys

1	Gair o gyflwyniad gan yr Arweinydd	4
2	Ein Gweledigaeth	5
3	Cyd-destun	6
4	Y Gymraeg yn Rhondda Cynon Taf	10
5	Meysydd blaenoriaeth y strategaeth	15

Gair o gyflwyniad gan yr Arweinydd

Mae'n bleser gennyf gyflwyno ail strategaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ar gyfer hybu'r Gymraeg.

Mae'r strategaeth hon yn barhad o strategaeth 2017-2022, cyfnod a welodd heriau aruthrol, gydag effeithiau llifogydd a phandemig Covid-19 yn ffocws annatod i'n hymdrechion fel Cyngor. Ond roedd hefyd yn gyfnod lle gwelsom sefydlogi a thwf o ran yr iaith Gymraeg.

Mae'r strategaeth hon yn adeiladu ar y gwaith a wnaed gennym ni a'n partneriaid i hybu a hyrwyddo'r iaith dros y pum mlynedd diwethaf. Ynnddi mae nodau newydd sy'n ymateb i anghenion a heriau newydd. Yn ogystal, mae'n eistedd ochr yn ochr â'n Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2022-2032 fel ein bod ni, fel Cyngor, yn chwarae ein rhan yn llawn wrth anelu at weledigaeth Llywodraeth Cymru o sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Mae twf addysg Gymraeg yn hollbwysig i gynyddu niferoedd siaradwyr a bydd y Strategaeth Hybu yn ategu ein CSCA newydd gan sicrhau cyfleoedd y tu allan i furiau'r ysgol i blant a phobl ifanc ddefnyddio'u Cymraeg yn gymdeithasol ac yna wrth iddynt barhau â'u taith i fyd gwaith a hyfforddiant.

Mae'r iaith Gymraeg yn perthyn i bawb ac mae ein trigolion wedi mynegi eu hawydd am fwy o gyfleoedd i siarad yr iaith, i glywed ac i ddysgu'r iaith yn eu cymunedau. Felly, mae'r strategaeth hon wedi'i llunio gyda dyheadau ein trigolion yn ganolog iddi.

Wrth gwrs, mae hanes hir a chyfoethog i'r iaith ers canrifoedd yn y cymoedd hyn, o groesawu'r Eisteddfod Genedlaethol gyntaf i Aberdâr yn 1861, i gynnal Eisteddfod Genedlaethol 2024 yma yn y sir. Rydym yn estyn croeso cynnes i weddill Cymru i ymuno â ni i ddathlu'r Gymraeg yn Rhondda Cynon Taf a'r holl gyfleoedd cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd a ddaw yn sgil hynny. Bydd cynnal Gwaddol Eisteddfod Genedlaethol 2024 i'r dyfodol yn allweddol ac mae'r strategaeth hon yn chwarae rhan bwysig drwy sicrhau bod y cyfleoedd hynny yn gwreiddio ac yn ffynnu, fel bod y Gymraeg yn cyfoethogi bywydau holl drigolion Rhondda Cynon Taf.

Y Cynghorydd Rhys Lewis

Aelod o'r Cabinet ar faterion Addysg, Cyfranogiad Pobl Ifainc a'r Gymraeg

Ein Gweledigaeth

Ein gweledigaeth yw datblygu Rhondda Cynon Taf yn sir gwbl ddwyieithog. Bwrdeistref Sirol lle mae modd i drigolion fyw, gweithio a chwarae, yn ogystal â manteisio ar wasanaethau a chymorth, trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. Ardal lle mae dwyieithrwydd yn cael ei hybu'n gwbl naturiol ac mae'r iaith Gymraeg yn cael ei diogelu er mwyn i genedlaethau'r dyfodol ei defnyddio a'i mwynhau.

Mae'r Gymraeg yn perthyn i bawb ac rydym am gynnwys y rheini nad ydynt yn siarad yr iaith wrth i ni gyd ymfalchïo ynddi a'i hanes yn yr ardal hon, a'i chyfraniad at ein diwylliant, ein heconomi a'n hunaniaeth.

Er mwyn chwarae ein rhan ni yn y weledigaeth genedlaethol o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 bydd angen sicrhau cynnydd o 5% neu fwy ar ffigur 2021 o siaradwyr Cymraeg yn Rhondda Cynon Taf¹.

Byddwn yn mynd ati dros y 5 mlynedd nesaf i sicrhau mwy a mwy o gyfleoedd i ddefnyddio'r iaith ac i glywed yr iaith drwy amrywiaeth o weithgareddau gan adrodd yn rheolaidd ar gynnydd.

Gwireddu'r weledigaeth

Mae ein blaenoriaethau strategol ar gyfer cyflawni'r weledigaeth yn dilyn tri maes strategol Llywodraeth Cymru yn ei strategaeth hithau ar gyfer y Gymraeg, sef Cymraeg 2050: miliwn o siaradwyr. Er mwyn cyflawni'r Strategaeth byddwn yn mabwysiadu cynllun gweithredu (i'w baratoi/gytuno wedi i ganlyniadau Cyfrifiad 2021 ddod i law) gyda thargedau yn cwmpasu'r holl flaenoriaethau strategol. Bydd y cynllun gweithredu yn ddogfen fyw, a bydd modd ei haddasu yn hawdd ac yn rheolaidd, gan ein galluogi ni i fod yn hyblyg, yn flaengar ac yn ymatebol wrth weithredu'r strategaeth dros y 5 mlynedd. Byddwn yn cydweithio â phartneriaid lleol a chenedlaethol i wireddu'r nodau yn y Strategaeth Hybu hon. Mae **adran 5** yn manylu ar sut byddwn ni'n trefnu ein gwaith.

¹ Byddwn yn diwygio'r strategaeth hon i sicrhau mwy o eglurder ar y ganran hon a'r niferoedd cysylltiedig pan fydd ffigurau Cyfrifiad 2021 ar gael inni.

Cyd-destun

Mae'r Strategaeth Hybu yn bodoli mewn cyd-destun polisi ehangach ar gyfer ffyniant cymunedau a'r Gymraeg.

Mesur y Gymraeg

Mae llunio strategaeth 5 mlynedd i hybu'r Gymraeg yn Rhondda Cynon Taf yn ofyniad statudol o dan Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 (Safonau'r Gymraeg 145 a 146). Mae gofyn i'r Cyngor:

- Lunio a chyhoeddi strategaeth 5 mlynedd sy'n esbonio sut mae'r Cyngor yn bwriadu mynd ati i hybu'r Gymraeg a hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn ehangach yn yr ardal
- Cynnwys targed ar gyfer cynyddu neu gynnal nifer y siaradwyr Cymraeg yn yr ardal erbyn diwedd y cyfnod o 5 mlynedd
- Egluro sut mae'r Cyngor yn bwriadu cyrraedd y targed hwnnw.

Mae Safonau'r Gymraeg yn eu cyfanrwydd yn fframwaith statudol i ymestyn y defnydd o'r Gymraeg gan y Cyngor yn y pum maes canlynol:

- Cyflenwi gwasanaethau
- Llunio polisiâu sy'n hybu'r Gymraeg
- Gweithredu trwy gyfrwng y Gymraeg
- Cadw cofnodion am y Gymraeg
- Hybu'r Gymraeg.


Mae llunio strategaeth hybu yn ofyniad o dan y dosbarth olaf hwn o safonau ond mae'r safonau llunio polisi yn allweddol i'r cyd-destun ehangach mae'r strategaeth yn bodoli ynddo. Bwriad y safonau llunio polisi yw creu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg ym mhob penderfyniad polisi a wneir gan y Cyngor.

Gall asesu effeithiau penderfyniadau polisi amlygu effaith positif a fyddai'n galluogi'r Cyngor i gynyddu'r effaith positif honno o ran y Gymraeg. Y gobaith gyda'r strategaeth hon yw y bydd yn amlygu cysylltiadau a chyfleoedd uniongyrchol ac anuniongyrchol i feysydd polisi eraill y Cyngor.

Cymraeg 2050: miliwn o siaradwyr

Mae Cymraeg 2050, sef strategaeth Llywodraeth Cymru i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 drwy hybu a hwyluso'r Gymraeg, yn strategaeth gynhwysfawr

ag iddi weledigaeth hirdymor. Mae'n seiliedig ar dair thema graidd:



Mae Strategaeth Hybu Rhondda Cynon Taf ar gyfer 2022-2027 yn crisialu'r hyn y bydd y Cyngor yn ei wneud i gefnogi'r weledigaeth hon ac rydym felly wedi diweddaru'r strategaeth gyda'n blaenoriaethau wedi'u trefnu yn ôl tri maes thematig Cymraeg 2050. Byddwn yn gweithio fesul pum mlynedd at y nodau hyn gan bennu gweithgareddau yn y tri maes blaenoriaeth.

Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2022-2032

Mae llunio Cynllun Strategaeth Cymraeg mewn Addysg (CSCA) yn ofyniad statudol, a'r nod yw cynyddu nifer y disgyblion sy'n derbyn addysg Gymraeg yn y sir. Mae'r CSCA yn amlinellu'n fwy penodol sut bydd y Cyngor yn mynd ati i gynyddu canran dysgwyr Blwyddyn 1 mewn addysg Gymraeg rhwng 8% a 12% sef cynnydd o 506 o ddysgwyr (yn 2019) i ffigur rhwng 720 a 825 o ddysgwyr erbyn 2032. Mae hyn yn gyfraniad uniongyrchol at darged hirdymor y strategaeth genedlaethol o sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

I gyd-fynd â'r targed hwn ar gyfer y 10 mlynedd nesaf, mae'r cynllun strategol yn amlinellu sut bydd y Cyngor yn mynd ati i gyflawni nifer o ganlyniadau penodol sy'n cynnwys y blynyddoedd cynnar, addysg drochi, darpariaeth well i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol, mwy o gyfleoedd anffurfiol i ddisgyblion ddefnyddio'r iaith yn yr ysgol, mwy o ddysgwyr yn astudio ar gyfer cymwysterau yn Gymraeg a chynyddu nifer y staff sy'n gallu dysgu yn Gymraeg.

Mae'r cynllun strategol hefyd yn pwysleisio pwysigrwydd marchnata a hyrwyddo addysg Gymraeg a dwyieithrwydd yn Rhondda Cynon Taf yn ogystal â chydweithio'n agos â phartneriaid.

Mae cyswllt agos iawn felly rhwng y CSCA a'r Strategaeth Hybu ac yn benodol â Thema 1 o ran cynyddu nifer y siaradwyr. Mewn gwirionedd dim ond drwy CSCA cryf ac uchelgeisiol y bydd modd i'r Cyngor lwyddo i gyflawni'r ymrwymiad hwn ond mae'n hollbwysig i'r Strategaeth Hybu weithio law yn llaw i sicrhau'r cyfleoedd gorau i gynyddu defnydd. Er mwyn osgoi dyblygu ni fydd y strategaeth hon yn ailadrodd camau gweithredu'r CSCA ond dylid ystyried y CSCA fel prif arf Thema 1.

Mwy na Geiriau

Mwy na geiriau yw'r fframwaith strategol ar gyfer gwasanaethau Cymraeg mewn iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol. Lanswyd y fframwaith gwreiddiol yn 2012, a fframwaith olynol yn 2016. Mae Mwy na Geiriau yn amlygu'r ffaith bod gofal ac iaith yn mynd law yn llaw ac y gallai ansawdd gofal gael ei beryglu drwy fethiant i gyfathrebu gyda phobl yn eu hiaith gyntaf. Yn ganolog i'r fframwaith yw egwyddor y Cynnig Rhagweithiol, sef bod gwasanaethau Cymraeg yn cael eu cynnig yn hytrach na bod pobl yn gorfod gofyn amdanynt.

Mae gan y Cyngor gamau mewn lle i wireddu disgwyliadau'r fframwaith o safbwynt ei wasanaethau cymdeithasol a gofal ac mae'n brif bartner ar y Fforwm Mwy na Geiriau lleol sy'n dwyn partneriaid ynghyd i rannu arferion da a sicrhau cynnydd yn y camau gweithredu.

Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Nod Cynlluniau Llesiant lleol yw cynnig agwedd fwy cyfannol o gynllunio a darparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys ffordd well o integreiddio'r deddfau, y dyletswyddau a'r fframweithiau cynllunio perthnasol.

Mae'r Strategaeth Hybu yn chwarae rhan greiddiol wrth i'r Cyngor gyflawni un o'r nodau Llesiant yn benodol, sef 'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu'. Serch hynny, mae'n bwysig cydnabod bod cyswllt agos iawn rhwng yr iaith a'r nodau Llesiant eraill, a phwysigrwydd partneriaethau a fframweithiau ehangach.

Yn ganolog i Gynllun Corfforaethol Rhondda Cynon Taf mae **Pobl, Lleoedd a Ffyniant** a'r bwriad gyda nod Llesiant 'diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu' yw rhoi ffocws ar sicrhau mwy o gyfleoedd i bobl ym maes y celfyddydau a diwylliant; denu pobl ifanc at brofiadau cadarnhaol ym maes diwylliant a chwaraeon a sicrhau bod mwy o gyfleoedd i drigolion ddefnyddio'r Gymraeg. Fel rhan o hyn mae'r Cyngor yn bwriadu cynnal mwy o ddigwyddiadau diwylliannol a chwaraeon mewn parciau ledled y fwrdeistref a chynllunio'n ofalus ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol 2024 a'i gwaddol. Bydd yn hyrwyddo Rhondda Cynon Taf fel cyrchfan i ymwelwyr ac yn sicrhau mynediad cyfartal i'r Gymraeg ar draws pob gwasanaeth.

Mae dangosyddion cenedlaethol ynghlwm â'r Ddeddf Llesiant sy'n mesur cynnydd yn nhermau niferoedd siaradwyr Cymraeg a bydd y data hyn yn allweddol wrth olrhain cynnydd gyda'r strategaeth hon:

- Y ganran o bobl sy'n siarad Cymraeg yn feunyddiol ac sy'n gallu siarad mwy nag ychydig eiriau o Gymraeg (Dangosydd Cenedlaethol 36)
- Nifer y bobl a all siarad Cymraeg (Dangosydd Cenedlaethol 37)

Wrth gwrs, mae nifer helaeth o'r dangosyddion cenedlaethol eraill sy'n ymwneud â chymunedau cydlynus, ffyniant, iechyd, cynhwysiant digidol ac yn y blaen, oll yn chwarae eu rhan i sicrhau gwell cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn yr ardal.

Eisteddfod Genedlaethol 2024

Un o brif uchafbwyntiau'r 5 mlynedd nesaf o ran hybu'r Gymraeg fydd ymweliad yr Eisteddfod Genedlaethol â Rhondda Cynon Taf yn 2024. Er mwyn sicrhau'r budd cymunedol gorau posibl yn y blynyddoedd yn arwain at yr Eisteddfod yn 2024 a'r gwaddol a ddaw yn ei sgil i'r ardal, rydym wedi penodi Swyddog Eisteddfod. Ar y cyd â swyddogion yr Eisteddfod Genedlaethol a Chadeirydd y Pwyllgor Gwaith bydd ein Swyddog yn cydlynu rhaglen o weithgareddau i weithio'n agos ag ysgolion, grwpiau cymunedol a'r sector preifat. Y nod yw adeiladu perthynas hir a pharhaol rhwng y Cyngor a chymunedau lleol gan gynyddu cyfleoedd yn y sir i ddysgu a defnyddio'r Gymraeg gyda mwy o gyfleoedd artistig a chreadigol.

Bydd gan ein trigolion le canolog yn y gwaith wrth ddod yn wirfoddolwyr ac yn bencampwyr ar gyfer eu hardaloedd i'n helpu i gyflwyno'r Eisteddfod i bob cwr o'r sir ac i deimlo'n rhan werthfawr o'u cymunedau lleol. Ein gobaith yw cynnal y brwdfrydedd y tu hwnt i 2024 gan barhau i ddathlu a hyrwyddo hanes, diwylliant a threftadaeth Rhondda Cynon Taf fydd yn ei dro yn hwb i dwristiaeth a'r economi lleol.

Y Gymraeg yn Rhondda Cynon Taf

Cymuned o gymunedau

Mae Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn cwmpasu ardal eang iawn – mae'r sir yn ymestyn o Fannau Brycheiniog yn y gogledd i gyrion Caerdydd yn y de. Oddi mewn i'r sir mae tair ardal benodol sef Taf Elái, Cynon a'r Rhondda. Er nad oes pellter maith rhwng yr ardaloedd fel yr hed y frân, mae'r tair ardal yn annibynnol ac yn wahanol iawn i'w gilydd, yn gymysgedd o ardaloedd trefol, rhannol drefol a gwledig.

Rhondda Cynon Taf yw'r trydydd awdurdod lleol mwyaf yng Nghymru o ran poblogaeth (241,873 yn ôl amcangyfrif y Llywodraeth yn 2020), ac yn ôl ffigurau'r Llywodraeth, Rhondda Cynon Taf yw un o'r siroedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru ac mae nifer uchel o ardaloedd y sir – yn y gogledd a chanol y sir yn bennaf – ymhlith y 10% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Mae hyn yn gosod heriau sylfaenol i'r awdurdod lleol o ran iechyd, lles, cyflogaeth a sgiliau pobl yr ardal.


Mae 6 thref yn y sir a 62 o bentrefi, er bod natur fwy trefol i rai o'r pentrefi hynny. Dwy dref fawr sydd yn y sir sef Aberdâr a Phontypridd sydd â thua 30,000 o drigolion yr un, ac mae'r ddwy dref hon wedi gweld buddsoddiad mawr o ran adeiladwaith, strwythur a datblygiadau cymunedol.

Yn ôl StatsCymru, yn seiliedig ar ffigurau 2018, rhagwelir bydd poblogaeth Rhondda Cynon Taf yn cynyddu i 248,098 erbyn 2032. Yr her i'r sir o ran tyfu niferoedd siaradwyr yw'r ffaith y rhagwelir gostyngiad yn y gyfradd genedigaethau (er enghraifft amcangyfrifir bod 2,831 o blant 5 oed yn y sir yn 2021, yn syrthio i 2,621 o blant 5 oed erbyn 2032).

Siaradwyr Cymraeg

Yn ôl ffigurau Cyfrifiad 2011, roedd gan y sir **27,779** o siaradwyr Cymraeg, sy'n cynrychioli **12.3%** o'r boblogaeth ond bydd rhaid aros ychydig eto nes bydd ffigurau Cyfrifiad 2021 ar gael er mwyn cael darlun clir o gynnydd a'r meysydd y bydd angen i ni fynd i'r afael â nhw, gan ddiweddarau'r strategaeth hon yn unol â hynny.

Mae'r map sy'n dilyn yn rhoi darlun mwy gweledol o ble mae siaradwyr Cymraeg Rhondda Cynon Taf yn ôl ffigurau Cyfrifiad 2011 fesul ward. Mae'r manau coch mwy tywyll yn dynodi nifer uwch o siaradwyr Cymraeg na'r rhannau golau. Mae 14 ward allan o'r 36 â chanrannau uwch na'r cyfartaledd sirol (12.3%) o siaradwyr Cymraeg gyda chlystyrau mwy o gymunedau a chanrannau uwch yn ne'r sir, tra bod pocedi o ganrannau uwch yng nghymunedau gogleddol y Sir.



Dangosir canrannau o fewn ardaloedd cynnyrch Cyfrifiad 2011, o fewn adrannau etholiadol

Crëwyd gan Hywel Jones. Cywirwyd newidynnau KS208WA0022-27

Yn cynnwys data Ystadegau Gwladol © Hawlfraint y Goron a hawl cronfa ddata 2013; Yn cynnwys data Arolwg Ordians © Hawlfraint y Goron a hawl cronfa ddata 2013

Gweithlu

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn gyflogwr mawr yn yr ardal ac yn ymrwymedig i sicrhau cyfleoedd i'r holl weithlu feithrin ymwybyddiaeth o'r iaith, ei dysgu a gwella eu sgiliau Cymraeg. Mae hyn hefyd yn ffordd uniongyrchol i ni chwarae ein rhan yn y gwaith o gynyddu niferoedd ein siaradwyr Cymraeg.

Mae'r tabl syml isod yn crisialu'r gwaith a wnaed hyd yma:

Staff y Cyngor – sgiliau Cymraeg (nid yw'r ffigurau'n cynnwys staff sy'n gweithio mewn ysgolion)	2017-2018	2020-2021
Dim sgiliau Cymraeg	66.99%	44.40%
Sgiliau Lefel 1	22.12%	39.64%
Rhugl	5.69%	8.69%

(gwelwyd cynnydd hefyd ym mhob un o'r lefelau eraill, 2-5)

Er bod cynyddu sgiliau Cymraeg y gweithlu wedi'i gwmpasu gan ofynion safonau eraill o dan Reoliadau Safonau'r Gymraeg 2015, mae'n wir dweud bod y gwaith hwn yn allweddol i gynyddu nifer ein siaradwyr a'r defnydd o'r Gymraeg erbyn 2050.

Llais trigolion Rhondda Cynon Taf: “dysgu” “ymarfer” “defnyddio”

Rhwng mis Medi a Hydref 2021, cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus â thrigolion Rhondda Cynon Taf ar ddatblygu'r strategaeth newydd i hybu'r Gymraeg.

Gofynnwyd i drigolion beth fyddai'n eu helpu i ddefnyddio mwy o'r Gymraeg. Yr ateb mwyaf cyffredin oedd “mwy o gyfleoedd i'w defnyddio” (55.6%). Dywedodd 15.7% o'r ymatebwyr y byddai “cyfle i ddysgu” yn eu helpu i ddefnyddio'r iaith, a 10.7% yn nodi “mwy o hyder”. Ymhlith yr hyn a nodwyd gan ymatebwyr, roedd nodi pa aelodau o staff sy'n siarad Cymraeg mewn siopau/caffis/bwytyai a “mwy o bobl i siarad gyda nhw”.

Gofynnwyd i drigolion ble roedden nhw'n defnyddio'r Gymraeg, gyda 53.4% yn dweud yn y cartref a 50% yn y gwaith.

Gofynnwyd a fyddai'r ymatebwyr, neu rywun roedden nhw'n eu hadnabod â diddordeb mewn dysgu'r iaith neu wella eu sgiliau. Nododd mwyafrif clir (59%) eu bod nhw, neu rywun roedden nhw'n eu hadnabod â diddordeb mewn dysgu neu wella sgiliau, gyda 13% arall yn nodi “efallai”.

O ran y meysydd lle byddai pobl am weld rhagor o wasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg, nododd 65.2% o'r ymatebwyr fod angen mwy o wasanaethau Cymraeg ym maes Gwasanaethau Ieuenctid. Yn ail daeth Blynnyddoedd Cynnar ynghyd a Thwristiaeth a Pharciau (59.6%) a nododd 55.6% fod angen mwy o wasanaethau Chwaraeon a Hamdden yn Gymraeg.

O ran pa feysydd fyddai'n cael y budd gorau o'r gwasanaethau hyn, y prif themâu ddaeth i'r amlwg ym marn yr ymatebwyr oedd addysg, blynnyddoedd cynnar a gwasanaethau ieuenctid, gan awgrymu bod caffael iaith fel plentyn a normaleiddio defnydd o'r iaith i blant a phobl ifanc yn hanfodol i'r ymatebwyr. Ymhlith ymatebion eraill roedd yr angen i roi lle amlwg i'r Gymraeg wrth i'r Cyngor ymwneud â phobl ynghyd â hyrwyddo diwylliant yn ogystal â'r iaith.

Ymhlith rhai o'r sylwadau, cafwyd:

“Dydw i ddim yn teimlo bod digon o gyfleoedd i ddefnyddio'r iaith y tu allan i'r ystafell ddosbarth”

“Mae fy nghymuned leol i'w gweld yn falch i ddefnyddio'r iaith”

Pan ofynnwyd iddynt sut y gellid cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn Rhondda Cynon Taf, nodwyd

- Gwersi iaith am ddim neu am gost isel
- Rhoi'r Gymraeg yn gyntaf fel yr iaith ddiofyn ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus
- Ehangu ysgolion Cymraeg mewn ardaloedd lleol i leihau'r angen i deithio
- Amlygu'r Gymraeg mewn siopau a chaffis
- Cefnogaeth i rieni disgyblion mewn addysg Gymraeg
- Gwreiddio'r Gymraeg mewn mannau cymunedol a gweithgareddau yn y gymuned
- Anogaeth i staff ac ymwelwyr mewn siopau, caffis ac ati i ddefnyddio'r Gymraeg wrth ddechrau sgwrs.

Mewn arolwg arall a gynhaliwyd yn 2021, RhCT Gyda'n Gilydd, arolwg Helpu Cymunedau i Ffynnu, holwyd trigolion beth hoffent weld mwy ohono yn eu cymunedau. Mewn ymateb i'r cwestiwn hwnnw, nododd 42% mai eu dymuniad oedd gweld rhagor o gyfleoedd i ddysgu, i ddefnyddio ac i ymarfer y Gymraeg yn lleol yn eu cymunedau.



Felly mae awydd trigolion Rhondda Cynon Taf i fyw mewn cymunedau lle mae'r Gymraeg yn rhan o'u bywydau bob dydd yn eglur, a nod y strategaeth hon yw ymateb i ddyheadau pobl yn y meysydd dan sylw. Mae'r strategaeth yn ymrwmo'r Cyngor i ateb y galwadau hyn, sydd hefyd yn gydnaws â'r weledigaeth yn genedlaethol. Yn yr adran nesaf, rydym yn egluro seiliau thematig y strategaeth.

Meysydd Blaenoriaeth y Strategaeth

Fel y nodwyd, mae ein strategaeth ar gyfer hybu'r Gymraeg yn Rhondda Cynon Taf yn seiliedig ar awydd ein trigolion i weld mwy o gyfleoedd i ddysgu'r iaith, i ymarfer yr iaith a'i defnyddio yn eu cymunedau.

Mae'r strategaeth wedi'i strwythuro o gwmpas 3 thema blaenoriaeth Cymraeg 2050 sef cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg; cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg a sicrhau amodau ffafriol i'r Gymraeg.

Thema 1: Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg

Yn ôl y Llywodraeth, mae dau brif ddull o sicrhau miliwn o siaradwyr:

- trosglwyddo'r Gymraeg o un genhedlaeth i'r llall o fewn y teulu
- datblygu a chynnal sgiliau drwy addysg a hyfforddiant, o'r blynyddoedd cynnar hyd at ddarpariaeth yn y Gymraeg i oedolion.

Rydym yn cydnabod cyfraniad pwysig trosglwyddo iaith o fewn y teulu ond hefyd yn pwysleisio pa mor allweddol yw'r system addysg fel y prif ddull o greu siaradwyr Cymraeg newydd yn ardal Rhondda Cynon Taf. Felly bydd y strategaeth hon yn gweithio law yn llaw â'n Cynllun Strategaeth Cymraeg mewn Addysg ar gyfer 2022-2032. Ochr yn ochr â'r CSCA a chyfleoedd i bobl ddysgu'r iaith yn y gymuned, byddwn yn trefnu ein gweithgareddau i ateb y nodau cenedlaethol oddi mewn i'n cyd-destun lleol ni.

1. Trosglwyddo'r iaith o fewn y teulu: cynyddu anogaeth a chefnogaeth i deuluoedd drosglwyddo'r iaith yn y cartref.

2. Y blynyddoedd cynnar: ehangu darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg yn y blynyddoedd cynnar fel pwynt mynediad i addysg cyfrwng Cymraeg.

3. Addysg statudol: cynnal a chryfhau system addysg statudol sy'n cynyddu'r nifer o siaradwyr Cymraeg hyderus.

4. Addysg ôl-orfodol: cefnogi a hyrwyddo darpariaeth sy'n cynyddu cyfraddau dilyniant ac yn cefnogi pawb, ni waeth pa mor rhugl eu Cymraeg, i ddatblygu sgiliau yn yr iaith i'w defnyddio'n gymdeithasol ac yn y gweithle.

5. Y gweithlu addysg, adnoddau a chymwysterau: cefnogi mesurau i gynyddu a gwella:

- y gweithlu addysg a hyfforddiant sy'n gallu addysgu'r Gymraeg ac addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg
- yr adnoddau a'r cymwysterau sydd eu hangen i gefnogi cynnydd yn y ddarpariaeth.

Thema 2: Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg

Rydym am i'r defnydd o'r Gymraeg fod yn rhan arferol o fywyd bob dydd, fel bod siaradwyr ar bob lefel yn teimlo'n hyderus i'w defnyddio mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol. Rydym am weld pob dysgwr yn gadael yr ysgol gyda'r gallu i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol ac yn y gweithle. I gefnogi'r datblygiadau ym myd addysg, mae angen i ni ddarparu cyfleoedd i ymarfer a defnyddio'r iaith yn rheolaidd.

Mae angen cyfleoedd ar bobl i ddefnyddio'r Gymraeg mewn lluo o sefyllfaoedd gwahanol sy'n adlewyrchu'r amrywiaeth yn eu ffordd o fyw. Yn y pen draw, y weledigaeth yw bod pobl yn defnyddio'r iaith ar bob cyfle, a bod y cyfleoedd ar gael ym mhob man.

Bydd hyn yn golygu targedu cymorth mewn ffordd sy'n cydnabod gwahanol anghenion gwahanol bobl. Er enghraifft bydd gan siaradwyr newydd, neu rieni/gofalwyr heb sgiliau Cymraeg sy'n anfon eu plant i ysgolion Cymraeg, anghenion gwahanol i siaradwyr rhugl, hyderus. P'un a ydynt wedi'u magu gyda'r Gymraeg ers yn fabanod, neu wedi dysgu yn yr ysgol neu fel oedolion, iaith i bawb yw'r Gymraeg, a byddwn yn anelu at roi cyfleoedd i bawb ddefnyddio'r iaith.

Nodau:

6. Y gweithle: cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle ar draws pob adran o'r Cyngor drwy gynyddu hyder a sgiliau ein staff.

7. Gwasanaethau: cynyddu ystod y gwasanaethau a gynigir i siaradwyr Cymraeg, a chynyddu'r defnydd o wasanaethau Cymraeg.

8. Defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg: gan weithio gyda'n partneriaid yn lleol, cefnogi sefydlu arferion cadarnhaol o ran defnyddio'r iaith, ynghyd â chyfleoedd ffurfiol ac anffurfiol i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol.

Thema 3: Creu amodau ffafriol i'r Gymraeg

Er mwyn cefnogi'r ymdrechion i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg a'r defnydd o'r Gymraeg, mae angen creu amodau addas ac amgylchedd lle gall y Gymraeg a'i siaradwyr ffynnu.

Mae'r economi'n hanfodol er mwyn creu'r amodau cymdeithasol priodol i ddefnyddio'r Gymraeg. Er nad ydym yn gallu rheoli pob ffactor sy'n dylanwadu ar dwf economaidd, mae yna bethau y gallwn ddylanwadu arnynt. Er enghraifft,

- y pwys a roddir ar y Gymraeg
- swyddi sector cyhoeddus yn y Cyngor
- sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei gweld fel sgil gwerthfawr
- cyfleoedd i ddefnyddio'r sgiliau hyn.

I gynyddu nifer y bobl sy'n siarad Cymraeg, datblygu eu hyder i wneud hynny, a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg mewn amryw o leoliadau, mae angen cefnogaeth

adnoddau digidol, cyfryngau amrywiol, gwasanaethau cyfieithu sy'n manteisio i'r eithaf ar y dechnoleg ac adnoddau ieithyddol diweddaraf. Mae'r rhain i gyd yn elfennau sy'n adlewyrchu ac yn cynnal statws y Gymraeg fel iaith fyw, ac maent yn hollbwysig ar gyfer siaradwyr Gymraeg ar bob lefel.

Er mwyn i'r strategaeth lwyddo, rhaid i ni rannu'r cyfrifoldeb am gynllunio ieithyddol gyda'n partneriaid, a thrwy hynny datblygu'r capasiti a'r arbenigedd yn y maes hwn a gwella'r ddealltwriaeth o ddwyieithrwydd.

Ein gweledigaeth yw gweld y Gymraeg yn rhan arferol o fywyd bob dydd, gydag ewyllys da tuag ati a mwy o bobl yn ei defnyddio. Rydym am i'r Gymraeg fod yn berthnasol i bawb waeth a ydynt yn siarad Gymraeg, Saesneg neu iaith arall. Fel rhan o hyn, mae angen i ni wneud mwy i ddathlu'r Gymraeg fel rhan allweddol o'n diwylliant cyfoes.

Nodau:

9. Cymuned a'r economi: sicrhau bod y Gymraeg yn elfen amlwg wrth i'r Cyngor gefnogi seilwaith economaidd-gymdeithasol ardal Rhondda Cynon Taf.

10. Diwylliant a'r cyfryngau: sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei gwarchod fel rhan annatod o'n diwylliant.

11. Cymru a'r byd ehangach: sicrhau bod y Gymraeg yn rhan ganolog o'n hymdrechion i groesawu a chymhathu pobl sy'n symud i Gymru ac i'r ardal hon. Chwilio am gyfleoedd i ddathlu ac ymgysylltu â'n diaspora Gymraeg.

12. Technoleg ddigidol: sicrhau bod y Cyngor yn chwarae ei ran wrth sicrhau bod y Gymraeg wrth wraidd arloesi mewn technoleg ddigidol i'w gwneud yn bosibl defnyddio'r Gymraeg ym mhob cyd-destun digidol.

13. Seilwaith ieithyddol: sicrhau bod seilwaith y Gymraeg (darpariaethau technolegol ac adnoddau iaith) yn parhau i ddatblygu ar gyfer cyflawni'r strategaeth hon.

14. Cynllunio ieithyddol: sefydlu gwaith cynllunio ieithyddol a hybu'r iaith yn lleol fel elfennau hanfodol o waith polisi'r Cyngor, gan ddeall dwyieithrwydd ac anghenion siaradwyr Gymraeg yn well a'u cefnogi.

15. Gwerthuso ac ymchwil: parhau i adeiladu ar ein tystiolaeth a data am y Gymraeg a'i siaradwyr yn Rhondda Cynon Taf fel sail ar gyfer asesu effeithiolrwydd y strategaeth hon a datblygiadau polisi'r Cyngor o ran y Gymraeg.

Gweithredu

Er bod y strategaeth hon yn ymwneud â'r meysydd y mae gan y Cyngor ddylanwad uniongyrchol drostynt, mae sicrhau llwyddiant yn dibynnu ar gydweithio ymron pob maes. Mae nifer o'n partneriaid yn rhannu'r un blaenoriaethau â ni ac felly byddwn yn chwilio am bob cyfle i gyfuno ymdrechion a chefnogi eraill er mwyn cynyddu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ar draws y fwrdeistref.

Mesur Effaith

Er mwyn gallu mesur effeithiolrwydd ein gweithgareddau, a datblygu polisïau yn y dyfodol ar sail tystiolaeth, mae'n hanfodol ein bod yn adnabod dangosyddion allweddol a pharhau i ddatblygu ein rhaglen o ddadansoddi data ac ymchwil ar gyfer y Gymraeg yn Rhondda Cynon Taf. Byddwn hefyd yn cydweithio â phartneriaid i sicrhau ein bod yn deall effaith ein holl weithgareddau ar dwf y Gymraeg yn yr ardal a'r defnydd ohoni gan gasglu tystiolaeth ansoddol a meintiol i olrhain cynnydd.

Cynllun Gweithredu i Hybu'r Gymraeg yn Rhondda Cynon Taf

Nod y Cynllun Gweithredu hwn yw adeiladu ar y seiliau a osodwyd gan Strategaeth Hybu 2017-2022 a'r gwaith a wnaed gan y Cyngor a'i bartneriaid i ddatblygu'r Gymraeg yn Rhondda Cynon Taf. Y nod yw cyflawni'r canlynol dros y 5 mlynedd nesaf:

- Cynyddu nifer y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg 5%
- Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ym mhob agwedd ar fywyd cymunedol a chyhoeddus
- Codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd y Gymraeg fel rhan hanfodol o hunaniaeth a chymeriad ardal Rhondda Cynon Taf.

Mae'r Cynllun Gweithredu yn adlewyrchu'r dull partneriaeth sy'n hanfodol i gyflawni'r nodau hyn. Mae dwy ran i'r Cynllun fel bod eglurder o ran swyddogaeth a chyfrifoldeb y Cyngor a swyddogaethau partneriaid y Gymraeg a'r cyswllt rhyngom wrth gyflawni nodau cyffredin Cymraeg 2050. Caiff y Cynllun Gweithredu ei adolygu'n flynyddol a byddwn yn ychwanegu targedau newydd neu'n addasu'r rhai presennol i wthio datblygiadau yn eu blaen dros y 5 mlynedd nesaf fel ein bod yn y safle gorau i allu rhagori ar ein nodau pan fo'n bosibl.

Mae **Rhan 1** yn nodi'r gweithgareddau a'r targedau y mae'r Cyngor yn gyfrifol am eu cyflawni o dan y blaenoriaethau thematig a nodwyd, un ai drwy eu cyflenwi'n uniongyrchol neu drwy gydweithio neu gomisiynu gwasanaethau gan sefydliadau partner.

Mae **Rhan 2** yn nodi'n fras gweithgareddau ein partneriaid sydd â chyswllt uniongyrchol neu anuniongyrchol â thargedau Rhan 1. Caiff ein partneriaid eu hariannu gan sefydliadau eraill fel Llywodraeth Cymru ac maen nhw'n gweithredu yn unol â'u cylchoedd gorchwyl eu hunain fel mudiadau.

RHAN 1

CSCA – Agweddau hyrwyddo perthnasol sydd wedi'u cynnwys yma ar gyfer adrodd o dan Safonau 145 a 146, fel arall cyfeiriwch at Gynllun Gweithredu'r CSCA am fwy o fanylion ar Faes Strategol 1.

*Mae'n bosibl bydd enwau swyddogion arwain/â chyfrifoldeb yn newid

MAES STRATEGOL 1: CYNYDDU NIFER Y SIARADWYR CYMRAEG YN RHCT

GWELEDIGAETH	<p>Cynyddu canran a niferoedd siaradwyr Cymraeg Rhondda Cynon Taf</p> <p>Datblygu Rhondda Cynon Taf fel sir gwbl ddwyieithog; Bwrdeistref Sirol lle gall trigolion fyw, gweithio a chwarae, yn ogystal â chael mynediad at y gwasanaethau a'r cymorth sydd ei angen arnynt drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg.</p>
---------------------	--

Meysydd blaenoriaeth	<ul style="list-style-type: none"> • Trosglwyddo'r Gymraeg o fewn y teulu • Blynnyddoedd Cynnar • Addysg Statudol • Addysg Ôl-16 • Y gweithlu
----------------------	--

MAES BLAENORIAETH	NOD	CAMAU GWEITHREDU	STRATEGAETH / CYNLLUN CYFLAWNI LLEOL NEU GENEDLAETHOL BERTHNASOL	CYFRIFOLDEB	DIWEDDARIAD BLYNYDDOL
Trosglwyddo'r Gymraeg o fewn y teulu	Cynyddu nifer y teuluoedd sy'n dewis trosglwyddo'r iaith i'w plant	Dadansoddi dilyniant data cyfrifiad 2011-2021 fel sail i ymyriadau ac ymgyrchoedd hyrwyddo perthnasol.	<u>Cynllun Strategol y CSCA 2022 - 2023</u>	Denise Humphries - Uwch Reolwr Prosiect Ysgolion yr 21ain Ganrif	

Blynyddoedd Cynnar	Cynyddu nifer y dysgwyr meithrin/ tair oed sy'n cael gofal plant ac addysg blynyddoedd cynnar drwy gyfrwng y Gymraeg	Cynllun Strategol CSCA 2022-2032 RhCT		Gaynor Davies – Cyfarwyddwr Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant Lisa Howell – Rheolwr Busnes Ysgolion yr 21ain Ganrif a Threfniadaeth Ysgolion	
		Mewn cydweithrediad â phartneriaid, datblygu a gweithredu strategaeth gyfathrebu a marchnata i hyrwyddo negeseuon cadarnhaol a chyson i drigolion Rhondda Cynon Taf ar fanteision bod yn ddwyieithog; manteision gofal plant ac addysg drwy gyfrwng y Gymraeg a'r adnoddau a'r cyfleoedd sydd ar gael.	CSCA - Cynllun Gweithredu Grŵp Marchnata	Lisa Howell – Rheolwr Busnes Ysgolion yr 21ain Ganrif a Threfniadaeth Ysgolion Is-Grŵp Marchnata'r CSCA Pencampwr Addysg Gymraeg Rhanbarthol	

		Gyda phartneriaid, sicrhau bod y llyfryn Bod Dwyieithog a'r wybodaeth dan sylw yn ogystal ag adnoddau ehangach yn cael eu dosbarthu mor eang â phosib, ynghyd â defnyddio a hyrwyddo deunyddiau partner.	<u>Cynllun Strategol CSCA 2022 - 2023</u>	Lisa Howell – Rheolwr Busnes Ysgolion yr 21ain Ganrif a Threfniadaeth Ysgolion Is-Grŵp Marchnata'r CSCA Pencampwr Addysg Gymraeg Rhanbarthol	
		Gweithio gyda phartneriaid fel y Rhaglen Iechyd Cydnerth/Dechrau'n Deg/Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf/Cofrestryddion i ddosbarthu ac arddangos y llyfryn Bod yn Ddwyieithog a hyrwyddo'r ymgyrch.	<u>Cynllun Strategol CSCA 2022 - 2023</u>	Hannah Bebb - Swyddog Cynllun Graddedigion Ysgolion yr 21ain Ganrif	
		Sicrhau bod Cynnig Gofal Plant Cymru yn cael ei hyrwyddo'n effeithiol er mwyn cynyddu'r nifer sy'n manteisio ar y ddarpariaeth Gymraeg.	<u>Cynllun Strategol CSCA 2022 - 2023</u> <u>Strategaeth Gofal Plant Cymru</u>	Denise Humphries – Uwch Reolwr Prosiect Ysgolion yr 21ain Ganrif (Gofal Plant a Phrosiectau Arbennig)	
Addysg statudol	Cynyddu nifer y plant sy'n cael addysg Gymraeg yn	CSCA 2022-2032 Rhondda Cynon Taf	<u>Cynllun Strategol CSCA 2022 - 2023</u>	Gaynor Davies – Cyfarwyddwr Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant	

	Rhondda Cynon Taf				
	Hybu a chefnogi cyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau gwahanol	Gweithredu CSCA 2022-2032 Rhondda Cynon Taf	<u>Cynllun Strategol CSCA 2022 - 2023</u>	Daniel Williams - Pennaeth Gwasanaeth Presenoldeb a Llesiant	
		Cynyddu gwaith gyda'r Siarter Iaith er mwyn nodi cyfleoedd i ddatblygu gweithgareddau i annog defnydd anffurfiol o'r iaith mewn cydweithrediad â phartneriaid.	<u>Cynllun Strategol CSCA 2022 - 2023</u>	Bethan Davies – Consortiwm Canolbarth y De (CSC)	
		Parhau i wella darpariaeth ar ôl ysgol/darpariaeth gwyliau drwy gyfrwng y Gymraeg.	Cynllun cyflawni YEPS	Bedwyr Harries - Rheolwr Gwasanaethau Ieuenctid	
		Cefnogi'r gwaith o ddatblygu a chryfhau'r Fforwm Ieuenctid Cymraeg gan y partneriaid Cymraeg fel bod gan bobl ifanc lais o ran nodi eu hanghenion a'u dyheadau ynghylch cyfleoedd iddyn nhw ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol gyd-destunau. Cefnogi aelodau'r Fforwm Ieuenctid Cymraeg wrth ddod yn gynrychiolwyr ac eiriolwyr effeithiol dros eu cymunedau/grwpiau.	Cynllun cyflawni YEPS	Bedwyr Harries - Rheolwr Gwasanaethau Ieuenctid	

Addysg Ôl-16	Hyrwyddo manteision sgiliau iaith Gymraeg ar gyfer y byd gwaith, hyfforddiant, prentisiaethau ac addysg bellach/addysg uwch	Gweithredu CSCA 2022-2032 Rhondda Cynon Taf Mewn cydweithrediad â phartneriaid, datblygu a hyrwyddo ystod ehangach o lwybrau dysgu cyfrwng Cymraeg i fyd gwaith, hyfforddiant, prentisiaethau ac addysg bellach/uwch ar gyfer pobl ifanc 14-19 oed.	<u>Cynllun Strategol CSCA 2022 - 2023</u>	Siân Woolson – Rheolwr Tîm Cyflogaeth, Addysg a Hyfforddiant Martyn Silezin - Swyddog Strategaeth 14-19	
		Mewn cydweithrediad â phartneriaid, hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer cyrsiau addysg bellach/addysg uwch cyfrwng Cymraeg a modiwlau ar gyfer disgyblion Rhondda Cynon Taf.	Cofrestru/ymrestru ar gyrsiau	Martyn Silezin - Swyddog Strategaeth 14-19	
		Cefnogi ac annog cyfranogiad yng ngweithgareddau Cymraeg cyn-gyflogaeth Cymunedau am Waith + i gyflwyno Cymraeg llafar a sgiliau Cymraeg sylfaenol.	Cynllun Cymunedau am Waith +	Eira Cook - Rheolwr Gwasanaethau Cymunedol – wedi'i gysylltu ag Addysg i Oedolion	
Gweithlu Addysg	Hyrwyddo datblygiad a hyfforddiant sgiliau Cymraeg ar gyfer gweithlu gofal plant a	Gweithredu CSCA 2022-2032 Rhondda Cynon Taf Annog darparwyr gofal plant i arolygu proffil ieithyddol staff a gwirfoddolwyr i nodi anghenion hyfforddiant, lefelau diddordeb mewn gwella sgiliau, gan fanteisio ar	<u>Cynllun Strategol CSCA 2022 - 2023</u> Canlyniad Strategol 1 y CSCA	Denise Humphries – Uwch Reolwr Prosiect Ysgolion yr 21ain Ganrif	

	blynyddoedd cynnar RhCT	gymorth priodol drwy raglenni fel Croesi'r Bont a Clebran.			
		Parhau i hyrwyddo a chefnogi cyfleoedd dysgu Cymraeg ar gyfer lleoliadau gofal plant a'r blynyddoedd cynnar a gweithio mewn partneriaeth â nhw i ddatblygu hyfforddiant cyfrwng Cymraeg. [Ystyried a ellid defnyddio'r ddarpariaeth fewnol bresennol CBSRhCT, e.e. hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith/hyfforddiant Cymraeg Lefel 1]	<u>Cynllun Strategol CSCA 2022 - 2023</u> Canlyniad Strategol 1 y CSCA	Denise Humphries – Uwch Reolwr Prosiect Ysgolion yr 21ain Ganrif	
		Hwyluso digwyddiadau rhwydweithio a rhannu gwybodaeth gyda darparwyr gofal plant cyfrwng Saesneg a phartneriaid allweddol er mwyn amlygu cyfleoedd i gyflwyno'r Gymraeg i'w lleoliadau a'u galluogi i gynnig darpariaeth Gymraeg i deuluoedd yn eu cymuned.	<u>Cynllun Strategol CSCA 2022 - 2023</u> Canlyniadau Strategol CSCA 1 a 5	Denise Humphries – Uwch Reolwr Prosiect Ysgolion yr 21ain Ganrif	
	Cynyddu nifer y staff addysgu sy'n gallu dysgu Cymraeg /drwy gyfrwng y Gymraeg	Gweithredu CSCA 2022-2032 Rhondda Cynon Taf Parhau i hyrwyddo a chefnogi cyfleoedd i'r gweithlu mewn ysgolion ddysgu/gwella sgiliau iaith Gymraeg. Gweithio gydag ysgolion a phartneriaid i hyrwyddo a chefnogi cyfleoedd ar gyfer	<u>Cynllun Strategol CSCA 2022 - 2023</u> Canlyniadau Strategol CSCA 1 a 7	Gaynor Davies – Cyfarwyddwr Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant Chris Newcombe - Prif Bartner Gwella	

		ehangu'r gweithlu gofal plant dwyieithog ym maes dysgu/gwella sgiliau iaith Gymraeg fel Cam wrth Gam.			
--	--	---	--	--	--

Deddfwriaeth / strategaethau perthnasol	<ul style="list-style-type: none"> • Cymraeg 2050 • Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 • Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 • Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2022-2032 • Cynllun Strategol Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant 2021-2024 • Strategaeth Recriwtio'r Gymraeg • Cynllun Corfforaethol • Cynllun Datblygu Lleol • Strategaeth Dwristiaeth • Cynllun Cydraddoldebau Strategol
Partneriaid a chysylltiadau perthnasol	<ul style="list-style-type: none"> • Holl feysydd Gwasanaeth CBSRhCT • Y Fforwm Addysg Gymraeg • Ysgolion yn Rhondda Cynon Taf • Mudiad Meithrin • Cymraeg i Blant • RhAG • Dysgu Cymraeg Morgannwg • Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf • Cwlwm • Yr Urdd • Menter Iaith • Fforwm Iaith Rhondda Cynon Taf • Fforwm Ieuenctid Cymraeg • Aelwyd Cwm Rhondda • Coleg y Cymoedd • Coleg Cymraeg Cenedlaethol • Met Caerdydd • Consortiwm Canolbarth y De

- | | |
|--|---|
| | <ul style="list-style-type: none">• Gyrfa Cymru• Colegau Cymru• Cyngor Celfyddydau Cymru• Llenyddiaeth Cymru• Interlink |
|--|---|

MAES STRATEGOL 2 CYNYYDDU'R DEFNYDD O'R GYMRAEG YN RHCT
a
MAES STRATEGOL 3 CREU AMODAU FFAFRIOL

GWELEDIGAETH	<p>Cynyddu canran a nifer y siaradwyr Cymraeg yn RhCT</p> <p>Datblygu Rhondda Cynon Taf fel sir gwbl ddwyieithog. Bwrdeistref Sirol lle gall trigolion fyw, gweithio a chwarae, yn ogystal â chael mynediad i'r gwasanaethau a'r gefnogaeth sydd ei angen arnynt drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg.</p>
---------------------	--

Meysydd thematig	<ul style="list-style-type: none"> • Gweithle • Gwasanaethau • Defnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol / yn y gymuned <p>Gan ddylanwadu ar y themâu canlynol o ran seilwaith a chyd-destun:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cymuned ac Economi • Diwylliant a'r cyfryngau • Cymru a'r byd ehangach • Technoleg Ddigidol • Seilwaith ieithyddol • Cynllunio ieithyddol • Addysg ac ymchwil
------------------	--

MAES BLAENORIAETH	NOD	CAMAU GWEITHREDU	STRATEGAETH / CYNLLUN CYFLAWNI LLEOL NEU	CYFRIFOLDEB	DIWEDDARIAD BLYNYDDOL
----------------------	-----	------------------	--	-------------	--------------------------

			GENEDLAETHOL BERTHNASOL		
Gweithle	Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle ar draws pob adran drwy gynyddu hyder a sgiliau ein staff	Gan fod gofyn i bob aelod o staff newydd ymgymryd â hyfforddiant L1 Cymraeg, mynd ati i gynyddu lefelau recriwtio a chyfraddau dilyniant rhwng lefelau 1-5 drwy godi ymwybyddiaeth rheolwyr a staff o fanteision a chyfleoedd gweithlu dwyieithog.	<u>Cynllun Gweithredu Safonau'r Gymraeg</u> <u>Adroddiad Monitro Blynnyddol</u>	Lisa Sheppard – Uwch Swyddog Cydymffurfio a Pholisi – y Gymraeg	
	Bydd hyn hefyd yn ymgorffori'r nodau thematig canlynol:	Parhau i hyrwyddo cyfleoedd dysgu Cymraeg i staff ar draws holl Wasanaethau CBSRhCT ac aelodau etholedig.	<u>Cynllun Gweithredu Safonau'r Gymraeg</u> <u>Adroddiad Monitro Blynnyddol</u>	Lisa Sheppard – Uwch Swyddog Cydymffurfio a Pholisi – y Gymraeg	
	Sicrhau bod y Cyngor yn chwarae ei rhan i sicrhau bod yr iaith wrth wraidd arloesedd technolegol i alluogi'r defnydd o'r Gymraeg ym mhob cyd-destun digidol.	Parhau i weithio gyda Dysgu Cymraeg i sicrhau cynifer o gyfleoedd â phosib i staff ddysgu a defnyddio'u sgiliau Cymraeg naill ai yn y gwaith neu yn y gymuned.	<u>Cynllun Gweithredu Safonau'r Gymraeg</u> <u>Adroddiad Monitro Blynnyddol</u>	Lisa Sheppard – Uwch Swyddog Cydymffurfio a Pholisi – y Gymraeg	
	Sicrhau bod technoleg ac adnoddau iaith yn parhau i ddatblygu er mwyn cryfhau ein	Sicrhau calendr o ddigwyddiadau bob blwyddyn i'r staff i godi ymwybyddiaeth o, a hyrwyddo adnoddau Cymraeg a chyfleoedd yn y gwaith a gyda phartneriaid eraill yn fewn y gymuned (o ofal plant cyfrwng Cymraeg, dysgu a gwella sgiliau Cymraeg, digwyddiadau, clybiau, grwpiau cymunedol ayyb).	<u>Cynllun Gweithredu Safonau'r Gymraeg</u> <u>Adroddiad Monitro Blynnyddol</u>	Lisa Sheppard – Uwch Swyddog Cydymffurfio a Pholisi – y Gymraeg	

	seilwaith ieithyddol.	Er mwyn annog y rhai sydd heb hyder yn eu sgiliau Cymraeg, cyflwyno cynllun cyfweliad gwarantedig i siaradwyr Cymraeg ar Lefel 3 neu'n uwch ar gyfer swyddi lle mae sgiliau Cymraeg yn cael eu hysbysebu fel rhai hanfodol.	<u>Cynllun Gweithredu Safonau'r Gymraeg</u> <u>Adroddiad Monitro Blynnyddol</u>	Richard Evans – Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol Steffan Gealy – Rheolwr Gwasanaethau Cymraeg – Rheolwr Gwasanaethau	
		Parhau i ddarparu a datblygu cefnogaeth dechnolegol ar gyfer siaradwyr Cymraeg a dysgwyr yn y Cyngor i allu darparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg - h.y. pecyn Cysgliad, apiau ar gyfer dysgu Cymraeg ayb ar holl liniaduron/dyfeisiau'r Cyngor.	<u>Adroddiad Monitro Blynnyddol</u>	Lisa Sheppard – Uwch Swyddog Cydymffurfio a Pholisi – y Gymraeg	
		Hyrwyddo'r gofrestr o enwau lleoedd Cymraeg ac enwau strydoedd fel adnodd y gellir ei ddefnyddio i alluogi i bobl ddysgu mwy am eu hamgylchedd a hanes yr ardal.	<u>Adroddiad Monitro Blynnyddol</u>	Lisa Sheppard – Uwch Swyddog Cydymffurfio a Pholisi – y Gymraeg	
Gwasanaethau	Cynyddu'r ystod o wasanaethau sy'n cael eu cynnig i siaradwyr Cymraeg a chynyddu'r defnydd o wasanaethau Cymraeg	Yn ystod unrhyw asesiad neu adolygiad mewnol o wasanaethau, mapio'r ddarpariaeth Gymraeg i nodi ac i fynd i'r afael â bylchau a meysydd blaenoriaeth. Bydd hyn yn darparu gwaelodlin ac yn galluogi'r Cyngor i fynd ati i hyrwyddo'r gwasanaethau sydd	Hunanwerthusiadau'r Gwasanaethau Asesiadau effaith ar y Gymraeg	Lisa Sheppard – Uwch Swyddog Cydymffurfio a Pholisi – y Gymraeg	

	Bydd hyn hefyd yn ymgorffori'r nodau thematig canlynol:	ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg ac i dargedu ymdrechion mewn meysydd penodol i ehangu'r ddarpariaeth.			
	Sicrhau bod cynllunio a hyrwyddo ieithyddol yn ystyriaeth graidd i holl waith cynllunio	Diweddaru canllawiau ar gynllunio a llunio polisiâu pan fydd ymchwil a data newydd ar gael er mwyn llywio penderfyniadau'n well fel eu bod yn cael yr effaith orau bosibl ar anghenion siaradwyr Cymraeg a defnydd o'r iaith.	Asesiadau Effaith ar y Gymraeg - prosesau a chanllawiau	Lisa Sheppard – Uwch Swyddog Cydymffurfio a Pholisi – y Gymraeg	
	polisiâu'r Cyngor, gan ehangu ein dealltwriaeth o ddwyieithrwydd ac anghenion siaradwyr Cymraeg a sicrhau'r gefnogaeth orau bosibl.	Hwyluso'r broses o rannu data ac ymchwil newydd i lywio gwaith cynllunio polisi cydweithwyr.	Asesiadau Effaith ar y Gymraeg - prosesau a chanllawiau Storfa Ddata RhCT	Lisa Sheppard – Uwch Swyddog Cydymffurfio a Pholisi – y Gymraeg Bea Jeffries – Dadansoddwr Data Cymunedol	
	Parhau i adeiladu ar ein sylfaen dystiolaeth o'r Gymraeg a siaradwyr Cymraeg yn RhCT er mwyn cefnogi gwaith polisi'r Cyngor a	Ystyried sut gallai tloidi digidol effeithio ar allu pobl i ymgysylltu â'r Gymraeg a rhoi camau ar waith i liniaru hyn i sicrhau bod holl drigolion Rhondda Cynon Taf yn gallu manteisio ar gyfleoedd i fwynhau, dysgu a siarad Cymraeg	Asesiadau Effaith ar y Gymraeg - prosesau a chanllawiau Proses Asesu Effaith Cydraddoldeb Hunanwerthusiadau'r Gwasanaethau	Lisa Sheppard – Uwch Swyddog Cydymffurfio a Pholisi – y Gymraeg Melanie Warburton – Rheolwr Amrywiaeth a Chynhwysiant	
		Hwyluso digwyddiad rhwydweithio gyda swyddogion y Cyngor a phartneriaid y	<u>Adroddiad Monitro Blynnyddol</u>	Lisa Sheppard – Uwch Swyddog Cydymffurfio a	

	<p>chyflawniad y strategaeth hon.</p> <p>Sicrhau bod y Cyngor yn chwarae ei ran i sicrhau bod yr iaith wrth wraidd arloesedd technolegol i alluogi'r defnydd o'r Gymraeg ym mhob cyd-destun digidol.</p> <p>Sicrhau bod yr iaith yn elfen greiddiol o ran cefnogi'r strwythur economaidd-gymdeithasol yn Rhondda Cynon Taf</p>	<p>Gymraeg, partneriaid yn y gymuned a'r trydydd sector. Bydd hwn yn gyfle i ddod â phobl ynghyd i archwilio ffyrdd o gydweithio ar wahanol lefelau, a fydd, yn eu tro, yn darparu ac yn cyfoethogi cyfleoedd i drigolion Rhondda Cynon Taf ymgysylltu â'r Gymraeg, i siarad neu i ddysgu Cymraeg, ac i weithio neu wirfoddoli drwy gyfrwng y Gymraeg.</p>		<p>Pholisi – y Gymraeg</p> <p>Scott Thomas – Swyddog Prosiect yr Eisteddfod</p>	
Defnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol / yn y gymuned	<p>Gyda'n partneriaid: (i) cynyddu defnydd o'r Gymraeg yn gymdeithasol ac o fewn cymunedau</p>	<p>Cyfleu'r 3 neges graidd yma ar draws holl feysydd gwasanaeth RhCT fel nod cyffredinol y strategaeth hon i wella cyfleoedd i drigolion Rhondda Cynon Taf ddefnyddio'r Gymraeg.</p>	<p>Adborth Asesiadau Effaith ar y Gymraeg</p>	<p>Lisa Sheppard – Uwch Swyddog Cydymffurfio a Pholisi – y Gymraeg</p>	

	<p>(ii) cefnogi ffyrdd o wreiddio arferion cadarnhaol o ddefnyddio'r iaith</p> <p>(iii) cynyddu cyfleoedd i bobl ddysgu ac ymarfer yr iaith yn eu cymunedau.</p> <p>Bydd hyn hefyd yn ymgorffori'r nodau thematig canlynol:</p> <p>Sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei diogelu fel rhan annatod o'n diwylliant cyfoes.</p> <p>Sicrhau bod y Gymraeg yn rhan annatod o'n hymdrechion i groesawu ac integreiddio'r rhai sy'n symud i Gymru a RhCT.</p> <p>Sicrhau bod y Cyngor yn</p>				
--	--	--	--	--	--

	chwarae ei ran i sicrhau bod yr iaith wrth wraidd arloesedd technolegol i alluogi'r defnydd o'r Gymraeg ym mhob cyd-destun digidol.				
		Darparu cyfleoedd anffurfiol ac annog defnyddio'r Gymraeg mewn Canolfannau Cymunedol a Lleoliadau Cymunedol.	Cynllun Cyflawni RhCT Gyda'n Gilydd	Syd Dennis – Rheolwr Gwasanaeth – Rhondda Cynon Taf Gyda'n Gilydd	
		Hyrwyddo cyfleoedd i grwpiau cymunedol Cymraeg gael mynediad at adnoddau a chyllid cymunedol.	Cynllun Cyflawni RhCT Gyda'n Gilydd	Syd Dennis – Rheolwr Gwasanaeth – Rhondda Cynon Taf Gyda'n Gilydd	
		Datblygu cyfleoedd i hyrwyddo'r Gymraeg i newydd-ddyfodiaid, gan dynnu sylw at y ffaith bod y Gymraeg yn iaith sy'n perthyn i bawb yma yn Rhondda Cynon Taf	Cynllun Cyflawni RhCT Gyda'n Gilydd Prosiect geirfa Cymraeg/Wcreineg i ffoaduriaid Wcráin – astudiaeth achos.	Syd Dennis – Rheolwr Gwasanaeth – Rhondda Cynon Taf Gyda'n Gilydd Lisa Sheppard – Uwch Swyddog Cydymffurfio a Pholisi - y Gymraeg	

		Ar lefel gymdogaeth/ward, tynnu partneriaid o wasanaethau eraill (diwylliannol, chwaraeon, y Gymraeg ayyb) a phartneriaid allanol y Gymraeg at ei gilydd i gynorthwyo'r gymuned i gyflawni eu dyheadau.	Cynllun Cyflawni RhCT Gyda'n Gilydd	Syd Dennis – Rheolwr Gwasanaeth – Rhondda Cynon Taf Gyda'n Gilydd	
		Yn adolygiad 2022-23 o'r ddarpariaeth gwasanaethau, mapio'r ddarpariaeth Gymraeg i nodi a mynd i'r afael â bylchau a meysydd blaenoriaeth.	Cynllun Cyflawni Gwasanaethau Cymunedau Am Waith +	Eira Cook - Rheolwr Gwasanaethau Cymunedol	
		Datblygu ymgyrch wedi'i thargedu ar gyfer y grŵp oedran 16-24 i hyrwyddo cyfleoedd gwaith dwyieithog, pwysigrwydd pob lefel o sgiliau Cymraeg a llwybr iaith Gymraeg i mewn i waith.	Cynllun Cyflawni Gwasanaethau Cymunedau Am Waith +	Siân Woolson – Rheolwr Tîm Cyflogaeth, Addysg a Hyfforddiant Eira Cook - Rheolwr Gwasanaethau Cymunedol	
		Cefnogi ac annog cyfranogiad yng ngweithgareddau Cymraeg cyn-gyflogaeth Cymunedau am Waith + i gyflwyno Cymraeg llafar a sgiliau Cymraeg sylfaenol.	Cynllun Cyflawni Gwasanaethau Cymunedau Am Waith +	Eira Cook - Rheolwr Gwasanaethau Cymunedol	
	[Cysylltiadau â chanlyniad	Dadansoddi gwasanaethau er mwyn nodi bylchau mewn darpariaeth cyfrwng Cymraeg	Cynllun Cyflawni Gwasanaethau Hamdden a YEPS	Lisa Sheppard – Uwch Swyddog Polisi a	

	strategol 5 y CSCA: Cynyddu cyfleoedd i bobl ifanc ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau gwahanol.]	ym maes gweithgareddau chwaraeon a hamdden - a blaenoriaethu meysydd i'w gwella.		Chydymffurfio – y Gymraeg	
		Gweithio gyda phartneriaid i flaenoriaethu'r gwaith o ehangu gwersi nofio Cymraeg ar draws canolfannau hamdden Rhondda Cynon Taf.	Cynllun Cyflawni Gwasanaeth Hamdden a YEPS	Gavin Bennett – Rheolwr Gweithrediadau Hamdden Jonathan Phillips – Rheolwr Asedau Hamdden Yr Urdd	
		Gweithio gyda phartneriaid i ehangu'r ddarpariaeth Gymraeg mewn canolfannau hamdden (e.e. gymnasteg).	Cynllun Cyflawni Gwasanaeth Hamdden a YEPS	Gavin Bennett – Rheolwr Gweithrediadau Hamdden	
		Llais y Gymuned Fel rhan o'r adolygiad o'r Gwasanaethau Diwylliannol (Ailosod y Deial), cynnal sgyrsiau creadigol gyda grwpiau cymunedol, dadansoddi data sydd ar gael i fapio anghenion a	Cynllun Cyflawni Gwasanaethau Celfyddydau, Diwylliant a Llyfrgelloedd	Caroline O'Neill – Pennaeth Celfyddydau, Diwylliant a Llyfrgelloedd	

		nodi bylchau yn y ddarpariaeth Gymraeg. Rhoi cynlluniau ar waith i ehangu'r ddarpariaeth cyfrwng Gymraeg yn unol â'r canfyddiadau.			
		Ystyried sut i ehangu'r arlwy Gymraeg mewn gwahanol raglenni megis Take pArt, Cymunedau am Waith +, gan ddod â'r celfyddydau'n agosach at wahanol grwpiau cymunedol Gymraeg.	Cynllun Cyflawni Gwasanaethau Celfyddydau, Diwylliant a Llyfrgelloedd	Caroline O'Neill – Pennaeth Celfyddydau, Diwylliant a Llyfrgelloedd	
		Cysylltiadau â phartneriaid Gweithio gyda phartneriaid i gefnogi a hyrwyddo digwyddiadau a phrosiectau creadigol ac artistig (e.e. Parti Ponty, Artistiaid Cymunedol) Archwilio cyfleoedd i gydweithio gyda phartneriaid i gynnig amrywiaeth ehangach o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg drwy weithgareddau cymunedol.	Cynllun Cyflawni Gwasanaethau Celfyddydau, Diwylliant a Llyfrgelloedd	Caroline O'Neill – Pennaeth Celfyddydau, Diwylliant a Llyfrgelloedd	
		Gwaith rhanbarthol - datblygu a chynhyrchu theatr Gymraeg i fynd ar daith ar draws y rhanbarth ac yn genedlaethol, mewn trafodaeth â phartneriaid rhanbarthol i edrych ar y	Cynllun Cyflawni Gwasanaethau Celfyddydau, Diwylliant a Llyfrgelloedd	Caroline O'Neill – Pennaeth Celfyddydau, Diwylliant a Llyfrgelloedd	

		manteision a'r cyfleoedd i rannu adnoddau.			
		Yr Eisteddfod Genedlaethol 2024 Llunio rhaglen ddiwylliannol sy'n arwain at yr Eisteddfod a fydd yn: <ul style="list-style-type: none"> • Ymgysylltu â chymunedau a chodi ymwybyddiaeth o'r iaith a'r cyfleoedd cysylltiedig • Cynnig prosiectau artistig i wahanol grwpiau cymunedol Ystyried sut gellir cynnal y gweithgareddau hyn mewn cymunedau y tu hwnt i 2024	Cynllun Cyflawni Gwasanaethau Celfyddydau, Diwylliant a Llyfrgelloedd	Caroline O'Neill – Pennaeth Celfyddydau, Diwylliant a Llyfrgelloedd	
		Ewch i weld: Fel rhan o'r gwaith ehangach o adolygu darpariaeth Gymraeg y Cyngor, sicrhau amrywiaeth o gyfleoedd Cymraeg/dwyieithog fel rhan o'r rhaglen hon, a chynnwys partneriaid Cymraeg i helpu i hyrwyddo hyn i'n cymunedau.	Cynllun Cyflawni Gwasanaethau Celfyddydau, Diwylliant a Llyfrgelloedd	Caroline O'Neill – Pennaeth Celfyddydau, Diwylliant a Llyfrgelloedd	
		Noson Allan: hyrwyddo'r cynllun hwn ymhlith pobl ifanc drwy YEPS a'r fforwm ieuencid Cymraeg/ aelwyd Rhondda / chweched dosbarth mewn ysgolion a'u hannog i fanteisio ar y cynllun.	Cynllun Cyflawni Gwasanaethau Celfyddydau, Diwylliant a Llyfrgelloedd	Caroline O'Neill – Pennaeth Celfyddydau, Diwylliant a Llyfrgelloedd	

		Hwyluso'r Gymraeg: Defnyddio hwyluswyr a chynorthwywyr sy'n siarad Cymraeg yn ystod digwyddiadau celfyddydol sy'n cael eu cynnal yn y Gymraeg neu Saesneg (e.e. Teuluoedd yn Gyntaf; gweithgareddau Take pArt) i ddarparu ar gyfer cyswllt Cymraeg yn ystod y digwyddiad.	Cynllun Cyflawni Gwasanaethau Celfyddydau, Diwylliant a Llyfrgelloedd	Caroline O'Neill – Caroline O'Neill – Pennaeth Celfyddydau, Diwylliant a Llyfrgelloedd	
		Technoleg: Archwilio sut y gallai technoleg newydd hwyluso darpariaeth Gymraeg/ddwyieithog (fel System Sibrwd Theatr Genedlaethol ar gyfer cyfieithu mewn digwyddiadau).	Cynllun Cyflawni Gwasanaethau Celfyddydau, Diwylliant a Llyfrgelloedd	Caroline O'Neill – Pennaeth Celfyddydau, Diwylliant a Llyfrgelloedd	
		Datblygu cyfleoedd i gynyddu gwaith ymgysylltu / hyrwyddo, a gweithgareddau Cymraeg o fewn cymunedau lleol. Er enghraifft: cynyddu'r ddarpariaeth Gymraeg mewn digwyddiadau Adrodd Stori ac arddangosfeydd Crefftau (gan gynnwys ar-lein).	Cynllun Cyflawni Gwasanaethau Celfyddydau, Diwylliant a Llyfrgelloedd	Nick Kelland – Prif Lyfrgellydd	
		Eisteddfod Genedlaethol 2024: mewn cydweithrediad â phartneriaid yn y Cyngor ac yn	Cynllun Cyflawni Llyfrgelloedd RhCT	Nick Kelland – Prif Lyfrgellydd	

		allanol, archwilio cyfleoedd i hyrwyddo adnoddau archif, datblygu arddangosfeydd a gweithgareddau ymgysylltu Cymraeg, sicrhau cyfleoedd Cymraeg cynaliadwy a pharhaus o fewn cymunedau lleol.			
		Datblygu ymgyrch ar y cyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo'r amrywiaeth eang o adnoddau Cymraeg sydd ar gael o fewn y gwasanaeth.	Cynllun Cyflawni Llyfrgelloedd RhCT	Nick Kelland – Prif Lyfrgellydd	
		Codi ymwybyddiaeth ymhlith rhanddeiliaid allweddol o adnoddau a chefnogaeth berthnasol sydd ar gael i godi proffil y Gymraeg a chynyddu'r cyswllt â siaradwyr a dysgwyr Cymraeg yn eu busnesau a'u digwyddiadau.	Cynllun Cyflawni Ffyniant a Datblygu	Derek James – Cyfarwyddwr Gwasanaethau – Ffyniant a Datblygu	
		Datblygu ymgyrch i ddenu ymwelwyr a thrigolion fel ei gilydd i'r Gymraeg a'i hanes yn RhCT.	Cynllun Cyflawni Ffyniant a Datblygu	Derek James – Cyfarwyddwr Gwasanaethau – Ffyniant a Datblygu Rheolwr Strategol – Twristiaeth a Digwyddiadau	

		Profiad gwaith / lleoliadau: Mewn cydweithrediad â'r partneriaid perthnasol, datblygu strategaeth/cynllun i arwain i fyny at Eisteddfod Genedlaethol 2024 i godi ymwybyddiaeth rhanddeiliaid allweddol er mwyn sicrhau'r budd mwyaf posibl a sicrhau cyfleoedd cynyddol i ddefnyddio'r Gymraeg o fewn lleoliadau'r Cyngor a busnesau ac atyniadau twristiaeth lleol. (Mewn partneriaeth â swyddog Eisteddfod y Cyngor).	Cynllun Cyflawni Ffyniant a Datblygu	Derek James – Cyfarwyddwr Gwasanaethau – Ffyniant a Datblygu Rheolwr Strategol – Twristiaeth a Digwyddiadau Chris Richards – Atyniadau Ymwelwyr a Rheolwr Treftadaeth Scott Thomas – Swyddog Prosiect yr Eisteddfod	
		Prentisiaethau / gwirfoddoli: – cysylltu â phartneriaid i archwilio cyfleoedd i ddarparu profiad i bobl ifanc trwy gyfrwng y Gymraeg mewn rolau sy'n gysylltiedig â thwristiaeth, gan dynnu sylw at bwysigrwydd sgiliau dwyieithog i'r diwydiant.	Cynllun Cyflawni Ffyniant a Datblygu	Derek James – Cyfarwyddwr Gwasanaethau – Ffyniant a Datblygu Rheolwr Strategol – Twristiaeth a Digwyddiadau Chris Richards – Atyniadau Ymwelwyr a Rheolwr Treftadaeth Siân Woolson –	

				Rheolwr Tîm Cyflogaeth, Addysg a Hyfforddiant	
		Prentisiaethau - gyda phartneriaid, archwilio cyfleoedd i gynnig profiadau i bobl ifanc drwy gyfrwng y Gymraeg mewn meysydd allweddol.	Polisi Graddedigion a Phrentisiaethau	Siân Woolson – Rheolwr Tîm Cyflogaeth, Addysg a Hyfforddiant Bedwyr Harries – Rheolwr Gwasanaethau Ieuenctid	
		Darparu hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith, gwybodaeth ac adnoddau wedi'u teilwra ar gyfer cynghorwyr gyrfaedd er mwyn eu galluogi i hyrwyddo gwerth sgiliau dwyieithog ar gyfer y gweithle.	Cynllun Cyflawni Cyflogaeth Addysg a Hyfforddiant	Siân Woolson – Rheolwr Tîm Cyflogaeth, Addysg a Hyfforddiant	
		Cynllun Graddedigion / Prentisiaethau - gyda phartneriaid, archwilio cyfleoedd i gynnig profiad i bobl ifanc drwy gyfrwng y Gymraeg mewn meysydd allweddol fel gwasanaethau cyhoeddus, gofal iechyd, blynyddoedd cynnar.	Cynllun Cyflawni Cyflogaeth Addysg a Hyfforddiant	Siân Woolson – Rheolwr Tîm Cyflogaeth, Addysg a Hyfforddiant	

		Ymchwilio i gyfleoedd i ehangu darpariaeth cyfrwng Cymraeg yng ngoleuni llwyfannau dysgu rhithiol/hybrid, yn ogystal â phosibiliadau gweithio'n rhanbarthol neu mewn partneriaethau ehangach.	Cynllun Cyflawni Addysg Oedolion	Val Clarke – Uwch Swyddog Cyflogadwyedd Dysgu Cymunedol	
		Mewn cydweithrediad â phartneriaid, casglu gwybodaeth am yr holl gyfleoedd sydd ar gael i ddysgu Cymraeg yn RhCT, a hyrwyddo a marchnata'r rhain ar draws pob platfform er mwyn i drigolion Rhondda Cynon Taf gael gwybod am yr hyn sydd ar gael iddynt. Nodi bylchau yn y ddarpariaeth a cheisio mynd i'r afael â'r rhain gyda phartneriaid.	Cynllun Cyflawni Addysg Oedolion	Val Clarke – Uwch Swyddog Cyflogadwyedd Dysgu Cymunedol Cymraeg i Oedolion Grwpiau cymunedol	
		Llais y Gymuned Gweithio gyda phwyllgor cymunedol Canolfan Gartholwg i gynllunio rhaglen i gynyddu cyfleoedd i ddefnyddio ac ymarfer y Gymraeg yn anffurfiol ac i wella hyder.	Cynllun Cyflawni Addysg Oedolion	Val Clarke – Uwch Swyddog Cyflogadwyedd Dysgu Cymunedol Jayne Rogers – Cydlynnydd Digwyddiadau Gartholwg Menter Iaith	

Deddfwriaeth / strategaethau perthnasol	<ul style="list-style-type: none"> • Cymraeg 2050 • Rheoliad safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 • Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 • Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2022-2032 • Cynllun Strategol Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant 2021-2024 • Strategaeth Recriwtio'r Gymraeg • Cynllun Corfforaethol • Cynllun Datblygu Lleol • Strategaeth Dwristiaeth • Cynllun Cydraddoldebau Strategol
Partneriaid a chysylltiadau perthnasol	<ul style="list-style-type: none"> • Holl feysydd Gwasanaeth CBSRhCT • Cyngorau Tref a Chymuned • Fforwm Iaith Rhondda Cynon Taf • Y Fforwm Addysg Gymraeg • Ysgolion yn Rhondda Cynon Taf • Mudiad Meithrin • Cymraeg i Blant • RhAG • Dysgu Cymraeg Morgannwg • Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf • Cwlwm • Yr Urdd • Menter Iaith RhCT • Fforwm Iaith Rhondda Cynon Taf • Fforwm Ieuenctid Cymraeg • Aelwyd Cwm Rhondda • Eisteddfod y Rhondda • Gŵyl Gelfyddydau Cwm Rhondda • Coleg y Cymoedd • Coleg Cymraeg Cenedlaethol • Met Caerdydd • Consortiwm Canolbarth y De

- | | |
|--|--|
| | <ul style="list-style-type: none">• Gyrfa Cymru• Adran Gwaith a Phensiynau'r DU• Colegau Cymru• Eisteddfod Genedlaethol Cymru• Cyngor Celfyddydau Cymru• Llenyddiaeth Cymru• Merched y Wawr• Papurau Bro• Theatrau, orielau a chanolfannau celfyddydol• Clwb y Bont• Interlink |
|--|--|

RHAN 2 Y CYNLLUN GWEITHREDU

PARTNERIAID – CYDWEITHIO A CHYD-HYRWYDDO

MAES BLAENORIAETH	NOD	CAMAU GWEITHREDU	CYFRIFOLDEB	DIWEDDARIAD BLYNYDDOL
Maes Strategol 1 - Blynyddoedd Cynnar / Gweithlu [CSCA]		<p>Parhau i gynghori, cefnogi a chydweithio gyda CBSRhCT er mwyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> sicrhau cynnydd yn nifer y plant sy'n cael mynediad at/mynychu cylchoedd Ti a Fi a Chylchoedd Meithrin ar draws y sir sicrhau cynnydd mewn darpariaeth Gymraeg mewn lleoliadau Dechrau'n Deg ledled y sir sicrhau cynnydd yn y gyfradd drosglwyddo o'r blynyddoedd cynnar i addysg cyfrwng Cymraeg gweithio gyda'r Cyngor a'i bartneriaid i feithrin ac ehangu sgiliau'r gweithlu gofal plant yn y sir. 	Mudiad Meithrin [CSCA]	
MS1 / MS2 / MS3		<p>Parhau i gynghori, cefnogi a chydweithio â CBSRhCT i hyrwyddo ac ehangu'r ystod o weithgareddau Cymraeg sy'n cael eu cynnig ar gyfer plant a phobl ifanc y tu hwnt i'r dosbarth mewn gweithgareddau:</p> <ul style="list-style-type: none"> chwarae (Chwarae yn Gymraeg) chwaraeon (e.e. nofio, gymnasteg, cyfranogiad Fel Merch) celfyddydau cymunedol, clybiau, gweithgareddau gwyliau, Eisteddfod datblygu arweinwyr cymunedol ifanc gwirfoddoli a hyfforddiant prentisiaethau cyfleoedd preswyl 	Yr Urdd	

		<p>Ar y cyd â CBSRhCT, nodi ble gellir rhannu adnoddau a lleoliadau priodol er mwyn ehangu mynediad.</p> <p>Gweithio gyda'r Cyngor a phartneriaid ehangach i godi ymwybyddiaeth o'r Gronfa i Bawb er mwyn sicrhau llefydd yng ngwersylloedd yr Urdd i blant na fyddai fel arall yn cael cyfle i fynd ar wyliau haf.</p>		
MS1 / MS2 / MS3		<p>Yn yr adolygiad o Gynllun Datblygu Strategol y Gymraeg ar gyfer Coleg y Cymoedd 2018-2023, chwilio am gyfleoedd pellach i gysoni agweddau o'r cynllun ar gyfer 2023 a thu hwnt â CSCA CBSRhCT a'r Strategaeth Hybu 5 mlynedd.</p> <p>Parhau i weithio gyda CBSRhCT i hyrwyddo cyfleoedd gyda llwybrau Cymraeg i waith a manteision y Gymraeg o ran cyflogadwyedd fel sgil yn y gweithle.</p>	Coleg y Cymoedd	
MS1 / MS2 / MS3		<p>Parhau i gynghori, cefnogi a chydweithio gyda'r Cyngor i:</p> <ul style="list-style-type: none"> • hybu ac ehangu cyfleoedd i staff a thrigolion Rhondda Cynon Taf i ddysgu Cymraeg • nodi ble y gellir rhannu adnoddau a lleoliadau priodol er mwyn galluogi pobl i ddysgu Cymraeg yn eu cymunedau eu hunain <p>Gweithio gyda'r Cyngor a phartneriaid ehangach i godi ymwybyddiaeth o Gronfa Ariannol Wrth Gefn Dysgu Cymraeg i gynorthwyo gyda chostau fel gofal plant, teithio neu adnoddau wrth ddysgu Cymraeg.</p>	Dysgu Cymraeg Morgannwg	
MS1 / MS2 / MS3		<p>Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod bod awdurdodau lleol yn bartner hanfodol o ran darparu gofal iechyd a gofal cymdeithasol i'w phoblogaeth a bod cynnig gofal di-dor yn y Gymraeg rhwng gofal sylfaenol, eilaidd a gofal cymdeithasol i'r rhai sydd ei angen yn golygu bod angen gweithio mewn partneriaeth agos â nhw. O'r herwydd, bydd y Bwrdd Iechyd yn parhau i weithio gyda CBSRhCT</p>	Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf	

		<p>fel partner craidd ar Fforwm Mwy na Geiriau, er mwyn cysoni egwyddorion allweddol Mwy na Geiriau gyda nodau'r strategaeth 5 mlynedd o gynyddu gwasanaethau Cymraeg i breswylwyr a defnyddio'r iaith yn y gweithle; a cheisio gwreiddio arferion da'r Cynnig Gweithredol ar lefel ehangach yn RhCT.</p> <p>Parhau i weithio gyda phartneriaid i hyrwyddo gyrfaedd o fewn y GIG i siaradwyr Cymraeg a phobl ifanc sy'n gadael yr ysgol yn RhCT a'r rhanbarth ehangach fel rhan o gynllun 5 mlynedd y Bwrdd lechyd ei hun i gynyddu nifer yr ymgynghoriadau clinigol yn Gymraeg a'i brosesau cynllunio'r gweithlu er mwyn cynyddu ei weithlu dwyieithog.</p>		
MS1 / MS2 / MS3		<p>Gweithio gyda'r Cyngor a phartneriaid ehangach i hyrwyddo cyfleoedd i bobl ifanc ddefnyddio'r Gymraeg yn anffurfiol (e.e. cyfleoedd i wirfoddoli; prosiectau cymunedol; prosiectau mewn ysgolion).</p> <p>Trafod gyda CBSRhCT rôl Menter Iaith RhCT wrth gynorthwyo gyda'r gwaith o gynnal 'Gwaddol' Eisteddfod Genedlaethol 2024 o fewn cymunedau RhCT i'r dyfodol.</p> <p>Trafod gyda'r Cyngor sut i sicrhau y gall digwyddiadau Parti Ponty/Nadolig/Dydd Gŵyl Dewi roi cyfleoedd i wireddu nodau allweddol y Strategaeth Hybu drwy hyrwyddo'r iaith, codi ymwybyddiaeth a dod â chymunedau ynghyd i gymdeithasu ac i ddefnyddio'r iaith mewn amrywiaeth o gyd-destunau.</p> <p>Cryfhau llais pobl ifanc Rhondda Cynon Taf drwy weithio gyda phartneriaid i sicrhau bod y Fforwm Ieuenctid Cymraeg yn effeithiol ac yn gynhwysol er mwyn clywed lleisiau, dyheadau ac anghenion pobl ifanc Rhondda Cynon Taf a'u bod yn chwarae rhan weithredol wrth gynllunio cyfleoedd priodol.</p> <p>Parhau i arloesi gyda thechnoleg i hyrwyddo cyfleoedd ar blatfformau amrywiol a thargedu gwahanol gynulleidfaoedd (gwefan/ Prosiect Medrau /AMAM Cymru ayb)</p>	Menter iaith	

Tudalen wag

GRŴP LLYWIO'R CABINET AR FATERION Y GYMRAEG

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF

9 MAI 2023

ADRODDIAD BLYNYDDOL DRAFFT SAFONAU'R GYMRAEG - I'W GYFLWYNO I GOMISIYNYDD Y GYMRAEG 2022 – 2023

ADRODDIAD CYFARWYDDWR MATERION IECHYD A DIOGELWCH Y CYHOEDD, A GWASANAETHAU CYMUNED MEWN TRAFODAETH GYDA DEILIAD Y PORTFFOLIO PERTHNASOL, Y CYNG. RHYS LEWIS

AWDURON: Louise Davies, Cyfarwyddwr Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd a
Gwasanaethau Cymuned
Nicola Lewis, Pennaeth Gwasanaethau Cymuned a'r
Gymraeg
Steffan Gealy, Rheolwr Gwasanaethau Cymraeg

1. DIBEN YR ADRODDIAD

- 1.1 Diben yr adroddiad yw cyflwyno copi o Adroddiad Blynyddol Drafft Safonau'r Gymraeg 2022 – 2023 i Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg.

2. ARGYMHELLION

Dyma'r argymhellion i aelodau Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg:

- 2.1 Nodi cynnwys yr adroddiad drafft;
- 2.2 Cymeradwyo'r adroddiad drafft fel bod modd i fersiwn derfynol gael ei chyhoeddi ar wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, a chymeradwyo'r gwaith o sicrhau bod yr adroddiad terfynol ar gael ym mhob un o swyddfeydd yr Awdurdod sydd ar agor i'r cyhoedd erbyn 30 Mehefin 2023 fan bellaf;
- 2.3 Cymeradwyo'r trefniadau ar gyfer rhoi gwybod i'r cyhoedd bod yr adroddiad blynyddol terfynol wedi cael ei gyhoeddi.

3. RHESYMAU DROS YR ARGYMHELLION

- 3.1 Mae'n ofynnol i'r Cyngor, o dan safon 158, 164 a 170 ei Hysbysiad Cydymffurfio a gafodd ei gyhoeddi o dan Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, i baratoi adroddiad ("adroddiad blynyddol") mewn perthynas â

phob blwyddyn ariannol, sy'n amlinellu'r ffordd mae'r Cyngor wedi cydymffurfio â'r canlynol:

- Safonau Darparu Gwasanaethau roedd y Cyngor o dan ddyletswydd i gydymffurfio â nhw yn ystod y flwyddyn dan sylw;
- Safonau Llundio Polisiâu roedd y Cyngor o dan ddyletswydd i gydymffurfio â nhw yn ystod y flwyddyn dan sylw;
- Safonau Gweithredol roedd y Cyngor o dan ddyletswydd i gydymffurfio â nhw yn ystod y flwyddyn dan sylw.

4. CEFNDIR

- 4.1 Derbyniodd Cyngor Rhondda Cynon Taf ei Hysbysiad Cydymffurfio terfynol gan Gomisiynydd y Gymraeg ar 30 Medi 2015. Roedd yr Hysbysiad yn ymdrin â'r ddyletswydd sydd ar y Cyngor i fodloni 171 o Safonau sy'n ymwneud â'r Gymraeg a gafodd eu pennu gan Lywodraeth Cymru o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011.
- 4.2 Cafodd cais i herio 14 o'r Safonau ei gyflwyno i'r Comisiynydd ar 29 Mawrth 2016. Arweiniodd hyn at ohirio'r dyddiad gosod ar gyfer cyflawni agweddau o'r 3 safon (52, 58 a 64¹) tan 31 Mawrth 2018.
- 4.3 Mae'r adroddiad yn Atodiad 1 yn cwmpasu'r seithfed flwyddyn lawn o weithredu'r safonau – o 1 Ebrill 2022 i 31 Mawrth 2023. Rhaid i'r Cyngor gyhoeddi adroddiad terfynol ar ei wefan, a rhaid iddo fod ar gael ym mhob un o swyddfeydd yr awdurdod sydd ar agor i'r cyhoedd erbyn 30 Mehefin 2023, fan bellaf.
- 4.4 Mae'r Cyngor o dan ddyletswydd statudol i roi cyhoeddusrwydd i'r ffaith ei fod wedi cyhoeddi adroddiad blynyddol.
- 4.5. Yn ogystal â chydymffurfio â'r Safonau uchod yn 3.1, rhaid i'r adroddiad blynyddol gynnwys y canlynol:
- nifer y cwynion a ddaeth i law yn ystod y flwyddyn sy'n ymwneud â chydymffurfiaeth y Cyngor â'r canlynol: (i) darparu gwasanaethau (ii) llunio polisiâu (iii) safonau gweithredu yr oedd o dan ddyletswydd i gydymffurfio â nhw;

¹ Safon 52 – doedd dim rhaid cydymffurfio'n llawn mewn perthynas â gwefannau ac eithrio'r wefan gorfforaethol tan 31/3/2018.

Safon 58 - cafodd y gofyniad i gydymffurfio'n llawn mewn perthynas â'r cyfryngau cymdeithasol, ac eithrio prif gyfrif cyfryngau cymdeithasol y Cyngor ei symud i 31/3/2018.

Safon 64 – cafodd meysydd sy'n dod o dan ddiffiniad 'gwasanaethau derbynfa' (er enghraifft llyfrgelloedd, canolfannau hamdden, ac ati) ac eithrio prif wasanaeth derbynfa'r Cyngor eu symud ymlaen i 31/8/2018.

- nifer y staff sy'n meddu ar sgiliau Cymraeg ar ddiwedd y flwyddyn dan sylw;
- nifer yr aelodau o staff a gymerodd ran yn y cyrsiau hyfforddiant Cymraeg a gafodd eu cynnig yn ystod y flwyddyn dan sylw;
- canran yr aelodau o staff a gymerodd ran mewn cyrsiau hyfforddiant Cymraeg a gafodd eu cynnig yn ystod y flwyddyn dan sylw;
- nifer y swyddi newydd a gwag a gafodd eu hysbysebu gan y Cyngor yn ystod y flwyddyn lle - (i) roedd sgiliau Cymraeg yn hanfodol, (ii) roedd hi'n ofynnol dysgu sgiliau Cymraeg ar ôl dechrau yn y swydd, (iii) roedd sgiliau Cymraeg yn ddymunol, neu (iv) doedd dim angen sgiliau Cymraeg yn ystod y flwyddyn dan sylw.

5. Y SEFYLLFA BRESENNOL

- 5.1 Mae'r adroddiad blynyddol drafft yn Atodiad 1 yn disgrifio'n fanwl y gwaith a wnaed gan y Cyngor dros y flwyddyn i sicrhau cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg.
- 5.2 Mae adrannau perthnasol o Hunanwerthusiadau Gwasanaethau 2022 – 2023 hefyd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad blynyddol drafft ar ôl cael eu hailgyflwyno yn 2021/2022 ar ôl y pandemig.
- 5.3 Er gwaethaf yr aflonyddwch parhaus a gafodd ei achosi gan y pandemig ynghyd â'r pwysau ariannol cynyddol sy'n wynebu'r Cyngor, bu llwyddiannau parhaus o ran cydymffurfio â'r Gymraeg. Dyma rai o'r prosiectau sy'n werth eu nodi:
 - Parhau i wreiddio'r Fframwaith Asesu'r Effaith ar y Gymraeg newydd sy'n sicrhau bod ystyriaeth drylwyr yn cael ei rhoi i effaith penderfyniadau polisi ar y Gymraeg.
 - Cyfieithu ar y pryd trwy MS Teams wedi'i roi ar waith yn llwyddiannus (yn ogystal â thrwy'r cyfleuster Zoom sydd eisoes wedi'i sefydlu) gan alluogi staff Gwasanaethau Cymraeg i gynnig gwasanaethau'n ehangach ar draws pob maes gwasanaeth.
 - Parhau i ehangu hyfforddiant y Gymraeg i staff ac Aelodau Etholedig, gan ganolbwyntio'n benodol ar lefelau uwch.
 - Cymeradwyo ail Strategaeth Hybu'r Gymraeg pum mlynedd y Cyngor ar gyfer y cyfnod 2022 – 2027.
 - Fe wnaethon ni barhau i godi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg gan ddefnyddio dyddiadau calendr nodedig yng Nghymru megis Eisteddfod yr Urdd, Diwrnod Hawliau'r Gymraeg, Dydd Miwsig Cymru, Dydd Gŵyl Dewi a phresenoldeb Cymru yng Nghwpan y Byd FIFA 2022.
- 5.4 Ac eto, er gwaethaf y cynnydd a wnaed gan y Cyngor, mae heriau'n

parhau wrth i ni geisio gwella. Ymhlith y meysydd sy'n parhau i fod yn heriol mae'r canlynol:

- Yr angen parhaus i gynyddu nifer y staff sy'n siarad Cymraeg;
- Monitro'n effeithiol unrhyw gamau lliniaru sydd wedi'u nodi mewn unrhyw Asesiad statudol o'r Effaith ar y Gymraeg;
- Craffu'n effeithiol ar elfennau partneriaeth y Strategaeth 5 Mlynedd ar gyfer Hybu'r Gymraeg;
- Hyfforddiant ac ymwybyddiaeth barhaus ynghylch Safonau'r Gymraeg.

5.5 Hyd yn oed yn wyneb rhai o'r heriau a nodwyd yn 5.4, mae adborth gan Gomisiynydd y Gymraeg yn ystod cyfarfod blynyddol y Cyngor gyda'i Swyddog Gosod Safonau a Chydymffurfiaeth a gafodd ei gynnal yn Chwarter 3, 2022 – 2023 yn parhau i fod yn gadarnhaol iawn o ran y cynnydd a wnaed yn Rhondda Cynon Taf.

6. GOBLYGIADAU CYDRADDOLDEB AC AMRYWIAETH/DYLETSWYDD ECONOMAIDD-GYMDEITHASOL

6.1 Mae'r adroddiad drafft yma wedi'i lunio mewn ymateb i ofyniad statudol Cyngor RhCT i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg 158, 164 a 170 a does dim angen cynnal asesiadau o'r fath.

7. GOBLYGIADAU'R GYMRAEG

7.1 Mae'r adroddiad drafft yma wedi'i lunio mewn ymateb i ofyniad statudol Cyngor RhCT i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg 158, 164 a 170 a does dim angen cynnal asesiadau o'r fath. Bydd cymeradwyo'r adroddiad drafft yma'n darparu tystiolaeth o'n cydymffurfiaeth i'r rheoleiddiwr.

8. YMGYNGHORI / CYFRANNU

8.1 Mae pwnc yr adroddiad drafft yma'n ymwneud â dyletswydd statudol ac felly does dim gofyniad i ymgynghori ar y mater yma.

9. GOBLYGIAD(AU) ARIANNOL

9.1 Does dim goblygiadau ariannol sy'n gysylltiedig â'r adroddiad drafft yma. Serch hynny, mae'n bosibl bydd costau ac adnoddau i'w pennu mewn perthynas â gweithredu unrhyw argymhellion gan Gomisiynydd y Gymraeg yn ogystal â pharhau i weithredu'r 171 o Safonau. Gallai peidio â chydymffurfio â Safon olygu cosbau ariannol o hyd at £5,000.

10. GOBLYGIAD(AU) CYFREITHIOL NEU DDEDDFWRIAETH A DRAFODWYD

10.1 Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Rheoliadau Safonau Iaith Gymraeg (Rhif 1) 2015; Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 - mewn perthynas â Chymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg

yn ffynnu yn rheoleiddio'r maes gwaith yma.

11. CYSYLLTIADAU Â BLAENORIAETHAU CORFFORAETHOL A CHENEDLAETHOL YNGHYD Â'R DDEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL.

- 11.1 Mae'r Gymraeg yn thema drawstoriadol yn y Cynllun Corfforaethol ac yn effeithio ar yr holl flaenoriaethau corfforaethol gan fod angen i'r Cyngor gydymffurfio â'r Hysbysiad Cydymffurfio diwygiedig a gafodd ei gyhoeddi gan Gomisiynydd y Gymraeg ym Medi 2016.
- 11.2 Mae'r adroddiad blynyddol drafft yn amlinellu gwaith y Cyngor o ran cydymffurfio â safonau statudol o ran y Gymraeg a fydd yn cyfrannu at nod tymor hir Llywodraeth Cymru o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae'r gwaith i gyflawni'r safonau hyn yn golygu cydweithio gyda phartneriaid a thrigolion i hwyluso ystod eang o gyfleoedd ar gyfer defnyddio'r Gymraeg mewn cymunedau ledled y sir. Bydd cyflawni'r safonau yn atal cwynion gan breswylwyr nad oedd cyfle iddyn nhw fanteisio ar wasanaethau yn y Gymraeg.
- 11.3 Mae cynnwys yr adroddiad drafft yn perthyn yn uniongyrchol i Nod 7 o'r Ddeddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol – Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. Bydd cydymffurfio â'r safonau yn cefnogi normaleiddio'r Gymraeg ac yn sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Bydd hyn hefyd yn cyfrannu at greu Cymru sy'n fwy cyfartal trwy ddarparu cyfleoedd i siaradwyr Cymraeg ddefnyddio gwasanaethau'r Cyngor trwy gyfrwng y Gymraeg, os ydyn nhw'n dymuno.

12. CASGLIAD

- 12.1 Dyma fydd yr wythfed Adroddiad Blynyddol a gyhoeddwyd gan y Cyngor sy'n nodi'r ffordd mae wedi cydymffurfio â Safonau Statudol y Gymraeg a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Mae'r adroddiad drafft yn amlinellu'r cynnydd da a wnaed gan adrannau'r Cyngor wrth ymgorffori trefniadau ar gyfer darparu gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg.
- 12.2 Caiff ei gydnabod bod rhaid gwneud rhagor o waith. Serch hynny, mae'r Cyngor yn hyderus bod y systemau a ddatblygwyd i fonitro cydymffurfiad yn gadarn a bod cymorth ar gael i feysydd gwasanaeth wella eu perfformiad ymhellach lle bo angen.

Gwybodaeth Arall:

Pwyllgor Craffu Perthnasol:
Pwyllgor Trosolwg a Chraffu

Swyddog Cyswllt – Nicola Lewis, Pennaeth Gwasanaethau Cymuned a'r
Gymraeg
Steffan Gealy, Rheolwr Gwasanaethau Cymraeg

Tudalen wag



RHONDDA CYNON TAF

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL

RHONDDA CYNON TAF

Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg

2022 – 2023

Wedi'i baratoi yn unol â gofynion

Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

Ebrill 2023

CYNNWYS

Cyflwyniad	tudalen 3
Yr Uned Gwasanaethau Cymraeg	tudalen 4
Cwynion	tudalen 11
Sgiliau Cymraeg Staff	tudalen 16
Hyfforddiant	tudalen 16
Llenwi Swyddi Gwag	tudalen 16
Rhagor o wybodaeth - manylion cyswllt	tudalen 16
Atodiad 1 - Hunanwerthusiadau Gwasnaethau	tudalen 17

CYFLWYNIAD: Safonau'r Gymraeg

Derbyniodd Cyngor Rhondda Cynon Taf ei Hysbysiad Cydymffurfio terfynol gan Gomisiynydd y Gymraeg ar 30 Medi 2015. Roedd yr Hysbysiad yn ymdrin â'r ddyletswydd sydd ar y Cyngor i fodloni 171 o Safonau sy'n ymwneud â'r Gymraeg, a gafodd eu pennu gan Lywodraeth Cymru o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Cafodd cais i herio 14 o'r Safonau ei gyflwyno i'r Comisiynydd ar 29 Mawrth 2016. Yn dilyn ystyriaeth ac ymgynghori pellach, penderfynodd Comisiynydd y Gymraeg na ddylid cymhwyso unrhyw gamau i 9 o'r Safonau oedd yn destun her ac y dylid cymhwyso amrywiad i 5 o'r Safonau oedd yn destun her. Cafodd yr Hysbysiad Cydymffurfio diwygiedig ei gyflwyno i Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ar 9 Medi 2016. Mae modd ei weld yn llawn yma.

Gweledigaeth

Mae Cyngor Rhondda Cynon Taf wedi ymrwymo i greu amgylchedd sy'n annog ei drigolion i ddefnyddio'r Gymraeg wrth gysylltu â'r Cyngor. Mae'r Cyngor hefyd yn cefnogi'i staff i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle. Yn ogystal â gweithio tuag at gydymffurfio'n llawn â gofynion Safonau'r Gymraeg, bydd y Cyngor yn gwneud ei orau glas i sicrhau ei fod yn darparu gwasanaethau yn unol â holl bolisiau a strategaethau allweddol Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r Gymraeg.

Llywodraethu ac atebolrwydd

Yn 2022, sefydlodd y Cyngor Is-bwyllgor Cabinet ar Faterion y Gymraeg. Mae'r pwyllgor yn cynnwys 5 aelod o'r Cabinet. Mae'r is-bwyllgor, a ddisodlodd yr hen **Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg**, wedi ei sefydlu i sicrhau dull Awdurdod-gyfan wrth ddarparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg, yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, yn benodol y Safonau Statudol sy'n ymwneud â'r Gymraeg. Mae'r aelodau yn darparu cyfeiriad strategol o ran rhoi'r ddeddfwriaeth neu'r polisiau yma ar waith, ynghyd ag unrhyw bolisiau lleol ynglŷn â'r Gymraeg, a chefnogi Uned Gwasanaethau Cymraeg y Cyngor i gyflawni ei dyletswyddau. Yn ogystal â hynny, mae Pwyllgor Trosolwg a Chraffu trawsbleidiol y Cyngor yn craffu ar Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg a Strategaeth 5 Mlynedd Hybu a Hyrwyddo'r Gymraeg a'r cynnydd yn ei herbyn lle bo hynny'n briodol.

Dolenni cyswllt i Bolisiau a Blaenoriaethau'r Cyngor

Mae ymrwymïadau'r Cyngor o dan Safonau'r Gymraeg yn cael eu cynnwys ym mhrif ddogfennau sefydliadol yr awdurdod gan gynnwys y Cynllun Corfforaethol (Gwneud Gwahaniaeth) a'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg. Yn ogystal â hyn, mae polisiau mewnol, megis polisiau Adnoddau Dynol, yn prif ffrydio materion y Gymraeg sy'n fwy effeithiol na pharatoi polisiau unigol i fynd i'r afael â materion y Gymraeg. Mae blaenoriaethau'r Cyngor yn cael eu llywio gan ddeddfwriaeth gan gynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2016, sy'n gosod dyletswydd ar y Cyngor i gryfhau'r Gymraeg. Mae'r Ddeddf gyntaf yn ei gwneud hi'n ofynnol i gyrff cyhoeddus weithio tuag at saith nod llesiant. Un o'r rhain yw 'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu'. Mae'r ail Ddeddf yn gofyn i sefydliadau gwasanaeth cyhoeddus ystyried anghenion ieithyddol eu defnyddwyr wrth ddarparu gwasanaethau gofal a chymorth.

Rhoi Adroddiad

Dyma'r seithfed flwyddyn lawn o roi Safonau'r Gymraeg ar waith yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Mae'r adroddiad yma, a fydd yn cael ei gyhoeddi erbyn 30 Mehefin, yn bodloni Safonau 158 a 164 ac yn nodi sut mae'r Cyngor wedi cydymffurfio â'r Safonau Atodol canlynol:

- Safonau Cyflenwi Gwasanaethau

- Safonau Gweithredu
- Safonau Llundio Polisiâu

Mae'r adroddiad hefyd yn cyflwyno data ar y dangosyddion gofynnol fel a ganlyn:

- nifer y staff sy'n meddu ar sgiliau Cymraeg (Safon 151)
- nifer y staff a fynychodd y cyrsiau hyfforddi a restrir yn Safon 128 os cawson nhw eu cynnig yn Gymraeg (Safonau 152)
- canran cyfanswm y staff a fynychodd unrhyw gyrsiau a restrir yn Safon 128 (Safonau 152)
- nifer y swyddi newydd a'r swyddi gwag a gafodd eu categorïddio fel swyddi sy'n gofyn (i) bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol; (ii) bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg unwaith y bydd rhywun yn cael ei benodi i'r swydd; (iii) bod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol; neu (iv) nad oedd sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol
- nifer y cwynion y derbyniodd y Cyngor

Yr Uned Gwasanaethau Cymraeg

Mae'r Cyngor yn cydnabod y dylid rhoi blaenoriaeth uchel i Safonau'r Gymraeg oherwydd y risgiau sydd ynghlwm â pheidio â chydymffurfio â nhw a hefyd oherwydd ei ymrwymiad i greu amgylchedd sy'n annog ei drigolion i ddefnyddio'r Gymraeg wrth gysylltu â'r Cyngor ac i gefnogi staff i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle. Mae'n cydnabod bod angen cefnogaeth y Cyngor cyfan i allu cynnig a hyrwyddo Gwasanaethau Cymraeg o'r cyswllt cyntaf.

Mae'r Cyngor yn buddsoddi mewn Uned Gwasanaethau Cymraeg gadarn sy'n cynnwys 21 o swyddi. Mae'r Uned yn gweithio i gefnogi holl wasanaethau'r Cyngor drwy wneud y canlynol:

- rhoi cyngor a chymorth i'r holl wasanaethau ynglŷn â'u cyfrifoldebau statudol o dan y Safonau
- cyfieithu dogfennau ar gyfer y cyhoedd
- darparu tiwtor Cymraeg mewnol
- nodi meysydd lle mae diffyg cydymffurfiaeth posibl
- cofnodi cwynion cwsmeriaid
- adrodd ar ddatblygiadau i Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg
- cyfieithu ar y pryd yng nghyfarfod y Cyngor llawn ac mewn cyfarfodydd eraill sy'n agored i Aelodau (e.e. pwyllgorau craffu)
- rhoi cymorth cyfieithu ar y pryd i bob maes gwasanaeth arall fel gwasanaethau cyfreithiol, adnoddau dynol
- bod yn bresennol yn y Fforwm Iaith
- cydweithio â sefydliadau Cymraeg yn y gymuned fel sy'n briodol
- cynrychioli'r Cyngor mewn cyfarfodydd allanol a bod yn brif gyswllt â Chomisiynydd y Gymraeg ac Adrannau perthnasol yn Llywodraeth Cymru
- cynnig cymorth ar draws adrannau ar gyfer hyrwyddo'r Gymraeg yn gyffredinol
- cydlynw a chysylltu â materion sy'n ymwneud â Chynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg
- cydlynw a chysylltu â Fframwaith Strategol Mwy na Geiriau Llywodraeth Cymru
- rhoi cefnogaeth bwrpasol i Eisteddfod Genedlaethol Cymru sydd i'w chynnal yn RhCT yn 2024
- darparu cymorth yn rhan o Fwrdd Llywodraethu swydd Pencampwr Addysg Cymraeg De-Ddwyrain Cymru, sydd wedi'i hariannu gan Lywodraeth Cymru

Mae'r Cyngor yn buddsoddi mewn Uned fel ymateb rhagweithiol i'r amgylchedd statudol a'r math o waith y mae angen ei wneud i geisio cynorthwyo holl wasanaethau'r Cyngor i fodloni'r Safonau mewn modd mwy cost-effeithiol.

Mae Uwch Swyddog Cydymffurfio a Pholisi a Swyddog Cymorth Cydymffurfio yn monitro cyflawniad y gwasanaethau ar draws y Cyngor ac yn sicrhau eu bod nhw'n cydymffurfio â'r Safonau hynny sy'n berthnasol iddyn nhw. O ganlyniad i hyn, mae'r rolau yn rhoi cyfle i'r Cyngor ddarparu cymorth lliniaru pellach i wasanaethau ar nodi unrhyw wendidau posibl am fodloni gofynion y Safonau, yn ogystal â pharhau â rhai o ddyletswyddau mwy traddodiadol yr hen swydd Swyddog y Gymraeg. Mae'r swyddi

cymharol newydd hyn wedi'u gwreiddio yn yr Uned Gwasanaethau Cymraeg, a'r Cyngor yn ehangach erbyn hyn. Er enghraifft, mae'r Uwch Swyddog Cydymffurfio a Pholisi yn cydweithio'n rheolaidd â swyddogion cydraddoldeb, swyddogion data a swyddogion cyflawniad corfforaethol y Cyngor i asesu effaith polisiau, paratoi teclyn data cynhwysfawr i swyddogion y Cyngor ei ddefnyddio, a monitro cyflawniad holl adrannau'r Cyngor yn erbyn Safonau'r Gymraeg. Mae'r Swyddog Cymorth Cydymffurfio hefyd wedi ailddechrau gweithgarwch awdit yr Uned a oedd wedi'i oedi yn ystod cyfnod Covid-19. Hyd yn hyn mae wedi cynnal awdit cynhwysfawr o adrannau mwyaf poblogaidd gwefan y Cyngor, ac mae bellach yn cynnal awdit o holl dderbynfeydd y Cyngor, i sicrhau cydymffurfiaeth ar lefel gorfforaethol. Eto eleni, mae Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg wedi bod yn hael o ran rhoi adborth cadarnhaol am y ffordd y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn cyflawni'i ddyletswyddau o ran y Safonau.

Mae Tiwtor y Gymraeg rhan-amser hefyd yn trefnu a chyflwyno cyrsiau a sesiynau dysgu Cymraeg i holl weithwyr y Cyngor. Yn y gorffennol, bu'r Cyngor yn talu darparwyr allanol (e.e. Canolfan Cymraeg i Oedolion Prifysgol De Cymru) i gynnal sesiynau i staff mewnol ond doedd y rhain ddim yn llwyddiannus gan nad oedden nhw'n berthnasol i'r meysydd gwasanaeth priodol. Hyd yn hyn (31 Mawrth 2023), Mae'r tiwtor mewnol wedi dysgu 73 aelod o staff, gan gynnwys Cyngorwyr, yn ystod 22/23 ar wahanol lefelau. Mae hyn ar ben y staff sydd wedi cwblhau Cymraeg Lefel 1, sydd erbyn hyn yn gwrs ar-lein. Mae'r Cyngor yn parhau i weithio mewn partneriaeth â phrosiect Cymraeg Gwaith Llywodraeth Cymru gan sicrhau bod modd i staff y Cyngor fanteisio ar gymorth a thiwtora ar-lein. Yn ogystal â hyn, mae'r Cyngor, ar nifer o achlysuron, wedi cefnogi unigolion i gyflawni cwrs preswyl am wythnos yn Nant Gwrtheyrn ac yn parhau i annog meysydd gwasanaeth i gefnogi dysgu trwy ddosbarthiadau yn y gymuned. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r tiwtor wedi cynnal gwersi Cymraeg i 6 o gynghorwyr, cynnal sesiynau hyfforddiant Cymraeg newydd i Gadeiryddion ac Is-gadeiryddion pwyllgorau'r Cyngor i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg mewn cyfarfodydd, ac wedi bod yn paratoi cwrs Cymraeg lefel 1 i staff arlwy'o'r Cyngor sydd heb fynediad at yr adnodd ar-lein sydd ar gael eisoes.

Mae cyfieithwyr yr Uned Gwasanaethau Cymraeg yn parhau'n greiddiol i ymdrechion y Cyngor i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg, trwy ddarparu gwasanaethau cyfieithu testun a chyfieithu ar y pryd i holl adrannau'r Cyngor yn ôl y gofyn. Erbyn hyn mae gan yr uned Flaen Gyfieithydd sy'n rheoli'r gwaith cyfieithu a phrawf ddarllen o ddydd i ddydd, pedwar Uwch Gyfieithydd sy'n canolbwyntio ar waith y Gwasanaethau Democrataidd ac yn darparu cymorth prawf ddarllen, a naw cyfieithydd. Er mwyn cydnabod arbenigeddau amrywiol y staff cyfieithu presennol a darpar staff, anghenion y Cyngor, a darparu cyfleoedd datblygu proffesiynol, mae swyddi uwch gyfieithydd a chyfieithydd bellach wedi'u rhannu'n swydd cyfieithu testun yn unig neu'n swyddi cyfieithu testun a chyfieithu ar y pryd – mae tri uwch gyfieithydd a phedwar cyfieithydd hefyd yn gyfieithwyr ar y pryd o dan y trefniant yma ar hyn o bryd, a gall y sawl sydd yn gyfieithwyr testun weithio tuag at ddod yn gyfieithydd ar y pryd yn rhan o'u datblygiad proffesiynol os dymunant. Dau o'r uwch gyfieithwyr ar y pryd sy'n cydlynu'r elfen yma o ddatblygu proffesiynol i'r staff eraill, a hynny yn sgil y ffaith eu bod nhw wedi ymgymryd â thystysgrif ôl-raddedig mewn cyfieithu ar y pryd. Graddiodd y ddau y llynedd gyda'r marciau gorau ar y cwrs ym Mhrifysgol y Drindod Dewi Sant gan dderbyn gwobr Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru ar gyfer y myfyrwyr mwyaf addawol ar y rhaglen. Maen nhw hefyd wedi cyfrannu at waith y Cyngor o gyflwyno cyfieithu ar y pryd ar Microsoft Teams yn opsiwn ar gyfer cynnal cyfarfodydd trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r datblygiadau hyn nid yn unig wedi helpu'r Cyngor i gyflawni ei ymrwymadau statudol o safbwynt cynnig cyfarfodydd Cymraeg i'r cyhoedd, ac mewn sefyllfaoedd eraill fel cyfweiliadau swyddi, ond mae wedi hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg mewn cyfarfodydd mewnol, e.e. mewn cyfarfodydd CSCA lle mae mwyafrif helaeth y mynychwyr yn siaradwyr Cymraeg.

Ym mis Mawrth 2023, cafodd achlysur lansio Eisteddfod Genedlaethol Rhondda Cynon Taf yn swyddogol ei gynnal yn Nhreorci. Daeth tua 3,500 o bobl i gael blas ar yr hyn sydd i ddod ym mis Awst 2024. Cafodd cyfarfod cyhoeddus ei gynnal ym Mhrifysgol De Cymru (Campws Trefforest) fel bod modd nodi'r bobl leol hynny sydd am helpu. Yn dilyn cadeiryddion newydd yr Eisteddfod yn cael

eu hethol i'w pwyllgorau priodol, mae gwaith yn mynd rhagddo'n dda, ac mae strategaeth glir o ran sut mae modd bwrw'r targed codi arian o £400,000. Mae ein Swyddog Eisteddfod yn parhau i weithio'n agos gyda swyddogion yr Eisteddfod i godi ymwybyddiaeth o'r Eisteddfod ymhlith grwpiau/busnesau lleol, staff y Cyngor ac ysgolion.

Fe barhaon ni i baratoi a dosbarthu dogfennau ac adnoddau cyfarwyddyd yn ystod 2022-2023 (enghreiffiau isod)

Canllawiau ar Ddyfarnu Grantiau a'r Gymraeg

Ar ddechrau blwyddyn ddinesig 2022-23, cafodd Canllawiau Dyfarnu Grantiau a'r Gymraeg y Cyngor eu cyhoeddi a'u rhannu ymhlith holl adrannau'r Cyngor, yn unol â Safon y Gymraeg 94. Mae'r Canllawiau yn cynnwys manylion i staff ynglŷn â'u dyletswyddau o ran y Gymraeg wrth weinyddu a dyfarnu grantiau, yn unol â Safonau 71–75 a 94. Yng nghefn y Canllawiau mae rhestr wirio lle y gall y sawl sy'n hysbysebu ac yn dyfarnu grantiau wirio eu bod wedi cydymffurfio â gofynion y safonau hyn hefyd. Mae'r canllawiau a luniodd RhCT hefyd wedi'u defnyddio fel sail i ganllawiau cyffelyb yng nghynghorau sir eraill ar draws de ddwyrain Cymru. Er mwyn monitro a yw'r grantiau mae'r Cyngor yn eu hysbysebu a'u dyfarnu yn cydymffurfio â'r safonau dan sylw, ar gais y Gwasanaethau Cymraeg, mae Carfan Cyflawniad y Cyngor wedi cytuno i gynnwys y cwestiynau ynglŷn â grantiau a'r Gymraeg ar y ffurflenni Hunanwerthuso Gwasanaeth y mae pob cyfarwyddwr gwasanaeth ar draws y Cyngor yn eu llenwi'n flynyddol, o 2023 ymlaen. Mae'r ffurflenni yn destun cyfarfodydd her gyda'r Prif Weithredwr, ac ar gael i'r Gwasanaethau Cymraeg i helpu i gynllunio gwaith pellach gydag adrannau penodol, ac felly bydd modd monitro effaith dyfarnu grantiau ar y Gymraeg yn fwy pwrpasol o 2023-24 ymlaen.

Archwiliad o'r wefan

Yn dilyn cwyn CS1050 am wahaniaethau rhwng rhai tudalennau Cymraeg a Saesneg ar wefan y Cyngor mewn perthynas â materion tai, a ddaeth i law trwy Gomisiynydd y Gymraeg, ymatebodd yr Uned Gwasanaethau Cymraeg yn rhagweithiol gan gyflawni archwiliad o 8 maes/adran sydd ar hafan y wefan gorfforaethol (e.e. gwasanaethau gwastraff, addysg). Roedd hyn er mwyn sicrhau nad oedd bylchau tebyg o ran cydymffurfio yn bodoli mewn mannau eraill ar y wefan. Nodwyd unrhyw fylchau ar daenlen Excel, a thrwy gydweithio â charfan y we, anfonwyd y cywiriadau/newidiadau at y swyddogion perthnasol â hawliau perchennog dros y gwahanol dudalennau o fewn eu hadrannau, gan eu hatgoffa o'r gofynion o ran cydymffurfio a bod y gwasanaeth cyfieithu ar gael i'w cynorthwyo pe bai angen. Rhoddwyd tan 31 Mawrth 2023 i'r swyddogion weithredu'r newidiadau am bydd ail archwiliad i wirio cydymffurfio yn digwydd yn fuan wedi dechrau blwyddyn ddinesig 2023-24.

Cymraeg Lefel 1 – Aelodau Etholedig

Yn 2021-22, mewn cydweithrediad â chydweithwyr yn y Gwasanaethau Democrataidd, diweddarodd yr Uned Gwasanaethau Cymraeg yr hyfforddiant Cymraeg Lefel 1 – wedi'i deilwra ar gyfer staff yn wreiddiol – i fod yn briodol ar gyfer aelodau etholedig. Cafodd yr hyfforddiant yma ei rannu trwy e-bost gyda'r holl Gynghorwyr a bydd yn cael ei ddosbarthu'n rheolaidd yn ystod cyfnodau ymsefydlu. Roedd yr un hyfforddiant ar gael eto i Gynghorwyr newydd oedd wedi'u hethol ym mis Mai 2022. Yn ogystal â hyn, lluniodd y Gwasanaethau Cymraeg a'r Gwasanaethau Democrataidd gwrs hyfforddi Cymraeg pellach ar gyfer cadeiryddion ac is-gadeiryddion pwyllgorau. Ei nod oedd cynyddu faint o Gymraeg sy'n cael ei defnyddio mewn cyfarfodydd, yn enwedig yn ystod eitemau safonol, er enghraifft datgan buddiant a chymeradwyo'r cofnodion. Cafodd hyn ei gyflwyno i gadeiryddion ac is-gadeiryddion newydd ym mis Mehefin 2022, ac mae'r Gwasanaethau Cymraeg a'r Gwasanaethau Democrataidd yn monitro faint o Gymraeg sy'n cael ei defnyddio yn y cyfarfodydd yn sgil hyn.

Cylchlythyr

Mae'r Uned Gwasanaethau Cymraeg yn parhau i baratoi cylchlythyr chwarterol sy'n tynnu sylw at rai o'n prif feysydd gwaith ac i gynorthwyo â'r gwaith o gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg ar draws y Cyngor. Mae hyn yn dilyn y newid yn y ffordd mae'r Cyngor yn cyfathrebu'n fewnol fel sefydliad â chynifer o staff yn gweithio gartref yn fwy aml yn dilyn y pandemig Covid-19. Yn ddiweddar, mae'r cylchlythyr hefyd wedi'i bostio ar grŵp Facebook caeedig y Cyngor ar gyfer staff. Y nod yw sicrhau bod cynifer o staff â phosibl yn ei ddarllen, gan gynnwys staff â mynediad cyfyngedig i gyfrifiadur. Mae erthyglau'r cylchlythyr dros y flwyddyn diwethaf wedi cynnwys diweddariad ar sefyllfa'r Gymraeg yn Rhondda Cynon Taf yn sgil canlyniadau Cyfrifiad 2021 a goblygiadau hyn i wasanaethau, canllawiau ar sut i sicrhau bod tudalennau gwe yn cydymffurfio â'r safonau, hyrwyddo capasiti cyfieithu ar y pryd ehangach yr uned, a rhoi gwybod i staff am achlysuron Cymraeg lleol a chenedlaethol.

Ymgyrch Dysgu Cymraeg

Eleni gwelwyd y drydedd ymgyrch ffurfiol, integredig i annog staff i ddysgu Cymraeg yng Nghyngor RhCT. Yn ystod haf 2022, anfonwyd ein poster a'n llyfryn gwybodaeth a oedd yn rhestru'r holl ddarpariaeth gymunedol a rhithwir at holl staff y Cyngor. Yn sgil hyn roedd cyrsiau mewnol y Cyngor wedi'u llenwi erbyn amser dechrau'r cyrsiau ym mis Medi. Cynhaliwyd mân ymgyrch arall ddechrau mis Ionawr 2023 ar gyfer cyrsiau pellach oedd yn dechrau diwedd Ionawr a chafwyd ymateb cadarnhaol eto. Rydym ni'n bwriadu lansio ymgyrchoedd tebyg bob blwyddyn i sicrhau bod mwy o bobl yn cael eu hannog i ddysgu – ac mewn ffordd y maen nhw'n hapus â hi – ar-lein, mewn ystafell ddosbarth, neu'n annibynnol. O ran darpariaeth fewnol y Cyngor, rydym wedi dychwelyd i gynnal rhai gwersi wyneb yn wyneb yn achlysurol erbyn hyn, sydd wedi profi'n boblogaidd gyda'r sawl sy'n mynychu'r cyrsiau, a byddwn ni'n adolygu'r ddarpariaeth ar gyfer y flwyddyn nesaf yn unol â'r adborth rydym yn ei dderbyn.

Mae'r Uned Gwasanaethau Cymraeg wedi arwain ar nifer o brosiectau llwyddiannus. Dyma rai o'r prosiectau sy'n werth eu nodi:

Fframwaith Asesu Effaith ar y Gymraeg

Ers cyflwyno'r fframwaith yn ystod 2021-22, mae'r broses asesu effaith ar y Gymraeg wedi dechrau gwreiddio yn rhan o drefniadau craffu ar benderfyniadau polisi yn y Cyngor. Mae buddsoddiad y Cyngor mewn adnoddau ychwanegol i gefnogi'r gwaith yma wedi caniatáu i swyddogion cydymffurfio weithio gydag adrannau eraill i'w cynorthwyo i ystyried effaith bosibl eu polisiau arfaethedig ar y Gymraeg yn y gymuned a'r gweithle. Yn ogystal â hynny, mae'r panel asesu effaith sy'n cael ei gynnal unwaith y mis fel rheol, yn gyfle i swyddogion cydymffurfio ac uwch swyddogion y Cyngor gynnig adborth pellach i adrannau ar eu cynlluniau. Mae'r broses dau-gam yma'n sicrhau bod pwysigrwydd asesu effaith yn hysbys ar draws y Cyngor cyfan, ac ymhlith uwch reolwyr y sefydliad hefyd. Mae'r Cyngor wedi derbyn adborth cadarnhaol gan Gomisiynydd y Gymraeg ar ein fframwaith ac rydym wrthi'n darparu rhagor o wybodaeth i'r Comisiynydd ar gyfer astudiaeth achos arfer da. Rydym hefyd wrthi'n diweddarau'n canllawiau asesu effaith i adlewyrchu canlyniadau Cyfrifiad 2021, adroddiadau a strategaethau newydd parthed y Gymraeg sydd wedi'u cyhoeddi, a'r cyngor a gafwyd yn achlysur Comisiynydd y Gymraeg ar asesu effaith ym mis Ionawr 2023.

Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2022-2032

Mae'r Uned wedi parhau i gefnogi'r gwaith o gydlyn Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg y Cyngor a chymorth cysylltiedig ar gyfer pennu'r cynllun gweithredu ar gyfer y 5 mlynedd gyntaf, a'r is-grŵp marchnata.

Strategaeth 5 mlynedd i hwyluso a hyrwyddo'r Gymraeg

Yn dilyn gwerthusiad o'n Strategaeth 5 mlynedd 2016-2021 a'i thargedau yn unol â Safon 146 (mae modd dod o hyd i adroddiad y pwyllgor ar-lein [yma](#)), mae'r Uned wedi arwain ar lunio'r Strategaeth newydd a'i chynllun gweithredu cysylltiedig, ar gyfer 2022-2027, yn unol â Safon 145. Cafodd y strategaeth a'r cynllun gweithredu eu hysgrifennu gyda chymorth gan gwmni cynllunio iaith Nico Cyf, ac er bod y cynnydd yn nifer y siaradwyr yn y Fwrdeistref Sirol yn ôl canlyniadau Cyfrifiad 2021 wedi bod yn llai nag yr oeddem yn gobeithio, rydym yn gobeithio adeiladu ar y cynnydd bach a gafwyd yn RhCT gyda'r strategaeth newydd yn anelu at gynyddu nifer y siaradwyr o 5%. Cafodd y Strategaeth newydd ei chymeradwyo mewn [cyfarfod o Is-bwyllgor y Cabinet ar faterion y Gymraeg ym mis Hydref 2022](#), a chafodd y cynllun gweithredu cysylltiedig ei gymeradwyo mewn cyfarfod o'r [Pwyllgor Trosolwg a Chraffu](#) ym mis Mawrth 2023.

Cyfarfodydd Hybrid a Gwasanaethau Cyfieithu ar y Pryd

A'r Cyngor wedi bod yn gwneud defnydd helaethach o lwyfannau gweithio a chyfarfod ar-lein/rhithiol yn sgil pandemig Covid-19, mae Gwasanaethau Cymraeg wedi cefnogi swyddogion TGCh a Gwasanaethau Democrataidd yn llwyddiannus i sicrhau bod Safonau'r Gymraeg yn cael eu bodloni trwy sicrhau bod aelodau o'r cyhoedd a'n Cynghorwyr yn gallu cyfrannu at gyfarfodydd pwyllgor yn Gymraeg os dyna yw eu dymuniad. Mae TGCh, trwy ddefnyddio Zoom, wedi galluogi ychwanegu sianeli iaith at gyfarfodydd Zoom i ganiatáu i bobl wrando yn y Gymraeg neu gael cyfieithiad-ar-y-pryd i'r Saesneg, gan ddibynnu ar eu dewis. Yn ogystal, wrth i gyfarfodydd hybrid a gwasanaethau ffrydio ar-lein gael eu cyflwyno, rydym wedi rheoli datrysiad pwrpasol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r rheoliadau. Wedi i aelodau o garfan y Gwasanaethau Cymraeg, gyda chefnogaeth y garfan TGCh, weithio'n uniongyrchol gyda Microsoft i brofi'r swyddogaeth cyfieithu ar y pryd newydd sy'n rhan o feddalwedd Teams, mae hyn bellach wedi'i gyflwyno ar draws y Cyngor ac yn caniatáu i ragor o staff ddefnyddio'u Cymraeg mewn cyfarfodydd gyda chydweithwyr a phartneriaid mewnol ac allanol.

Cynllun Cyfoedion Cymraeg

Mae'r Cynllun Cyfoedion Cymraeg a ailsefydlwyd yn 2021-22 yn parhau i gwrdd bob mis, er mwyn rhoi cyfle i siaradwyr Cymraeg o bob lefel ar draws y Cyngor gwrdd i ymarfer eu Cymraeg. Yn ogystal â chwrdd dros Teams, mae aelodau'r Cynllun bellach yn cwrdd wyneb yn wyneb bob hyn a hyn, mewn gwahanol gaffis Cymraeg ar draws y Fwrdeistref Sirol er mwyn cefnogi busnesau Cymraeg lleol a rhoi'r cyfle i'n staff ymarfer eu Cymraeg yn y gymuned. Yn ogystal â hyn, rydym hefyd wrthi'n trafod â Gwasanaethau Cymraeg Cyngor Caerffili ynglŷn â chyfuno ein Cynllun Cyfoedion â chynllun tebyg maen nhw'n ei gynnig. Er bod trafodaethau'n mynd rhagddyn nhw, y nod yw bwrw ymlaen â'r cynllun ar y cyd yn gynnar yn haf 2023.

Ymgyrchoedd Diwylliant

Hyrwyddodd Gwasanaethau Cymraeg yr Ymgyrchoedd Diwylliant canlynol yn ystod 2022-2023:

Dydd Gŵyl Dewi

Ar gyfer Dydd Gŵyl Dewi eleni, postiodd yr Uned Gwasanaethau Cymraeg negeseuon ar gyfrifon cyfryngau cymdeithasol y Cyngor yn gofyn i'n dilynwyr gymryd rhan yn y dathliadau. Yn fewnol, ar gyfer staff y Cyngor, cafodd erthygl ei chyhoeddi ar y fewnwyd yn adrodd stori Dewi Sant. Yn dilyn ein dathliadau yn 2022, fe wnaeth ein swyddogion baratoi cwis arall ar thema 'Cymru', a llwyddodd bron 350 aelod o staff i'w gwblhau.

Diwrnod Hawliau'r Gymraeg

Hyrwyddodd y Gwasanaethau Cymraeg Ddiwrnod Hawliau'r Gymraeg trwy gyhoeddi negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol i atgoffa'r cyhoedd bod modd defnyddio gwasanaethau'r Cyngor yn Gymraeg. Ymddangosodd erthygl ar fewnwyd y Cyngor hefyd i atgoffa staff o'u dyletswyddau, ac o'u hawl hwythau i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwaith. Achubwyd ar y cyfle hefyd i rannu templedi dwyieithog (sy'n cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg) gyda holl staff y Cyngor ar gyfer negeseuon allan o'r swyddfa, a negeseuon i'w rhannu pan fyddai gwasanaethau yn cau ar gyfer y Nadolig.

Eisteddfod yr Urdd

Gydag Eisteddfod yr Urdd yn cael ei chynnal yn 2022 am y tro cyntaf ers 2019, fe ddathlodd y Cyngor yr holl ddisgyblion a oedd yn cystadlu yn Sir Ddinbych trwy anfon negeseuon yn dymuno pob lwc iddynt ar y cyfryngau cymdeithasol. Yn ogystal â llunio'r negeseuon hyn a mynd i'r ysgolion i dynnu lluniau'r plant a oedd yn cystadlu, roedd swyddogion y Gwasanaethau Cymraeg wedi llunio negeseuon cyfryngau cymdeithasol ac erthyglau i'w rhannu ymhlith staff yn hyrwyddo'r Eisteddfod ei hun, a gweithgareddau pwysig eraill yr Urdd gydol y flwyddyn, yn lleol ac yn genedlaethol, megis gwersi nofio Cymraeg, Gŵyl Triban, a chynnig llety i ffoaduriaid o Wcráin.

Dydd Miwsig Cymru

Lluniodd yr Uned Gwasanaethau Cymraeg gyfres o negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol yn hyrwyddo rhestrau chwarae Cymraeg, gigs a sesiynau cerddorol Cymraeg lleol.

Cymru a Chwpan Pêl-droed y Byd

Defnyddiodd yr Uned Gwasanaethau Cymraeg lwyddiant Cymru yn cyrraedd rowndiau terfynol Cwpan y Byd yn Qatar i gynnal ymgyrch ar y cyfryngau cymdeithasol i ddathlu gwahanol elfennau ar ddiwylliant yn Gymraeg. Yn ogystal â dymuno pob lwc i'r tîm, cyhoeddwyd negeseuon yn hyrwyddo cysylltiadau'r garfan ag ardal RhCT a hanes ysgrifennu'r anthem genedlaethol ym Mhontypridd. Roedd yn gyfle hefyd i gynyddu ymwybyddiaeth o hanes Cymru a'r Gymraeg – e.e. trwy gyfeirio at eiriau'r gân 'Yma o Hyd' lluniwyd negeseuon yn annog y cyhoedd i ddefnyddio'r llyfrgelloedd y Cyngor i ganfod rhagor am chwedloniaeth Cymru, a'u hatgoffa ar yr un pryd bod llyfrau a gwasanaeth Cymraeg ar gael yn y llyfrgelloedd hefyd.

Meysydd gwasanaeth eraill

Mae nifer helaeth o wasanaethau'r Cyngor bellach wedi dychwelyd i ddarparu gwasanaethau mewn modd tebyg i'r hyn a wnaed cyn y pandemig Covid-19, ac yn hynny o beth, gwelwyd sawl adran yn gweithredu i wella neu addasu eu darpariaeth Gymraeg. Ceir blas ar rai o'r arferion da sydd wedi'u gweithredu yn ystod 2022-23 isod. Yn ogystal â hyn, mae holl feysydd gwasanaeth y Cyngor yn adrodd am ddatblygiadau perthnasol yn eu Hadroddiadau Hunanwerthuso Blynnyddol, ac mae'r manylion sydd wedi'u nodi gan bob gwasanaeth i'w gweld yn Atodiad 1, yn unol â Safonau 158, 164 a 170.

Gwasanaethau Hamdden

Yn sgil cyflwyno Strategaeth Hamdden newydd yn ystod hydref 2022, mae'r Gwasanaethau Hamdden wedi cydweithio â Menter Iaith Rhondda Cynon Taf a Phrifysgol De Cymru i geisio cynyddu'r defnydd o Gymraeg gan hyfforddwyr yn eu dosbarthiadau ffitrwydd. Mae'n gallu bod yn dalcen caled cyflogi hyfforddwyr sy'n siarad Cymraeg neu sy'n hyderus i ddefnyddio'u Cymraeg wrth eu gwaith, ac felly penderfynwyd cynnal sesiynau hyfforddiant i helpu staff presennol y Cyngor i

gyflwyno rhagor o Gymraeg yn ystod eu dosbarthiadau. Y gobaith yw bydd hyn yn annog hyfforddwyr gyda sgiliau Cymraeg cyfyngedig i ddefnyddio'r Gymraeg o'r newydd. O bosibl, bydd hefyd yn helpu siaradwyr Cymraeg rhugl y gwasanaeth sydd efallai'n brin o hyder i deimlo'n fwy parod i gynnal sesiynau cyfan gwbl Gymraeg eu hiaith, gan ychwanegu at arlwy Gymraeg y gwasanaeth.

Iechyd Galwedigaethol

Mae'r gwasanaeth Iechyd Galwedigaethol wedi cyflwyno teclyn atgyfeirio a chwnsela ar-lein ar gyfer materion iechyd meddwl i staff o'r enw Wellbeing with Cari, ac mae hefyd ar gael yn Gymraeg – Lles gyda Cari. Mae sicrhau bod y teclyn ar gael yn Gymraeg nid yn unig yn cyd-fynd â'r cynnig gweithredol sydd ym mholisiâu adnoddau dynol y Cyngor i'w staff ddefnyddio'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd sensitif, ond mae'n pwysleisio pwysigrwydd dewis iaith yr unigolyn wrth geisio a derbyn gofal a thriniaeth.

Cyflawniad Corfforaethol – Strategaeth Newid yn yr Hinsawdd

Yn rhan o Strategaeth Newid yn yr Hinsawdd newydd y Cyngor, mae llwyfan Gymraeg rithiol newydd wedi'i sefydlu ar Teams, sef 'Gofod Gwyrdd' sy'n rhoi'r cyfle i staff drafod yn Gymraeg am faterion sy'n ymwneud â newid yn yr hinsawdd a sut mae'n effeithio ar eu gwaith yn y Cyngor. Mae'n ofod ar gyfer rhannu adnoddau Cymraeg sy'n ymwneud â'r maes hefyd.

CWYNION: SAFON 158(2) 164(2) 170(2)(d)

Cafodd y cwynion canlynol eu derbyn, neu parhawyd i ymchwilio iddyn nhw, yn ystod/yn 2022 - 2023:

Dyddiad y gŵyn	Natur	Drwy law	Deiliant/Ymateb
Awst 2021 (wedi'i chau bellach)	Gwasanaethau i Oedolion: Honiad na chafodd asesiad Cymraeg ei ddarparu i gleient.	Comisiynydd Gymraeg (CS054)	Yn dilyn ymchwiliad statudol ni chafodd y gŵyn ei phennu'n ddilys gan Gomisiynydd y Gymraeg. Canfu ein bod ni wedi cydymffurfio â'r Safonau angenrheidiol wrth ryngweithio â'r cleient ond argymhellodd 4 cam gweithredu er mwyn gwella profiad defnyddwyr y Gymraeg.
Ebrill 2022	Priffyrdd: Cwyn am arwydd stryd dwyieithog. Roedd yr achwynydd yn honni bod yr arwydd yn rhy fawr ac yn amharu ar eu gallu i weld yr olygfa o ffenest ei dŷ, a hynny oherwydd bod enw Cymraeg y stryd wedi'i ychwanegu ato. Roedd yn cwyno hefyd fod enw Cymraeg wedi'i ychwanegu at yr arwydd Saesneg tra bod enwau Saesneg ddim yn cael eu hychwanegu at arwyddion stryd uniaith Gymraeg, a bod yr enw Cymraeg 'Coedlan Byron' yn gyfieithiad anghywir o 'Byron Avenue'.	Aelod o'r cyhoedd	Cwyn ddim yn ddilys. Ymatebodd y Cyngor i'r achwynydd trwy nodi ei ddyletswydd statudol yn unol â Safonau'r Gymraeg i ychwanegu enw Cymraeg y stryd at yr arwydd wrth ei adnewyddu, a pholisi'r Cyngor o sicrhau bod enw Cymraeg ar bob stryd. Nododd yr ymateb hefyd nad oedd yr arwydd newydd yn fwy na'r arwydd blaenorol. Gan gyfeirio at adnoddau fel Geiriadur yr Academi esboniodd y Cyngor fod y cyfieithiad yn un addas.
Mai 2022	Llyfrgelloedd: Cwyn am gyfieithu 'exhibition space' yn 'gofod arddangos'.	Aelod o'r cyhoedd	Cwyn ddim yn ddilys. Ymatebodd y Cyngor trwy nodi fod 'gofod' yn gyfieithiad priodol yn y cyd-destun yma, gan gyfeirio at adnoddau fel Geiriadur yr Academi.
Gorffennaf 2022	Swyddfa Gofrestru: Cwyn am ddiffyg	Aelod o'r cyhoedd	Cwyn yn rhannol ddilys. Atgoffodd yr

	gwasanaeth Cymraeg a chofrestrydd Cymraeg i gofrestru marwolaeth.		Uned Gwasanaethau Cymraeg yr adran o'u dyletswyddau statudol i ddarparu gwasanaeth cofrestru trwy gyfrwng y Gymraeg, gan gynnwys gwasanaeth derbynfa/dros y ffôn. Derbyniodd yr aelod o'r cyhoedd ymddiheuriad a sicrhodd yr adran fod cofrestrydd Cymraeg ar gael i'r unigolyn gofrestru'r farwolaeth.
Gorffennaf 2022	Cyfathrebu a'r Wasg: Cwyn am gyfieithiad awtomatig ar Facebook.	Aelod o'r cyhoedd	Cwyn ddim yn ddilys. Roedd y neges Gymraeg ar Facebook yn gywir, ond roedd y cyfieithiad Saesneg awtomatig a ddarparwyd gan Facebook yn wallus, ac roedd hyn wedi rhoi'r argraff i'r achwynydd rhaid bod y Gymraeg yn wallus hefyd. Esboniwyd i'r achwynydd bod y Gymraeg yn gywir, ac nad oedd gan y Cyngor berchnogaeth dros y cyfieithiad Saesneg awtomatig.
Awst 2022	Cyffredinol: Cwyn am dderbyn gohebiaeth ddwyieithog. Nid oedd yr achwynydd am dderbyn unrhyw ohebiaeth yn Gymraeg.	Aelod o'r cyhoedd	Cwyn ddim yn ddilys. Ymatebodd y Cyngor trwy esbonio bod ganddo ddyletswydd mewn rhai sefyllfaoedd i anfon gohebiaeth Gymraeg bob tro yn unol â Safonau'r Gymraeg, a bod ganddo ddyletswydd hefyd i hyrwyddo'r Gymraeg yn unol â pholisïau a strategaethau lleol a chenedlaethol. Nodwyd hefyd fod rhai sefyllfaoedd yn codi lle mae modd i'r Cyngor gysylltu ag aelod o'r cyhoedd yn uniaith

			Saesneg ble mae'n effro i ddewis iaith perthnasol gan yr unigolyn hwnnw.
Medi 2022 (Gweler cwyn arall am yr un mater isod)	Cyfathrebu a'r Wasg: Cwyn am ddiffyg neges gyfatebol Gymraeg ar gyfer neges Saesneg ar Twitter ynghylch marwolaeth y Frenhines Elisabeth II.	Aelod o'r cyhoedd	Cwyn yn ddilys. Derbyniodd yr aelod o'r cyhoedd ymddiheuriad am y diffyg yma, ac esboniad bod neges Gymraeg wedi'i chyhoeddi o fewn ychydig oriau i gyfateb i'r neges Saesneg.
Medi 2022 (Gweler cwyn arall am yr un mater uchod)	Cyfathrebu a'r Wasg: Cwyn am ddiffyg neges gyfatebol Gymraeg ar gyfer neges Saesneg ar Twitter ynghylch marwolaeth y Frenhines Elisabeth II.	Aelod o'r cyhoedd	Cwyn yn ddilys. Derbyniodd yr aelod o'r cyhoedd ymddiheuriad am y diffyg yma, ac esboniad bod neges Gymraeg wedi'i chyhoeddi o fewn ychydig oriau i gyfateb i'r neges Saesneg.
Medi 2022	Adran Materion Tai: Cwyn am ddiffyg opsiwn i gysylltu â'r garfan Dewisiadau Tai ar ochr Gymraeg y wefan, tra bod opsiynau cysylltu ar gael ar yr ochr Saesneg.	Aelod o'r cyhoedd drwy law Comisiynydd y Gymraeg (CS1050)	Ar ôl i'r Cyngor ddarparu gwybodaeth bellach, ac ymateb yn rhagweithiol trwy gynnal gwaith i sicrhau bod y tudalennau gwe perthnasol bellach yn cydymffurfio, penderfynodd y Comisiynydd nad oedd angen cynnal ymchwiliad llawn i'r achos yma oherwydd ei fod yn fodlon nad oedd gwendid systemig o ran cydymffurfiaeth y wefan, ac mai un achos prin o fethiant oedd hwn.
Hydref 2022	Prifffyrdd: Cyhoeddiad ar grŵp Facebook yn tynnu sylw at wall teipio ar arwydd stryd yn y Porth.	Neges ar Grŵp Facebook 'Arwyddion Cymraeg Gwael'	Ar ôl i'r Uned Gwasanaethau Cymraeg roi gwybod i adran y Prifffyrdd am y cyhoeddiad, aethant ati i newid yr arwydd er mwyn atal cwyn swyddogol rhag dod i law.
Tachwedd 2022	Adran Addysg: Cwyn am gyflwyniad ac	Aelod o'r cyhoedd drwy law Comisiynydd y	Mae'r Cyngor wedi cyfaddef ei fod wedi

	adnoddau uniaith Saesneg gan y Cyngor i rieni yn un o ysgolion Cymraeg y Sir. Roedd y gŵyn hefyd yn nodi bod yr holiadur Cymraeg a ddosbarthwyd yn rhan o'r cyflwyniad yn 'wallus'.	Gymraeg (CS1080)	methu â bodloni disgwyliadau Safonau'r Gymraeg mewn perthynas â'r cyflwyniad a roddwyd, ond nododd ei fod wedi darparu adnoddau dwyieithog priodol, a'i fod eisoes wedi rhannu canllawiau ar gyfer trefnu cyfarfodydd dwyieithog gyda staff er mwyn ceisio osgoi methiannau o'r math yma. Serch hynny, mae Comisiynydd y Gymraeg wedi penderfynu bwrw ymlaen ag ymchwiliad llawn i'r mater yma – mae'r ymchwiliad hwnnw'n mynd rhagddo ar hyn o bryd.
Rhagfyr 2022	Taliadau: Tudalen ar wefan taliadau Cymraeg (dirwy parcio) y Cyngor yn cynnwys rhannau uniaith Saesneg.	Aelod o'r cyhoedd	Cwyn ddilys. Wedi ystyried y mater, penderfynodd yr adran fod y dudalen dan sylw yn rhan ddiangen o'r broses daliadau, a phenderfynwyd tynnu'r dudalen o'r system ar ochrau Cymraeg a Saesneg y wefan.
Ionawr 2023	Priffyrdd: Cwyn am ddau arwydd ffordd uniaith Saesneg ac arwydd uniaith Saesneg ar focs trydanol gwyrdd yn Efail Isaf.	Aelod o'r cyhoedd drwy law Comisiynydd y Gymraeg (CSG1098)	Ar ôl i'r Cyngor ddarparu gwybodaeth bellach, ni chafodd y gŵyn ei phennu'n ddilys gan Gomisiynydd y Gymraeg. Canfu fod y Cyngor wedi gweithredu yn unol â'r Safonau perthnasol gan nad oedd yr arwyddion dan sylw wedi'u hadnewyddu ers o leiaf 2009, ac nid yw'r bocs gwyrdd yn eiddo i'r Cyngor.
Chwefror 2023	Gwasanaethau Gwastraff: Cwyn am ddiffyg arwyddion Cymraeg yn un o ganolfannau ailgylchu	Aelod o'r cyhoedd	Cwyn ddilys. Cafodd y Gwasanaethau Gwastraff eu hatgoffa o'u dyletswyddau i ddarparu arwyddion

	yn y gymuned y Cyngor.		Cymraeg/dwyieithog, ac mae'r arwyddion perthnasol yn cael eu newid yn rhai dwyieithog, gyda'r Gymraeg yn ymddangos yn gyntaf.
--	---------------------------	--	---

DRAFT

SGILIAU CYMRAEG STAFF: SAFON 170(2)(a)

Fel nodiwyd yn adroddiad y llynedd, yn sgîl newidiadau sylweddol i systemau Adnoddau Dynol, dim ond hyn a hyn o ddata gafodd eu hadrodd. Fydd y data newydd, sy'n cael eu cadw yn unol â Safon 151, yn seiliedig ar ofynion Safon 127, ddim ar gael i ddibenion adrodd tan 2023-24.

HYFFORDDIANT AR GYFER STAFF: SAFON 170 (2)(b) ac (c)

Does dim newid wedi bod ers y sefyllfa yn 2022-2023 o ran hyfforddiant ar gyfer Recriwtio a Hysbysebu, Rheoli Cyflawniad, Gweithdrefnau Cwyno a Disgyblu, Ymsefydlu, Delio â'r Cyhoedd ac Iechyd a Diogelwch, yn seiliedig ar y cofnodion a gafodd eu cadw yn unol â Safon 152 sy'n seiliedig ar ofynion Safon 128.

LLENWI SWYDDI GWAG: SAFON 170 (ch)

Caiff y ffigyrau canlynol eu cadw yn unol â Safon 154, yn seiliedig ar ofynion Safon 136. Ers mis Medi 2017, mae'n hanfodol bod pob swydd newydd yn gofyn am Gymraeg Lefel 1 (Cymraeg sylfaenol) gydag opsiynau i reolwyr recriwtio ar lefel 2 i lefel 5 gan ddibynnu ar y swydd. Mae nifer y swyddi ar y lefel rhwng 1 a 5 fel a ganlyn:

Lefelau Sgiliau Cymraeg	L1	485
Lefelau Sgiliau Cymraeg	L2	9
Lefelau Sgiliau Cymraeg	L3	2
Lefelau Sgiliau Cymraeg	L4	0
Lefelau Sgiliau Cymraeg	L5	9

Rhagor o wybodaeth:

Uned Gwasanaethau Cymraeg

Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf,
Pafiliwn D,
Cwm Clydach,
Tonypandy,
Rhondda Cynon Taf
CF40 2XX
Ffôn: 01443 570001
E-bost: Swyddoglaith@rhondda-cynon-taf.gov.uk

Atodiad 1 - Hunanwerthusiadau Gwasanaeth

Cynnal a Chadw a Rheoli'r Priffyrdd

Mae'r Gwasanaeth Cynnal a Chadw a Rheoli'r Priffyrdd yn parhau i fabwysiadu Safonau'r Gymraeg ac felly wedi ehangu'r gwasanaethau y mae'n eu darparu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Yn dilyn ymgyrch recriwtio mae nifer o staff (dros 10) yn y Gwasanaeth sydd â sgiliau Cymraeg llafar ac ysgrifenedig rhesymol, ac mae staff yn cael eu hannog i ddilyn cyrsiau i ddysgu'r iaith.

Pan fyddwn yn cynnal ymgynghoriadau â thrigolion neu pan fydd llythyrau cyffredinol yn cael eu hanfon, darperir pob gohebiaeth yn ddwyieithog, h.y. drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. Yn rhan o unrhyw arddangosfa gyhoeddus mae aelod o staff sy'n siarad Cymraeg yn bresennol bob amser i ateb neu sgwrsio yn Gymraeg gyda'r cyhoedd os oes angen.

Yn ystod gwaith cynnal a chadw arferol o ran adnewyddu arwyddion neu enwau strydoedd, mae pob arwydd newydd a gaiff ei osod yn ddwyieithog. Mae enwau strydoedd newydd bellach yn Gymraeg yn unig, gan hyrwyddo'r Gymraeg ymhellach.

Meysydd posibl i'w gwella:

Parhau i annog staff i fanteisio ar gyfleoedd i ddysgu Cymraeg.

Gwasanaeth Llesiant a Chydnerthedd y Gymuned

Mae'r Gwasanaeth yn parhau i ymdrechu i ddarparu ei wasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg a chydymffurfio â gofynion Safonau'r Gymraeg.

Mae'r holl ddeunydd ysgrifenedig sydd ar gael i'r cyhoedd, gan gynnwys gwybodaeth ar-lein a ffurflenni cais, ar gael yn ddwyieithog ac mae pob pwynt cyswllt cychwynnol â'r cyhoedd yn ddwyieithog. Mae staff derbynfa y Ganolfan i Blant a Theuluoedd yn ogystal â'r Garfan Cymorth Materion Busnes ganolog yn ateb pob ffôn ac yn cyfarch aelodau'r cyhoedd yn ddwyieithog.

Caiff sgiliau iaith eu hatgyfnerthu drwy recriwtio lle bo hynny'n bosibl, er nad yw hi bob amser yn bosibl recriwtio unigolion sydd â'r sgiliau angenrheidiol ar gyfer y swydd ac sydd hefyd â'r sgiliau Cymraeg angenrheidiol. Wrth ymgysylltu â gwasanaethau, gofynnir i deuluoedd bob amser am eu dewis iaith ac mae siaradwyr Cymraeg yn cael eu penodi i weithio gyda theuluoedd unigol.

Mae pob aelod newydd o staff ar draws y Gwasanaeth Cydnerthedd a Llesiant y Gymuned yn cael ei gefnogi i gwblhau hyfforddiant Cyflwyniad i Gymraeg yr Awdurdod Lleol, ac yn cael ei gefnogi'n llawn i gwblhau unrhyw hyfforddiant pellach yn ystod oriau gwaith.

Mae gan y Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuenctid (YEPS) Swyddog Ymgysylltu Ieuenctid sy'n siarad Cymraeg ym mhob un o'r 4 ysgol uwchradd Gymraeg. Mae'r Swyddog Ymgysylltu Ieuenctid yn cynnig cefnogaeth i bobl ifainc wella eu cydnerthedd, yn darparu cyrsiau achrededig ac yn brif bwynt cyswllt ar gyfer yr holl ddarpariaeth ar ôl ysgol mae'r gwasanaeth yn ei chynnig i bobl ifainc. Roedd gweithgareddau Cymraeg hefyd yn cael eu cynnig drwy gydol y gwyliau ysgol. Mae siaradwr Cymraeg hefyd ym mhob rôl yn y Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuenctid, sy'n sicrhau bod pob person ifanc yn gallu cael mynediad at weithiwr ieuenctid sy'n siarad Cymraeg ar draws pob maes o'r gwasanaeth, e.e. Cymorth Trosiannol/Iechyd Meddwl a Lles.

Mae'r Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuenctid yn chwarae rhan arweiniol yng Nghynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSCA) 2022-2032 – Deiliant 5: Rhagor o gyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau gwahanol yn yr ysgol. Mae Rheolwr y Gwasanaeth

leuenctid yn mynychu cyfarfodydd rheolaidd ac mae'r rôl yn allweddol wrth lunio, gweithredu a gwerthuso cynnydd CSCA mewn perthynas â'i rôl mewn ysgolion a chlybiau ieuenctid. Mae'r Garfan Hyblygrwydd Cyllido hefyd yn cael ei chynrychioli ar yr is-grŵp CSCA ac mae ganddi gamau gweithredu sy'n ymwneud â darpariaeth cyfrwng Cymraeg Dechrau'n Deg yn rhan o Ddeiliant 1: Mwy o ddisgyblion Meithrin / tair oed yn derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn hyn o beth, mae CWRS yn chwarae rhan allweddol wrth helpu'r Cyngor i gyflawni ei weledigaeth 10 mlynedd.

Mae darpariaeth cyfleoedd chwarae cyfrwng Cymraeg yn parhau i fod yn fwch hysbys yn y ddarpariaeth o ganlyniad i gyfyngiadau yn y farchnad allanol. Mae hyn oherwydd diffyg darparwyr chwarae sy'n gallu cyflwyno'n hyderus drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae gan y gwasanaeth CLG hanesyddol gyda Menter Iaith sy'n cael ei adolygu ar hyn o bryd i sicrhau bod y ddarpariaeth yn bodloni gofynion yr Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae yn effeithiol.

Mae adnoddau fideo'r garfan Siarad a Chwarae ar gael yn Gymraeg a Saesneg ac mae nifer o staff yn y garfan yn dysgu Cymraeg ar hyn o bryd fel bod modd i ragor o bobl ddefnyddio'r gwasanaeth ac er mwyn darparu cymorth iaith gynnar ar gyfer y Gymraeg. Ar hyn o bryd nid oes galw mawr am ddarparu gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg felly mae ein haelod o staff sy'n siarad Cymraeg yn gallu diwallu'r galw yn ddigonol. Bydd hyn yn cael ei adolygu yn unol â'r galw ac yn rhan o'r broses recriwtio yn y dyfodol.

Mae gan bob lleoliad gofal plant Hyrwyddwr y Gymraeg sy'n hybu ac yn annog defnydd achlysurol o'r Gymraeg. Mae copïau o'r llyfryn Manteision Dwyieithrwydd wedi'u hanfon at holl leoliadau gofal plant yr Awdurdod Lleol er mwyn eu dosbarthu ymhlith rhieni.

Mae pob lleoliad gofal plant Rhaglen Dechrau'n Deg yn defnyddio sgorau'r offeryn monitro arsylwi ac asesu ar gyfer elfen iaith Gymraeg yr offeryn. Bydd y rhai y nodir nad oes ganddyn nhw sgiliau siarad Cymraeg digonol yn cael eu cyfeirio ar gyfer cyrsiau Cymraeg ychwanegol. Mae copïau o'r llyfryn Manteision Dwyieithrwydd wedi'u hanfon at yr holl leoliadau gofal plant Dechrau'n Deg a'r Awdurdod Lleol er mwyn eu dosbarthu ymhlith rhieni.

Mae rhaid i holl bartneriaid wedi'u comisiynu gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg lle bo'n berthnasol i'r gwasanaeth sy'n cael ei gyflawni. Mae'r Garfan Hyblygrwydd Cyllido yn nodi p'un o'r 170 o Safonau sy'n berthnasol i'r gwasanaeth wedi'i gontractio ac mae'r rhain yn cael eu rhestru yn y fanyleb gwasanaeth cyn tendro. Mae'r Swyddogion Monitro yn cynnal ymweliadau monitro bob chwarter i sicrhau bod contractau'n cydymffurfio, gan gynnwys gwiriadau cydymffurfio blynyddol ar Safonau'r Gymraeg.

Mae'r Swyddogion Monitro yn cynnal Archwiliad Safonau'r Gymraeg ar wahân yn flynyddol gyda darparwyr. Mae canlyniadau'r archwiliad yn cael eu hanfon yn ôl at ddarparwyr yn rhan o'u cyfarfod adolygu cyflawniad blynyddol. Nodir bod angen camau gweithredu brys os oes unrhyw achosion o beidio â chydymffurfio. Nid oes llawer o brosiectau sydd â siaradwr Cymraeg rhugl sy'n gallu darparu gwasanaeth cyfrwng Cymraeg llawn ar gais ar unwaith. Mae mwyafrif y darparwyr yn cydymffurfio o ran bod dogfennau a deunyddiau sy'n cael eu dosbarthu i'r cyhoedd yn ddwyieithog a bod ganddyn nhw fecanweithiau yn eu lle i aelod arall o staff sy'n siarad Cymraeg, ar gais, naill ai godi'r alwad neu ffonio'n ôl ac yna cynnal asesiad/cefnogaeth ac ati. Ar hyn o bryd mae saith lleoliad gofal plant cyfrwng Saesneg wedi'u comisiynu lle does dim siaradwr Cymraeg ar gael.

Mae Archwiliad Safonau'r Gymraeg yn fframwaith sicrhau ansawdd i sicrhau bod yr holl leoliadau gofal plant a reolir gan awdurdodau lleol a darparwyr a gomisiynir yn cael eu monitro yn erbyn yr elfennau o ofal plant sy'n effeithio ar blant. Mae Rhaglen Dechrau'n Deg hefyd yn cyfrannu at Ddeiliant 1 Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) 2022-2032 – 'Mwy o ddisgyblion meithrin / tair oed yn derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg'.

Mewn ymateb i gyrraedd targedau Deiliant 1 y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg - Er mwyn cynyddu'r nifer sy'n manteisio ar leoedd cyfrwng Cymraeg, mae'r Garfan Hyblygrwydd Cyllido wedi

adolygu'r trefniadau comisiynu drwy gyflwyno Fframwaith Hyblyg newydd. Mae cyflwyno'r Fframwaith Hyblyg wedi rhoi'r cyfle i unrhyw ddarparwr gofal plant cyfrwng Cymraeg (yn amodol ar fodloni safonau sicrhau ansawdd a bennwyd ymlaen llaw) ddod yn ddarparwr Dechrau'n Deg heb orfod mynd drwy broses dendro gystadleuol. Bu'r garfan yn gweithio mewn partneriaeth â Mudiad Meithrin i hyrwyddo'r cyfle gyda'i aelodau ac ym mis Tachwedd 2022 mae nifer y darparwyr cyfrwng Cymraeg cymeradwy wedi cynyddu o 9 i 19. Mae hyn yn cynnig mwy o ddewis i rieni a gwasgariad daearyddol gwell ledled RhCT. Bydd hyn yn ei dro yn cynyddu'r nifer sy'n manteisio ar leoedd Dechrau'n Deg cyfrwng Cymraeg, gan arwain at gynnydd yn nifer y rhieni sy'n dewis addysg Gymraeg i'w plentyn.

Paratowyd taflen 'Y Daith Ddwieithog' mewn cydweithrediad â Mudiad Meithrin i hyrwyddo cynnig gofal plant dwieithog Dechrau'n Deg. Bydd y daflen nawr yn cael ei hanfon at bob rhiant sy'n gymwys ar gyfer Dechrau'n Deg gyda'r ffurflen gofrestru gofal plant pan fydd y plentyn yn 18 mis oed. Bwriad y daflen yw atgoffa rhieni bod Cynnig Dechrau'n Deg hefyd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg.

Meysydd posibl i'w gwella:

Parhau i gefnogi staff sy'n dymuno datblygu eu sgiliau Cymraeg.

Parhau i fonitro'r nifer sy'n manteisio ar ofal plant Dechrau'n Deg cyfrwng Cymraeg o ganlyniad i gyflwyno'r dull comisiynu cyflenwyr cymeradwy.

Parhau i fonitro bod darparwyr a gomisiynir yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg.

Parhau i geisio ysgogi'r farchnad i gynyddu'r cyfleoedd chwarae cyfrwng Cymraeg a ddarperir.

TGCh a Digidol

Drwy'r Strategaeth Ddigidol rydym ni'n ceisio sicrhau bod gwasanaethau'n gwbl gynhwysol o'r Gymraeg. Cynhaliwyd asesiad o'r effaith ar y Gymraeg ar ddechrau datblygiad y Strategaeth Ddigidol i sicrhau ystyriaeth gadarn o

- Egwyddorion a gofynion Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 er mwyn sicrhau cydymffurfiaid â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Mae'r Gwasanaeth yn darparu ei wasanaethau ac yn cydymffurfio â gofynion y Gymraeg, yn unol â'r Safonau a Mesur y Gymraeg. Rydym yn darparu neu'n cefnogi'r canlynol: -

- Cynnig cymorth y Ganolfan Alwadau drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg;
- Cynnig cymorth Desg Wasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg;
- Cynorthwyo ysgolion Cymraeg i ddarparu TGCh;
- Cefnogi prynu systemau a meddalwedd Cymraeg;
- Mae Bwletinau Digidol a Rheoli Gwybodaeth yn ddwyieithog;
- Mae'r holl ganllawiau diogelu data a dogfennau allweddol sy'n cael eu cyhoeddi yn ddwyieithog;
- Mae pob Hysbysiad Preifatrwydd Diogelu Data yn ddwyieithog;
- Troedynnau e-bost dwieithog, negeseuon 'allan o'r swyddfa' dwieithog;
- Cynnig offer meddalwedd cyfieithu iaith Gymraeg (Cysill) y mae modd i staff eu defnyddio os oes angen;
- Negeseuon e-bost cyffredinol i bob aelod o staff, aelodau ac ysgolion yn ddwyieithog;
- Gosod offer rhyngwyneb iaith Gymraeg drwy MS Office (Cysgeir) i holl staff y Cyngor;
- Darparu'r modd i fanteisio ar MS Office llawn drwy gyfrwng y Gymraeg;
- Staff i fynychu cyrsiau Cymraeg;
- Gosod cwestiynau Cymraeg i'n proses gaffael ar gyfer tendro;
- Meddalwedd cyfieithu Cymraeg ar gael drwy gyflwyno M365;
- Gwe-ddarlledu (cyfarfodydd pwyllgor) yn darparu Isdeitlau Cymraeg;

- Gwefannau a thudalennau 'sblash' dwyieithog - gwefan ddwyieithog ar gyfer yr holl wybodaeth a thrafodion;
- Ffurflenni ar-lein yn ddwyieithog;
- Wedi gweithio gyda'r Uned Gwasanaethau Cymraeg i sicrhau bod dogfennau gofal cymdeithasol allweddol yn System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru yn nodi dewisiadau defnyddwyr gwasanaeth a'u cynhalwyr o ran defnyddio'r Gymraeg.

Meysydd posibl i'w gwella:

Sicrhau bod prosiectau gwasanaethau digidol newydd yn ystyried y gofynion yma'n llawn.

Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu

Ymgynghori ac Ymgysylltu

- Mae'r holl ddogfennau Ymgynghori ac Ymgysylltu ar gael yn Gymraeg. Rydym yn cynorthwyo staff yr adran Gymraeg gyda'u hymgyngoriadau eu hunain. Mae'r adran yn parhau i gefnogi aelodau o staff sydd am ddysgu Cymraeg er mwyn eu helpu i ymgysylltu â siaradwyr Cymraeg yn y gwahanol achlysuron rydym yn cymryd rhan ynddyn nhw.
- Rydym wedi cyflwyno cwestiwn newydd i'w ddefnyddio mewn ymgynghoriadau ar newid gwasanaeth er mwyn asesu'r effaith y bydd unrhyw newid yn ei chael ar y Gymraeg neu siaradwyr Cymraeg, sy'n unol â gofynion Deddf yr Iaith Gymraeg. Defnyddir hyn i lywio Asesiadau o'r Effaith ar y Gymraeg ac er mwyn cynorthwyo'r gwasanaeth i wneud penderfyniadau.
- Rydym yn darparu opsiwn dwyieithog ar gyfer cyfarfodydd cyhoeddus ar-lein neu all-lein.
- Mae'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael eu defnyddio i lywio Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb ac Asesiadau o'r Effaith ar y Gymraeg. Rôl y Dadansoddwr Data yw cefnogi a darparu'r ymchwil a'r dystiolaeth sydd eu hangen ar wasanaethau i symud prosiectau/cynigion yn eu blaenau.

Cabinet a Chyfathrebu

- Mae'r garfan cyfathrebu yn cefnogi hyrwyddo achlysuron Cymraeg a diwrnodau ymwybyddiaeth o'r Gymraeg.
- Mae'r garfan cyfathrebu yn parhau i roi cyngor i feysydd gwasanaeth ynghylch defnyddio'r Gymraeg yn eu cyfathrebiadau.

Meysydd Posibl i'w Gwella:

Lle bo'n ymarferol bosibl, gwella ymhellach sut rydym yn cyhoeddi cynnwys yn y ddwy iaith ar yr un pryd.

Gwasanaethau i Oedolion - Eithriadol

Diogelu'r Cyhoedd a Gwasanaethau Rheoleiddio

- Mae rheolwyr yn cefnogi staff i ddilyn hyfforddiant yn y Gymraeg. Eleni, mae hyfforddiant yn y Gymraeg yn cael ei ddarparu i 2 berson o'r Garfan Bwyd ac Iechyd a Diogelwch, un o'r Garfan Gofrestru a dau o Safonau Masnach. Mae yna nifer o siaradwyr Cymraeg rhugl yn yr adran Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd sydd ar hyn o bryd yn diwallu'r galw gan fusnesau a thrigolion.

- Mae'r holl daflenni gwybodaeth Bwyd ac Iechyd a Diogelwch a anfonir at fusnesau yn ddwyieithog.
- Mae'r adroddiadau arolygu hylendid bwyd yn nodi a yw busnes eisiau gohebu'n ddwyieithog. Mae'r wybodaeth yma'n rhan o system Civica i hysbysu carfanau eraill.
- Darperir negeseuon cyfryngau cymdeithasol yn Gymraeg ac yn Saesneg.
- Mae nifer o gofrestriadau genedigaethau a marwolaethau eleni wedi eu cynnal drwy gyfrwng y Gymraeg, ar gais y cwsmer. Yn yr un modd, mae'r gwasanaeth yn cynnig cynnal seremonïau drwy gyfrwng y Gymraeg ac er bod hyn yn digwydd yn anaml, mae un wedi ei threfnu ar gyfer 2023. Mae'r galw eleni wedi cynyddu, er ei fod yn dal yn gynrychioliadol o ran nifer y penodiadau a wnaed. Bydd yn destun adolygiad parhaus o ran sicrhau bod digon o siaradwyr Cymraeg ar gael yn y maes gwasanaeth. Nodir bod cael nifer o aelodau staff sy'n gallu siarad Cymraeg mewn maes gwasanaeth yn ei gwneud hi'n haws cynnal cymhwysedd gan fod staff yn cael eu hargymell i ddefnyddio'r iaith o ddydd i ddydd.
- Mae system Stopford sy'n cael ei defnyddio gan yr adran Gofrestru yn cael ei rhaglennu gyda negeseuon cadarnhau dros e-bost a hysbysiadau atgoffa yn Gymraeg a Saesneg. Mae modd creu'r negeseuon yma hefyd ar gyfer apwyntiadau dros y ffôn.
- Mae'r sgriptiau a ddefnyddir yn y gwasanaeth Profi, Orlhain, Diogelu yn cynnwys cyflwyniad i ofyn i'r dinesydd ym mha iaith y mae'n dymuno cynnal yr alwad. Mae nifer o siaradwyr Cymraeg ar gael pe bai eu hangen. Rydym hefyd yn anfon pob neges a llythyr yn ddwyieithog.

Meysydd posibl i'w gwella:

Parhau i nodi a gweithredu cyfleoedd lle mae modd defnyddio'r Gymraeg ar draws pob maes gwasanaeth.

Gofal y Strydoedd a Gwasanaethau Gwastraff

Mae'r gwasanaeth yn adolygu ac yn gweithio tuag at gydymffurfio'n llawn â Safonau'r Gymraeg o ran dogfennau polisi, gohebiaeth a chyswllt wyneb yn wyneb (gan gynnwys ar arwyddion ac offer) a gwybodaeth i'r cyhoedd sydd ar y wefan. Ni chafodd y gwasanaeth unrhyw gwynion gan y Comisiynydd ac ni chafodd unrhyw geisiadau am wasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg yn 2020/21. Cynorthwyodd cydweithwyr o'r gwasanaeth Gofal i Gwsmeriaid ni yn ystod y broses yma. Hysbysir staff yn ystod y cyfnod sefydlu am ein gofynion gwasanaeth o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg a bydd y gwasanaethau'n ymdrechu i barhau i annog staff sy'n dymuno dysgu'r iaith neu staff cymorth sy'n dymuno derbyn gwybodaeth yn Gymraeg.

Meysydd posibl i'w gwella:

Cynnig hyfforddiant Cymraeg i staff sy'n delio ag aelodau o'r cyhoedd bob dydd.

Gwasanaethau Cymuned

Ers cyflwyno I-Trent, nid yw'r Cyngor wedi gallu cael gwybodaeth am Sgiliau Iaith Gymraeg staff. Mae'r wybodaeth berthnasol yn cael ei chofnodi ar y system, fodd bynnag, ar hyn o bryd nid oes unrhyw ffordd o gael yr wybodaeth allan. Mae trafodaethau gyda'r adran Gyflogres yn parhau, a'r gobaith yw y bydd gwaith uwchraddio mawr sydd i'w weithredu yn C4 yn mynd i'r afael â'r broblem. Mae angen cynnwys y ffigurau yn ein hadroddiad blynyddol ar Safonau'r Gymraeg sydd i'w gyhoeddi ym mis Mehefin bob blwyddyn.

Mae hefyd yn ofynnol i wasanaethau gwblhau Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg (e.e. Asesiad o Effaith Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg) ar gyfer unrhyw benderfyniadau a wneir ynghylch newidiadau i

wasanaethau neu bolisiau y mae angen eu cyhoeddi. Mae'r Uned Gwasanaethau Cymraeg yn gweithio'n agos gyda'r Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd a Chyfathrebu i sicrhau bod holl wasanaethau'r Cyngor yn cydymffurfio.

Mae'r Uned Gwasanaethau Cymraeg ar gael i gynnig cymorth i bob maes gwasanaeth ar draws y Cyngor. Serch hynny, oherwydd pwyntiau a godwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg a diweddariadau a dderbyniwyd ar gydymffurfiaeth â rhai o Safonau'r Gymraeg, teimlir bod angen rhagor o waith codi ymwybyddiaeth a hyrwyddo gyda rheolwyr a staff i'w hannog i wella eu sgiliau Cymraeg. O'r herwydd, yn y flwyddyn newydd bydd y Garfan yn cynnal cyfarfod arall o swyddogion gwasanaeth allweddol a sefydlwyd yn wreiddiol pan ailgyflwynwyd Safonau'r Gymraeg, i gefnogi datblygiad sgiliau Cymraeg ar draws meysydd gwasanaeth. Ar hyn o bryd mae dros 40 aelod o staff ar sesiynau dysgu Cymraeg. Mae rhai aelodau hefyd yn manteisio ar y cyfle i wella eu sgiliau Cymraeg.

Mae rhaglenni a ariennir gan grant cymorth cyflogaeth yn parhau i gynnig sesiynau Cymraeg yn rhan o'n rhaglenni hyfforddiant cyn cyflogaeth. Serch hynny, mae'r nifer sy'n manteisio ar y rhaglen wedi bod yn isel iawn hyd yma. Bydd y gwasanaeth yn ceisio gwreiddio'r ddarpariaeth yma ymhellach ac archwilio cyfleoedd i ddatblygu llwybr cyflogaeth Cymraeg yn y rhaglen cymorth cyflogaeth newydd o fis Ebrill 2023. Mae'r sector Cymraeg hefyd wedi'i nodi fel sector sydd â blaenoriaeth ar draws y rhanbarth gan Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Dinas Caerdydd.

Mae Dysgu Oedolion yn y Gymuned yn ddiweddar wedi ymrwymo i Gytundeb Lefel Gwasanaeth gyda Menter Iaith RhCT i dreialu darpariaeth cyrsiau cyfrwng Cymraeg. Os yw'r cyfnod prawf yn llwyddiannus, mae'n bosibl bydd y ddarpariaeth yn parhau ac yn cael ei hehangu yn y flwyddyn ariannol nesaf. Yn ddiweddar mae wedi dod yn aelod partner o'r grwpiau Strategol a Gweithredol Dysgu Oedolion yn y Gymuned. Byddwn ni hefyd yn chwilio am gyfleoedd i ailgodi costau cyfieithu ar raglenni a ariennir gan grant eleni ac yn y dyfodol.

Mae staff yn eglur o ran y gofyniad i nodi dewis iaith unigolyn ac i ymateb i unrhyw ohebiaeth sydd wedi dod i law yn yr iaith o'i ddewis. Mae gwybodaeth am sgiliau Cymraeg cleientiaid yn cael ei chofnodi yn rhan o'r broses cofrestru cleientiaid ar ein darpariaeth ar gyfer rhaglenni a ariennir drwy grant drwy Dysgu Oedolion yn y Gymuned a Chymorth Cyflogaeth.

Mae'r holl ddogfennau a chyhoeddusrwydd ysgrifenedig yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg perthnasol. Mae pob neges cyfryngau cymdeithasol yn ddwyieithog ac mae newidiadau i dudalennau gwe yn cael eu hanfon i'w cyfieithu fel bod unrhyw newidiadau ar gael yn y ddwy iaith ar yr un pryd. Ni chafwyd unrhyw gwynion swyddogol mewn perthynas â chynnig Cymraeg y Gwasanaethau Cymuned, fodd bynnag, yn ddiweddar cafwyd nifer fach o gwynion am feysydd gwasanaeth eraill ar draws y Cyngor. Ymdriniwyd â'r rhain heb oedi gyda chymorth yr Uned Gwasanaethau Cymraeg a hyd yma nid ydyn nhw wedi arwain at ymchwiliad llawn gan Gomisiynydd y Gymraeg.

Serch hynny, maen nhw wedi ysgogi trafodaethau am gymorth ychwanegol a chodi ymwybyddiaeth rheolwyr a staff ar draws y Cyngor. Mae'n debygol y bydd gweithgor o swyddogion allweddol o bob rhan o'r Cyngor a sefydlwyd yn flaenorol i edrych ar gydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg yn cael ei adfer. Bydd hyn yn helpu i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg ar draws y Cyngor yn ogystal â chodi ymwybyddiaeth o ofynion cyfreithiol.

Fel y nodwyd yn flaenorol yn y ddogfen yma, mae Strategaeth Bum Mlynedd y Cyngor ar gyfer Hyrwyddo'r Gymraeg 2022-26 wedi'i datblygu ac mae cynllun gweithredu bellach yn cael ei ddatblygu gan fod data'r Cyfrifiad newydd wedi'i gyhoeddi'n fanwl. Cynhaliwyd Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg yn ddiweddar hefyd yn rhan o'r broses yma ac fe'i cyflwynwyd i'r panel, ynghyd â'r adroddiad i'r Uwch Garfan Rheoli ac Is-bwyllgor y Cabinet ar y Gymraeg ym mis Medi. Disgwylir i'r cynllun gweithredu drafft fynd gerbron y Pwyllgor Craffu ym mis Mawrth 2023.

Mae heriau parhaus wedi bod mewn perthynas â recriwtio cyfieithwyr sy'n tynnu sylw at bwysigrwydd recriwtio siaradwyr Cymraeg rhugl mewn meysydd gwasanaeth lle bynnag y bo modd er mwyn iddyn

nhw allu darparu gwybodaeth yn ddwyieithog heb fod angen galw ar y gwasanaeth cyfieithu. Bydd cyfleoedd cynyddol i hyrwyddo'r Gymraeg i staff a thrigolion yn rhan o'r Eisteddfod, a gynhelir yn RhCT yn 2024. Mae'r Cyngor wedi buddsoddi mewn creu swydd swyddog Eisteddfod i gefnogi ymgysylltiad â'r Eisteddfod sy'n rhan o'r Uned Gwasanaethau Cymraeg, ond bydd cefnogaeth hefyd yn cael ei rhoi o bob rhan o'r meysydd gwasanaeth eraill yn y Gwasanaethau Cymuned.

Meysydd posibl i'w gwella:

Ehangu'r cyfleoedd i staff RhCT wella sgiliau Cymraeg ac archwilio cyfleoedd ariannu cymorth gwaith drwy'r Gronfa Ffyniant Gyffredin.

Gwreiddio ac ehangu darpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn rhaglenni a ariennir drwy grant.

Chwilio am gyfleoedd i ailgodi costau cyfieithu ar raglenni a ariennir drwy grant.

Codi ymwybyddiaeth rheolwyr ar draws y meysydd gwasanaeth ynghylch cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg.

Gwasanaethau Hamdden, Parciau, Cefn Gwlad a Phrofedigaeth, Atyniadau Ymwelwyr a Threftadaeth

- Mae holl bolisiau am y Gymraeg yn cael eu gweithredu. Mae'r holl lwyfannau digidol, arwyddion a chopïau caled marchnata yn ddwyieithog.
- Cefnogir staff i fynychu 'Cwrs Cymraeg Lefel 2'.
- Mae gan tua 10% o'r staff wybodaeth o'r Gymraeg.
- Archwiliwyd negeseuon cyfryngau cymdeithasol Gwasanaethau Hamdden gan yr Uned Gwasanaethau Cymraeg. Roedd yr adroddiad yn nodi nad oedd pob neges yn ddwyieithog. Mae yna ddealltwriaeth a chytundeb bellach, mewn rhai achosion oherwydd natur frys rhai negeseuon ar lefel safle, bod dim modd eu cyfieithu. Mae gennym ni gyfres o ddatganiadau i'w defnyddio, e.e. pwll ar gau oherwydd amgylchiadau annisgwyl. Rydym yn dweud yn y neges os does dim modd i ni ddarparu fersiwn Gymraeg.
- Mae'r Uned Gwasanaethau Cymraeg yn cefnogi Gwasanaethau Hamdden i adnabod siaradwyr Cymraeg a magu eu hyder i gynorthwyo gyda'r negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol.
- Mae'r rhan fwyaf o staff rheng flaen a phob gweithiwr newydd wedi cwblhau 'Cwrs Cymraeg Lefel 1' yn rhan o feini prawf hanfodol y fanyleb swydd.
- Cynhaliwyd Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg yn rhan o Strategaeth Chwaraeon a Gweithgarwch Corfforol 22-27 lle barnwyd bod yr asesiad yn cael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg.
- Mewn partneriaeth â'r Urdd mae'r gwasanaeth yn darparu gwersi nofio Cymraeg yng Nghanolfan Hamdden Llantrisant a Chanolfan Chwaraeon Cwm Rhondda.
- Mae Gwasanaethau Hamdden ar hyn o bryd yn hysbysebu i recriwtio hyfforddwyr nofio a hyfforddwyr ffitrwydd sy'n siarad Cymraeg i allu darparu gwasanaeth Cymraeg gwell.
- Ar safleoedd Gwasanaethau Profedigaethau mae'r holl arwyddion yn ddwyieithog ac mae gwaith papur RhCT hefyd yn ddwyieithog. Serch hynny, nid yw peth o'r gwaith papur statudol

(ffurflenni meddygol) yn ddwyieithog. Nid yw RhCT yn gallu newid hyn, byddai angen cael cyfarwydddeb gan Lywodraeth Cymru.

- Caiff gwasanaethau Cymraeg eu cynnig gan y trefnwyr angladdau.
- Mae angen i'r gwasanaeth weithio i ganfod canolwyr meddygol sy'n siarad Cymraeg.
- Yn y Gwasanaeth Treftadaeth, mae adolygiad o arwyddion hanesyddol yn cael ei gynnal ar hyn o bryd i sicrhau bod safonau dwyieithog cyfredol yn cael eu bodloni.
- Cefnogi pwyllgorau canolfannau cymunedol i ddeall a gweithredu polisiau Cymraeg y Cyngor.

Meysydd posibl i'w gwella:

Gwasanaethau chwaraeon ac ymarfer corff (gan gynnwys Gwasanaethau Hamdden, Iechyd a Chwaraeon Rhondda Cynon Taf)

Gweithio gyda'r Uned Gwasanaethau Cymraeg i gynyddu nifer y negeseuon cyfryngau cymdeithasol sydd wedi'u cyfieithu ymlaen llaw sydd ar gael i ganolfannau.

Gweithio gyda TGCh i sicrhau bod pob aelod o staff â mynediad at gyfrifiadur personol a manylion mewngofnodi i sicrhau bod hyfforddiant Cymraeg a hyfforddiant craidd arall y Cyngor yn cael ei gwblhau.

Adnabod staff sy'n rhugl yn y Gymraeg i roi cymorth gyda negeseuon cyfryngau cymdeithasol. Gweithio gyda'r Uned Gwasanaethau Cymraeg i ddatblygu gwersi magu hyder i'r staff yma.

Rheolwyr Hamdden i sicrhau bod manylion pob dosbarth ffitrwydd yn cael eu huwchlwytho'n ddwyieithog drwy'r system MIS.

Archwilio'r galw am weithgareddau cyfrwng Cymraeg.

Gwasanaeth Treftadaeth ac Atyniadau i Ymwelwyr

Parhau i weithio gyda'r Uned Gwasanaethau Cymraeg i gynyddu nifer y negeseuon cyfryngau cymdeithasol sydd wedi'u cyfieithu ymlaen llaw sydd ar gael i leoliadau.

Cynnal adolygiad o holl gynnwys y wefan bresennol i sicrhau ei fod yn bodloni Safonau'r Gymraeg cyfredol.

Gwasanaethau Profedigaethau

Gweithio i nodi canolwyr meddygol sy'n siarad Cymraeg.

Canolfannau Cymuned

Cefnogi'r pwyllgor i ddeall a rhoi polisi Cymraeg y Cyngor ar waith yn well.

Annog staff i ymgymryd â'r 'Cwrs Cymraeg Lefel 2'.

Gwasanaeth Addysg a Chynhwysiant

- Ymgynghorwyd yn eang ar y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg a luniwyd ar y cyd, a chraffwyd arno. Mae mandad clir ar gyfer cyflawni'r Cynllun rhwng 2022 a 2032. Bu cyfathrebu clir gyda'r holl uwch reolwyr i sicrhau y bydd y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yn cael ei ymgorffori ym mhob penderfyniad polisi presennol wrth symud ymlaen. Mae pob aelod o'r Uwch Garfan Rheoli yn arwain ar bob un o saith deiliant y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg ac mae partneriaid yn ymwneud yn helaeth â'r gwaith o gyd-adeiladu a chyflawni'r cynllun er mwyn sicrhau deilliannau effeithiol.
- Caiff Asesiadau Effaith ar y Gymraeg eu hysgrifennu a'u harchwilio'n ffurfiol ar gyfer pob newid polisi, gan gynnwys yr holl gynigion i ad-drefnu ysgolion.

- Fel Cyngor, rydym yn parhau i sicrhau mynediad cyflym i gyhoeddiadau a chyfathrebiadau cyfrwng Cymraeg, datblygu sgiliau Cymraeg yn y gweithle ac ehangu darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar draws y Fwrdeistref Sirol.
- Mae rhaglen fuddsoddi £252 miliwn Band B yn cynnwys nifer o gynigion ar gyfer gwella darpariaeth cyfrwng Cymraeg, yn ogystal â buddsoddiad sylweddol a gwblhawyd eisoes yng Nghwm Cynon. Caiff capasiti ar draws lleoliadau cyfrwng Cymraeg ei adolygu'n rheolaidd yn unol â blaenoriaethau'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg.
- Mae gan Rionda Cynon Taf y nifer uchaf o blant saith oed ar draws y rhanbarth sy'n derbyn addysg Gymraeg, a gobeithio y bydd y cynlluniau uchelgeisiol ar gyfer buddsoddiad pellach yn sicrhau twf pellach. Serch hynny, roedd gostyngiad bach yn nifer y plant sy'n manteisio ar leoliadau cyn-feithrin a lle mewn dosbarth meithrin cyfrwng Cymraeg yn ystod 2021/22 ac felly bydd hyn angen cael ei fonitro'n ofalus.
- Mae'r Cyngor wedi datblygu lleoliadau gofal plant a blynyddoedd cynnar newydd pwrpasol ac wedi addasu adeiladau ysgol i ateb y galw am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ar safleoedd strategol allweddol. Mae cyfraddau trosglwyddo o gyfnodau allweddol yn y sector Cymraeg yn parhau i fod yn uchel yn Rhondda Cynon Taf, yn gyffredinol. Ond, mae angen gwneud rhagor o waith i wella'r broses bontio o'r dosbarth meithrin i'r derbyn ac o gyfnod allweddol 4 i 5 yn y sector uwchradd.
- Mae'r Cyngor wedi cynnal ei ymdrech i gefnogi'r Gymraeg drwy'r cyfnod anodd yma, gan barhau i ddiwallu anghenion dysgwyr a darparu parhad yn yr iaith a hygyrchedd drwyddi draw.
- Mae pwysau gwaith sylweddol yn ein hysgolion, yn enwedig yn y sector uwchradd Cymraeg, ond hefyd yn y sector cynradd. Mae hyn yn peri cryn pryder, yn enwedig o ystyried bod ysgolion hefyd yn ei chael hi'n anodd recriwtio staff llanw. Mae'r pwysau gwaith yma'n sylweddol yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol.
- Mae'r Gyfarwyddiaeth Addysg yn parhau i weithio'n gynyddol i gyflwyno ein Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg, sy'n dangos ymrwymiad cryf i ddatblygu a gwella nifer y lleoedd i ddisgyblion gael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg ar gyfer 2022-2032 wedi'i lunio ar y cyd â phartneriaid allweddol, ymgynghorwyd yn eang yn ei gylch, mae'r Pwyllgor Craffu wedi craffu arno ymlaen llaw ac mae'r Cabinet a Llywodraeth Cymru wedi'i gymeradwyo. I sicrhau bod y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg â phroffil uchel ar draws pob maes yn y Gyfarwyddiaeth, mae grŵp llywio wedi'i sefydlu a gaiff ei gadeirio gan y Cyfarwyddwr Addysg. Mae pob aelod o'r Uwch Garfan Rheoli yn arwain ar bob un o saith deiliant y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg, ac mae pob un yn cadeirio'r is-bwyllgorau sydd wedi cael y dasg o gyd-lunio'r camau gweithredu i'w cyflawni yn ystod pum mlynedd gyntaf y cynllun cyflawni. Mae cynrychiolaeth dda mewn cyfarfodydd, ac mae ysgolion Cymraeg a Saesneg yn bresennol. Er mwyn sicrhau cydlyniad effeithiol y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg, penodwyd swyddog graddedig newydd i gydlynu'r gwaith yma.
- Caiff Asesiadau Effaith ar y Gymraeg eu hysgrifennu a'u harchwilio'n ffurfiol ar gyfer pob newid polisi, gan gynnwys yr holl gynigion i ad-drefnu ysgolion. Yn ddiweddar, mae hyn wedi bod yn berthnasol ar gyfer y Strategaeth Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant newydd yn ogystal â'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg. Mae'r Uned Gwasanaethau Cymraeg yn ymwneud

yn helaeth â datblygu a chraffu ar yr Asesiadau o'r Effaith ar y Gymraeg ar gyfer yr holl gynigion perthnasol ac maen nhw'n darparu cymorth a her effeithiol.

- Fe wnaeth y Cyngor gynnal ei ymdrech i gefnogi'r Gymraeg drwy bandemig COVID-19, gan barhau i ddiwallu anghenion dysgwyr a darparu parhad yn yr iaith a hygyrchedd drwyddi draw. Fe wnaethon ni barhau i gyfathrebu a darparu gwasanaethau'n ddwyieithog drwy gydol y pandemig, gan gynnwys canllawiau i ysgolion, rhieni a gwarcheidwaid, arwyddion ysgol newydd a holl negeseuon cyfryngau cymdeithasol.
- Roedd darpariaeth Gymraeg ar gael yn ein canolfannau gofal plant yn ystod y cyfyngiadau symud ac yn ein clybiau gwyliau haf ysgol a darpariaeth Rhaglen Gwella Gwyliau'r Ysgol (SHEP). Fe wnaeth hyn ddarparu cyfle i blant ryngweithio a chyfathrebu yn y Gymraeg.

Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg

- Mae digon o leoedd gwag mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg ar draws y Fwrdeistref Sirol i fodloni'r twf posibl yn y dyfodol, a chymerwyd camau rhagweithiol i wella capasiti mewn dwy ysgol lle'r oedd angen hynny. Caiff capasiti pob ysgol Gymraeg eu hadolygu'n rheolaidd ac mae angen lleihau'r lleoedd dros ben mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg ymhellach er mwyn bodloni blaenoriaethau'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg.
- Mae cyllid Band B wedi'i wella'n sylweddol ac mae'r rhaglen fuddsoddi gwerth £252 miliwn yn cynnwys nifer o gynigion ar gyfer gwella'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, gan gynnwys cynigion ar gyfer ysgol pob oed newydd ar gyfer Ysgol Cwm Rhondda a darparu cyfleusterau newydd helaeth ar gyfer Ysgol Llanhari.
- Mae buddsoddi sylweddol wedi bod yn y sector addysg Gymraeg yng Nghwm Cynon gyda gwaith gwella wedi'i gwblhau'n ddiweddar. Yn y sector cynradd, cafodd buddsoddiad gwerth £3.69 miliwn ei gwblhau yn ystod haf 2022 ar gyfer Ysgol Gynradd Gymraeg Aberdâr, sydd wedi gweld cynnydd yn y lleoedd cyfrwng Cymraeg. Mae'r cyfleusterau newydd yn cynnwys pedwar dosbarth newydd, estyniad i neuadd bresennol yr ysgol, ardal adnoddau dysgu hyblyg newydd, ardaloedd awyr agored newydd a rhagor o leoedd parcio. Mae'r prosiect cyffredinol hefyd yn cynnwys cyfleuster gofal plant newydd ar y safle trwy'r Grant Cyfalaf Addysg Cyfrwng Cymraeg. Yn y sector uwchradd, mae buddsoddiad gwerth £12.1 miliwn bron wedi'i gwblhau yn rhan o Fand B y Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu ac mae wedi ychwanegu 187 o leoedd cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Gyfun Rhydywaun (o 1,038 i 1,225). Mae'r gwaith yn cynnwys bloc o wyth ystafell ddosbarth newydd gydag ystafelloedd cymunedol, cyfleusterau drama a cherddoriaeth, ynghyd â derbynfa newydd i'r ysgol, neuadd chwaraeon, ystafell ffitrwydd ac ystafelloedd newid. Bydd modd i'r gymuned gael mynediad i rai o'r cyfleusterau yma hefyd yn rhan o'r datblygiad. Mae gwaith i ail-fodelu ac ailwampio adeilad presennol yr ysgol yn parhau.
- Mae ysgol gynradd Gymraeg newydd yn cael ei hadeiladu ym Mhontypridd/Rhydfelen yn rhan o gynigion trefniadaeth ysgolion ehangach. Bydd hyn yn gweld cynnydd yng nghapasiti ysgolion cynradd, gan ychwanegu 93 o leoedd i ddisgyblion a bydd yn gwella'r cynnig cyfrwng Cymraeg yn yr ardal yn sylweddol. Mae pennaeth newydd ar gyfer yr ysgol wedi'i benodi.

- Mae gwelliannau sylweddol ar y gweill ar gyfer y sector Cymraeg yn Ysgol Gynradd Dolau a fydd nid yn unig yn gwella cyfleusterau, ond hefyd yn cynyddu capasiti cyfrwng Cymraeg yn sylweddol yn ne'r Fwrdeistref Sirol. Mae'r gwaith estyniad newydd yn Ysgol Gynradd Dolau yn mynd rhagddo, i fodloni'r galw am gapasiti a grëwyd gan ddatblygiadau tai sylweddol. Bydd yr estyniad yma'n darparu capasiti ychwanegol ar gyfer disgyblion cyfrwng Cymraeg gan wasanaethu'r gymuned ehangach a'r datblygiad tai newydd. Bydd y cynnydd yma mewn niferoedd hefyd yn cefnogi Ysgol Llanhari i gynyddu niferoedd disgyblion yn y cyfnod uwchradd.
- Mae'r Cyngor wedi datblygu lleoliadau gofal plant a blynyddoedd cynnar newydd pwrpasol ac wedi addasu adeiladau ysgolion i ateb y galw ar safleoedd strategol allweddol. Mae'r ddarpariaeth blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg wedi'i hehangu a'i hariannu gan ffrydiau cyllido Grant Cyfalaf Cyfrwng Cymraeg a Chynnig Gofal Plant Llywodraeth Cymru. Dros y tair blynedd diwethaf, mae llawer o brosiectau wedi'u cwblhau, gan gynnwys prosiectau yn Ysgol Gynradd Gymraeg Ynys-wen, Ysgol Gynradd Gymraeg Llantrisant, ac Ysgol Gynradd Gymraeg Evan James. Mae rhai darpariaethau gofal plant newydd wedi'u sefydlu ar safle rhai ysgolion, gan gynnwys yn Ysgol Gynradd Dolau ac Ysgol Gynradd Gymraeg Abercynon. Y ddarpariaeth gofal plant yn Ysgol Gynradd Gymraeg Aberdâr yw'r un fwyaf diweddar i agor ym mis Medi 2022.
- O dan y model comisiynu Dechrau'n Deg newydd, caiff lleoedd cyfrwng Cymraeg eu prynu'n unigol yn ôl yr angen. Ar hyn o bryd mae 16 o leoliadau ar gael i ddarparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg, ond bydd newidiadau i'r broses gomisiynu yn golygu y bydd rhagor o leoedd gofal plant Dechrau'n Deg cyfrwng Cymraeg ar gael i'r teuluoedd hynny sy'n ei ddewis.
- Mae gostyngiad yn nifer y plant sy'n manteisio ar leoedd cyn-feithrin a meithrin cyfrwng Cymraeg yn amlwg yn ystod 2021/22 - o 597 i 561. Bydd hyn angen cael ei fonitro yn ofalus.
- Mae gan Rhondda Cynon Taf y nifer uchaf o blant saith oed ar draws y rhanbarth sy'n derbyn addysg Gymraeg, a gobeithio y bydd y cynlluniau uchelgeisiol ar gyfer buddsoddiad pellach yn sicrhau twf pellach. Er gwaetha'r ystadegau yma, mae niferoedd wedi parhau i fod yn weddol sefydlog dros amser, fel y mae'r traciwr Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg wedi'i ddangos. Serch hynny, gwelwyd cynnydd o 0.1% yn nifer y disgyblion a oedd yn mynychu ysgolion cynradd Cymraeg yn Rhondda Cynon Taf yn 2021/22.
- Mae cyfraddau pontio o gyfnodau allweddol yn y sector Cymraeg yn parhau i fod yn uchel yn Rhondda Cynon Taf yn gyffredinol. Er hynny, mae angen gwneud rhagor o waith i wella hyn o'r dosbarth meithrin i'r derbyn ac o gyfnod allweddol 4 i 5 yn y sector uwchradd.
- Mae newid ym mholisi trafndiaeth awdurdod lleol cyfagos wedi effeithio'n andwyol ar niferoedd mewn dwy ysgol gynradd Gymraeg yn Rhondda Cynon Taf. Er hynny, mae Rhondda Cynon Taf yn parhau â pholisi trafndiaeth sy'n gefnogol o drefniadau traws-ranbarthol.
- Mae pob ysgol gynradd Gymraeg yn cymryd rhan weithredol yn y Siarter Iaith ac wedi cyflawni o leiaf y wobwr efydd Siarter Iaith. Cyflawnodd 29.4% y wobwr efydd, mae 58.8% wedi cyflawni'r wobwr arian ac mae 11.7% wedi cyflawni'r wobwr aur. Roedd gwobrau efydd ac arian hefyd mewn 25% o ysgolion uwchradd Cymraeg, yn y drefn honno.

- Mae ymgysylltiad da â Chymraeg Campus mewn 90.7% o ysgolion cynradd Saesneg ac mewn 46.1% o ysgolion uwchradd Saesneg. Mae'r wobwr efydd wedi'i chyflawni mewn 15.8% o ysgolion cynradd a'r wobwr arian mewn 10.5% o ysgolion. Yn y sector uwchradd Saesneg, mae'r wobwr efydd wedi'i chyflawni mewn 7.7% o ysgolion Saesneg.
- Yn ddiweddar, mae'r gwasanaeth rhanbarthol wedi cynnal fframwaith peilot Cymraeg Campus ar gyfer y sector ysgolion arbennig, ac mae'r wobwr efydd wedi'i chyflawni mewn 25% o ysgolion arbennig.
- Mae darpariaeth cyfrwng Cymraeg ADY wedi'i sefydlu yn 2022/23 yn Ysgol Gartholwg ac mae ymrwymiad i geisio cymeradwyaeth y Cabinet i gynnig sefydlu darpariaeth ADY yn yr ysgol Gymraeg a gynllunnir ar gyfer Rhydfelen.
- Yn ddiweddar, mae'r awdurdod lleol wedi sefydlu Grŵp Marchnata cyfrwng Cymraeg i sicrhau bod cynnydd yn y sector cyfrwng Cymraeg ac iaith Gymraeg. Mae'r gwaith yma yng nghramau cynnar ei ddatblygiad. Mae mynediad at wybodaeth ddigidol am addysg Gymraeg wedi gwella.
- Mae cynnig trochi a ariennir drwy grant iaith Gymraeg wedi'i gyflwyno a'i gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru ac mae cynlluniau ar y gweill i sefydlu darpariaeth deithiol yn y Fwrdeistref Sirol. Mae'r swyddi newydd sydd eu hangen i ddarparu'r ddarpariaeth yma, sef athro a dau gynorthwydd addysgu, yn cael eu hysbysebu ar hyn o bryd.

Gweithlu

- Mae Cyfrifiad Blynyddol Gweithlu Ysgolion 2022 yn awgrymu bod gyda ni 104 o siaradwyr Cymraeg hyfedr/â sgiliau Cymraeg uwch mewn ysgolion sy'n gallu addysgu a gweithio yn y Gymraeg, ond nad ydyn nhw'n gwneud hynny ar hyn o bryd. Mae angen archwilio hyn ymhellach i sicrhau ein bod ni'n mynd i'r afael â'r bylchau yn y sector Cymraeg yn rhagweithiol, gan hefyd wella sgiliau staff presennol yn y sector Saesneg.

	Dim sgiliau	Mynediad Sylfaen Canolraddol	Uwch Hyfedr	Ddim yn gwybod
Addysgu/gweithio yn y Gymraeg yn ei swydd bresennol	0	10	461	0
Gallu addysgu/gweithio yn y Gymraeg ond ddim yn gwneud hynny	0	44	104	0
Ddim yn gallu addysgu na gweithio yn y Gymraeg	445	443	1	3
Addysgu'r Gymraeg (y pwnc) yn unig	0	532	102	13

- Dysgu proffesiynol datblygu'r Gymraeg i ymarferwyr: Ers mis Ebrill 2021, mae 323 ymarferwr o Ronda Cynon Taf wedi mynychu lefelau amrywiol o ddysgu proffesiynol datblygu'r Gymraeg sy'n cyd-fynd â'r Fframwaith Cymhwysedd Iaith Gymraeg.

- Arweinyddiaeth y rhaglen Gymraeg: Mae 14 uwch arweinydd o 14 ysgol Saesneg wedi mynychu'r rhaglen gyda dau arall wedi'u cofrestru yn hydref 2022. Mae'r rhaglen wedi'i dylunio i gefnogi uwch arweinwyr i ddatblygu'r Gymraeg a'i diwylliant ar lefel strategol ysgol gyfan.
- Dysgu proffesiynol llafaredd y Gymraeg: Mae 35 ymarferwr cyfrwng Cymraeg a 23 ymarferwr cyfrwng Saesneg wedi'u cofrestru i fynychu rhaglen datblygu proffesiynol ar ddatblygu llafaredd Cymraeg a ffoneg synthetig 'Tric a Chlic'.
- Mae Consortiwm Canolbarth y De (CCD) wedi darparu £10,000 o gyllid i Gyda'n Gilydd yn 2021/22 a £10,000 ychwanegol yn 2022/23 i weithio ochr yn ochr â CBAC i ddatblygu cymwysterau galwedigaethol Lefel 3 cyfrwng Cymraeg. Mae cymwysterau yn cael eu creu ar gyfer busnesau, twristiaeth, gwasanaethau cyhoeddus a chwaraeon ar hyn o bryd.
- Mae'r CCD wedi gweithio ar y cyd ag Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd, i ddatblygu a chyhoeddi prawf darllen Cymraeg newydd i flynyddoedd 1-11 mewn ysgolion Cymraeg. Mae bron pob ymarferwr a fynychodd y rhaglen datblygu proffesiynol cysylltiol wedi nodi eu bod nhw â dealltwriaeth glir o sut i roi'r prawf darllen Cymraeg safonol newydd ar waith.
- Mae'r CCD wedi darparu hyfforddiant i lywodraethwyr ar y Gymraeg mewn Addysg yn ystod 2021/22, gyda'r nod o gefnogi llywodraethwyr i herio a chefnogi arweinwyr ysgolion. Mynychodd 13 o lywodraethwyr, ac maen nhw bellach mewn sefyllfa well i herio a chefnogi arweinwyr ysgolion yn briodol ac maen nhw wedi adrodd y bydd yn effeithio ar arfer/ymddygiad.
- Mae 15 o athrawon o Rondda Cynon Taf wedi mynychu Cynllun Sabothol Cymraeg Mewn Blwyddyn ers 2017, gan gynnwys y ddau ymarferydd allan o saith lle rhanbarthol a fynychodd yn 2022/23. Yn ystod 2022/23, mae rhaglen sabothol newydd sy'n para dau dymor yn cael ei gynnal, gyda phedwar athro o Rondda Cynon Taf yn mynychu. Mae'r CCD yn darparu cymorth ôl-sabothol cryf sy'n cynnwys cyfarfodydd rhwydwaith, rhannu arfer da ac adnoddau, arwain cwrs byr Cymraeg, sesiwn un-i-un pwrpasol gyda swyddogion datblygu a chymorth i ledaenu eu gwybodaeth a'u sgiliau gydag ymarferwyr eraill.
- Mae data'r awdurdod lleol hefyd yn awgrymu bod cynnydd wedi bod yn nifer y staff sy'n gallu dysgu'r Gymraeg fel iaith gyntaf, cynnydd o 8.8% yn 2020-21 i 14.1% yn 2021-22.
- Mae'r CCD wedi darparu canllawiau mewn perthynas â chwblhau data Cyfrifiad blynyddol o'r gweithlu ysgolion (CBGY) i ysgolion er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu cwblhau'n gywir.
- Cyllid wedi'i ddarparu ar gyfer Gyda'n Gilydd (Cymdeithas Prifathrawon Uwchradd Cyfrwng Cymraeg) i ddatblygu darpariaeth bwrpasol ar gyfer y sector a gweithio ochr yn ochr â CBAC i ddatblygu cymwysterau galwedigaethol L3 cyfrwng Cymraeg.

Meysydd posibl i'w gwella:

Rhoi cynllun gweithredu drafft ar gyfer cyflawni Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2022-2023 ar waith a'i ddiweddarau unwaith y bydd adborth wedi'i dderbyn gan Lywodraeth Cymru.

Datblygu'r ddarpariaeth ar gyfer trochi yn y Gymraeg a phenodi staff.

Parhau i ddatblygu a gwella amgylcheddau gofal plant ac ysgol cyfrwng Cymraeg, gan gynnwys drwy Gymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu Band B.

Datblygu Cynllun Marchnata a Recriwtio effeithiol i wella cynnydd yn y sector cyfrwng Cymraeg a'r iaith Gymraeg.

Gwella cyfraddau pontio i addysg Gymraeg, yn benodol o'r meithrin i addysg statudol, ac o gyfnod allweddol 4 i 5.

Cynnal dadansoddiad data cadarn o'r gweithlu yn y sectorau Cymraeg a'r sectorau Saesneg yn Rhondda Cynon Taf er mwyn llywio cynllun strategol mewn partneriaeth ag AD i fynd i'r afael â'r pwysau ar y gweithlu yn y sector Cymraeg a thyfu'r genhedlaeth nesaf o athrawon ac arweinwyr y dyfodol yn y sector yma (Deilliant 7 y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg).

Adran Ffyniant a Datblygu

Mae'r Gwasanaeth wedi parhau i weithio'n agos gyda'r Uned Gwasanaethau Cymraeg i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg. Mae'r holl ddogfennau a gwasanaethau ar gael yn ddwyieithog, gan gynnwys yr holl ohebiaeth a chyhoeddiadau. Mae gan y gwasanaeth hefyd nifer o staff sy'n gallu cyfathrebu â defnyddwyr gwasanaeth trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r gwasanaeth hefyd wedi gweithio ochr yn ochr â'r Uned Gwasanaethau Cymraeg i sicrhau bod yr holl dudalennau gwe a diweddariadau'r cyfryngau cymdeithasol yn ddwyieithog.

Mae'r gwasanaeth yn mynd ati'n weithredol i hyrwyddo'r Gymraeg yn y gweithle trwy annog staff i ddysgu a siarad Cymraeg. Yn ogystal â hyn, rhaid i staff sydd wedi cael dyrchafiad yn y gwasanaeth fynd ar gwrs Cymraeg.

Ceisiwyd cyngor gan Uned Gwasanaethau Cymraeg y Cyngor mewn perthynas â chwblhau Asesiadau o'r Effaith ar y Gymraeg ar gyfer prosiectau/adroddiadau a gyflwynir gan y gwasanaeth.

Mae'r adran Polisi Cynllunio yn ymgysylltu â charfan Gwasanaethau Cymraeg y Cyngor i sicrhau bod elfennau lluosog y gwaith yn cael eu cyfieithu fel y bo'n briodol. Mae hyn yn cynnwys dogfennau ffurfiol, adroddiadau a hefyd y tudalennau gwefan presennol a'r rhai sy'n datblygu. Mae hyn hefyd yn cynnwys yr ymgynghoriadau amrywiol ac achlysurol rydym yn eu cynnal. Yn ogystal â hyn, mae'r broses statudol o baratoi'r CDLI yn gofyn am Arfarniad o Gynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol ar gyfer pob cam ffurfiol o'i baratoi a'r ddogfen orffenedig. Rydym wedi penderfynu esblygu'r broses yma drwy ymgorffori elfennau o Fesur y Gymraeg a'r Ddeddf Cydraddoldeb ym mhroses asesu'r CDLI yma. Caiff hyn ei alw'n Asesiad Cynaliadwyedd Integredig.

Cyhoeddusrwydd Cais Cynllunio - mae hysbysiadau i'r wasg/hysbysiadau i'r wefan i gyd yn ddwyieithog, a hynny yn unol â chanllawiau polisi'r Gymraeg.

Mae taflenni agenda a chofnodion blaen y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu yn ddwyieithog. Mae'r gwasanaethau cyfieithu i'r Gymraeg ar gael ym mhob cyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio a Datblygu ar gyfer Aelodau Etholedig ac ar gyfer aelodau'r cyhoedd/trydydd partïon.

Mae'r Gymraeg yn thema sydd i'w gweld drwy'r Cynllun Gweithredu Cyflawni, gan gynnwys hyrwyddo hyfforddiant Cymraeg a chyfieithu, annog busnesau lleol i ddefnyddio cyfarchion ac ymadroddion dwyieithog, a hyrwyddo croeso cynnes Cymreig.

Mae'r **carfannau Dylunio a Marchnata** yn parhau i weithio'n agos ag Uned Gwasanaethau Cymraeg y Cyngor, gan sicrhau bod pob un o'n gwaith dylunio yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg Llywodraeth Cymru. Mae pob dogfen, cyhoeddiad a chynnwys digidol a gaiff eu paratoi gennym ni yn ddwyieithog. Rydym hefyd yn cynghori meysydd gwasanaeth, rhanddeiliaid a phartneriaid allanol am eu cyfrifoldebau i fodloni'r Safonau'r Gymraeg yma.

Wrth i ni baratoi i groesawu'r Eisteddfod Genedlaethol i Rondda Cynon Taf yn 2024, mae'r garfan farchnata yn gweithio gyda charfan yr Eisteddfod i ddod o hyd i ffyrdd newydd, unigryw ac apelgar o ddod â geiriau ac ymadroddion Cymraeg cyffredin yn rhan o waith marchnata a chyfathrebu digidol.

Meysydd posibl i'w gwella:

Gydag Eisteddfod Genedlaethol Cymru yn dod i Rondda Cynon Taf yn 2024, mae rhagor o bwyslais

ar sut y mae modd i achlysuron gael eu cynnal yn y Gymraeg a rhoi croeso 'Cymreig'. Mae angen canolbwyntio ar gynnwys nid yn unig perfformiadau/artistiaid/cyflenwyr Cymreig, ond hefyd ar dechnoleg/offer, fel bod modd i ymwelwyr di-Gymraeg ddeall a dehongli achlysuron sy'n cael eu cynnal trwy gyfrwng y Gymraeg, gan wella ymgysylltiad.

Gwasanaethau i Blant

Mae'r Gwasanaethau i Blant ar gael i bob aelod o'r gymuned, gwaeth beth fo'u sefyllfa economaidd-gymdeithasol neu nodweddion gwarchodedig.

Mae natur ein busnes yn anwahaniaethol, gan ddarparu gwybodaeth, cyngor a chymorth i bawb sy'n bodloni'r trothwyon perthnasol, gwaeth beth fo'u hethnigrwydd neu ddiwylliant.

Rydym yn darparu gwasanaeth o fore gwyn tan nos, bob diwrnod o'r flwyddyn. Mae'r Garfan ar Ddyletswydd ar gyfer Argyfyngau yn darparu ymateb y tu hwnt i oriau'r swyddfa.

Cyn unrhyw gyfarfod â defnyddwyr gwasanaethau, rydym yn parhau i ofyn iddyn nhw nodi eu dull cyfathrebu dewisol a chaiff hyn ei gofnodi ar gyfer y dyfodol.

Mae'r gwasanaeth yn manteisio ar gyfryngau cymdeithasol megis Facebook a Twitter i gysylltu â thrigolion Rhondda Cynon Taf.

Caiff Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb eu cyflawni cyn penderfynu ar unrhyw ddatblygiadau strategol.

Dim ond un pwynt mynediad sydd i'r gwasanaeth. Mae hyn yn galluogi i nifer o asiantaethau ymateb ar y cyd ac yn sicrhau bod y dull gweithredu'n gyson.

Adnoddau Dynol

Mae'r gwasanaeth yn parhau i gefnogi staff i ddysgu ac ymarfer y Gymraeg yn y gweithle.

Rydym yn sicrhau bod yr holl gyfathrebiadau ar gael yn ddwyieithog, a lle mae digon o alw, caiff hyfforddiant ei ddarparu yn y Gymraeg neu wedi'i gyfieithu. Enghraifft o hyn yw darparu sgiliau cyfweld i ysgol gan ddefnyddio'r gwasanaeth cyfieithu.

Yn ystod Rhaglen Ffliw 2022 – fe wnaethon ni ganfod problem gyda'r caniatâd meddygol yn ddwyieithog yn dilyn cwyn gan aelod o staff. Cafodd hyn ei drafod gyda'r garfan cyfieithu ac rydym bellach wedi codi'r mater gyda'r comisiynydd safonau i gael eglurhad (* caniatâd yw'r sail y bydd nyrs yn rhoi'r brechlyn)

Asesiad Effaith Carefirst – roedd problem gyda chyfieithiad y wefan y cytunwyd arno gan y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol (GCC), felly, fe wnaethon ni drefnu cyfarfod rhwng y gwasanaethau cyfieithu i'r Gymraeg a Carefirst i gywiro'r problemau cyfieithu i'r Gymraeg

Meysydd posibl i'w gwella:

Sicrhau cydymffurfiaeth barhaus â Safonau'r Gymraeg.

Gwasanaethau Cerbydau'r Cyngor

Ystyrir Safonau'r Gymraeg wrth recriwtio ac mae gofynion y Gymraeg wedi'u hymgorffori yn y fersiwn diweddaraf o ddisgrifiadau swyddi'r Gwasanaeth.

Mae'n ofynnol bod unrhyw aelod newydd o staff sy'n ymuno â'r garfan yn cwblhau Lefel 1 – Medrau yn y Gymraeg. Mae un aelod o'r garfan wedi parhau â'u datblygiad drwy gofrestru ar gwrs Cymraeg Rhondda Cynon Taf.

Er nad ydy Gwasanaethau Cerbydau'r Cyngor yn delio'n uniongyrchol â'r cyhoedd yn aml, byddai unrhyw ohebiaeth fyddai'n dod i law yn Gymraeg yn cael ei hateb yn Gymraeg.

Ar brydiau, mae ceisiadau yn dod i law am waith graffig dwyieithog ar gerbydau a chyfarwyddiadau

dwyeithog mewn cerbydau sy'n hygyrch i gadeiriau olwyn. (Dyma nodwedd unigryw). Hefyd, mae holl arwyddion mewnol ac allanol cerbydau (lle mae deddfwriaeth yn caniatáu hynny) yn ddwyieithog. Pe bai angen dogfennau ar gyfer y cyhoedd, mae'r rheiny hefyd yn ddwyieithog

Meysydd posibl i'w gwella:

Rhagor o staff i weld gwerth i ddysgu'r Gymraeg.

Bydd recriwtio yn y dyfodol yn canolbwyntio ar recriwtio siaradwyr Cymraeg i gynyddu darpariaeth gwasanaeth cyfrwng Cymraeg wyneb yn wyneb.

Sicrhau cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg mewn perthynas ag arwyddion ar gerbydau, ac ati.

Cyfrifeg a'r Gwasanaeth Rheoli Cyflawniad

Ceisio cyngor gan Uned Gwasanaethau Cymraeg y Cyngor mewn perthynas â gofynion dwyeithog o ran cyhoeddi dogfennau statudol (Datganiad o Gyfrifon ac Adroddiad Cyflawniad Corfforaethol y Cyngor wedi'u llunio'n ddwyieithog);

Rhoi canllawiau gweithredol ar waith i helpu staff (e.e. cronfa ganolog i gasglu dewis iaith cwsmeriaid); Heb dderbyn unrhyw gwynion gan y cyhoedd ynglŷn ag achosion o beidio â chydymffurfio â Safonau'r Gymraeg;

Mae gan 6 swyddog sgiliau iaith lefel 4 neu 5; a

Nid oes unrhyw swyddogion wedi dilyn hyfforddiant Cymraeg o fewn y gwasanaeth yn ystod y 12 mis diwethaf.

Cyngor cyfan

Mae darpariaeth Gymraeg yn rhan annatod o'r fframwaith Hunanwerthuso Gwasanaeth, gan helpu i ddangos yr ymrwymiad corfforaethol i ddefnyddio a hyrwyddo'r Gymraeg. Mae casglu gwybodaeth drwy'r broses hunanwerthuso hefyd yn helpu'r Uned Gwasanaethau Cymraeg i nodi lle gallai fod angen cymorth penodol ar draws y Cyngor ac mae'n llywio gofynion adrodd statudol.

Mae'r Gymraeg yn cael ei hystyried yn rhan o Adroddiad Hunanasesu blynyddol y Cyngor.

Meysydd posibl i'w gwella:

Parhau i gynnig cyfleoedd i aelodau'r garfan i ymgymryd â hyfforddiant Cymraeg.

Eiddo'r Cyngor

- Mae'r gwasanaeth yn parhau i ymrwymo i Safonau'r Gymraeg ac yn sicrhau bod yr holl ddogfennau perthnasol yn cael eu cyfieithu mewn da bryd.
- Mae'r Gwasanaeth yn cadw llygad ar arwyddion yn y gweithle ac arwyddion allanol.
- Mae hyfforddiant wedi'i gynnig i staff ac mae aelod o'r garfan Gwybodaeth am Eiddo wedi manteisio ar y cynnig yma.
- Dydy'r gwasanaeth ddim wedi derbyn unrhyw gwynion.
- Roedd proses ddiweddar y Strategaeth Gwefru Cerbydau Trydan yn ymgysylltu'n llawn â'r garfan Gwasanaethau Cymraeg ac yn cymryd sylwadau i ystyriaeth wrth lunio'r strategaeth a'r adroddiad ategol. Yna cafodd y strategaeth a'r adroddiad eu trafod gan y Bwrdd Materion Cydraddoldeb a'r Gymraeg (sydd newydd ei sefydlu) a chafwyd ymateb cadarnhaol iawn.
- Bu'r Gwasanaeth yn ymgysylltu â'r Uned Gwasanaethau Cymraeg yn rhan o waith datblygu'r Strategaeth Swyddfeydd a gweithredodd ar sylwadau a gafodd eu codi. Cafodd y Strategaeth ei thrafod gan Banel y Gymraeg a chafodd awgrymiadau'r Panel eu cynnwys yn y Strategaeth.

Roedd hyn yn cynnwys defnyddio swyddfeydd i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg drwy gyflwyno desgiau gwag ar gyfer siaradwyr Cymraeg fel bod modd i bobl siarad â'i gilydd yn Gymraeg yn y gweithle.

Meysydd Posibl i'w Gwella:

Caiff aelod o staff o'r Uned Gwasanaethau Cymraeg ei wahodd i gyfarfodydd y Gweithgor Rheoli Asedau yn y dyfodol i roi cyngor ar oblygiadau Cymraeg wrth reoli asedau eiddo. Bydd y cyfarfod nesaf yn Chwarter 4 22/23.

Gwasanaethau Pensiynau, Caffael a Thrafodion

Refeniw a Budd-daliadau:

- Adolygiad llawn o dudalennau gwe a gwasanaethau/systemau ar-lein i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â phrotocolau allweddol wedi'u nodi gan y Safonau.
- Diweddarau ffeiliau achos gyda dangosydd lle mae dewis iaith wedi'i nodi ar gyfer cyswllt cyfrwng Cymraeg i sicrhau bod hyn yn cael ei ddarparu, er bod galw yn gyfyngedig.
- Eitem agenda safonol yng nghyfarfodydd y Garfan Reoli.

Pensiynau

- Mae dogfennau a chyhoeddiadau yn ymwneud â phensiwn ar gael yn ddwyieithog
- Mae'r wefan a'r system hunan wasanaeth i Aelodau yn ddwyieithog

Cyflogres a Thaliadau

- Mae'r newyddion diweddaraf i staff am y gyflogres yn ddwyieithog
- Mae cyfloglenni/ffurflenni P60 yn ddwyieithog (bydd system recriwtio iTrent yn ddwyieithog [bydd ar gael ym misoedd cynnar 2023])

Caffael:

- Mae gan y Gwasanaethau Caffael berthynas waith gadarnhaol gyda Charfan Safonau'r Gymraeg a'r Gwasanaeth Cyfieithu.
- Caiff gofynion eu cynnwys yn y broses gaffael ar bob lefel ac mae mentrau uwch i hyrwyddo a gwella Safonau'r Gymraeg yn y gadwyn gyflenwi yn cael eu cefnogi'n weithredol trwy hyrwyddo'r 'Canllaw Partneriaid Comisiynu'.

Rydym hefyd wedi gweithio gydag Uned Gwasanaethau Cymraeg i lunio llawlyfr i gontractwyr ei ddefnyddio. Mae'r llawlyfr yma wedi cael ei lunio i helpu a chefnogi staff y Cyngor a chontractwyr i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg sy'n gofyn am arwyddion dwyieithog.

Meysydd Posibl i'w Gwella:

Parhau i nodi a chofnodi dewis iaith cwsmeriaid.

Parhau i gynnig cyfleoedd i ddysgu Cymraeg

Gwasanaethau Cludiant

Mae ein trigolion yn defnyddio Gwasanaethau Cludiant, beth bynnag fo'u dewis iaith. Mae'r Gwasanaeth yn sicrhau bod y Polisi, Gwybodaeth a Threfniadau Teithio gan Ddysgwyr yn cydymffurfio'n llawn â'r Safonau diweddaraf. Dydy'r Gymraeg ddim yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth ddarparu gwasanaethau. Mae llythyrau safonol ar gyfer cynulleidfaoedd eang yn ddwyieithog ac mae amserlenni bysys wrth ochr y ffordd, yn ogystal â'r holl ddeunydd sy'n hyrwyddo

gweithgareddau'r Gwasanaeth ar wefan y Cyngor, yn Gymraeg a Saesneg.

Mae pob rhiant yn cael cyfle i gyfathrebu â'r Gwasanaeth yn Gymraeg a chaiff cofnodion eu cadw. Mae tri siaradwr Cymraeg yn y Gwasanaeth gyda gwybodaeth ymarferol o Gymraeg llafar ac ysgrifenedig. Yn ystod 2021, dderbyniodd y Gwasanaeth ddim ceisiadau am ohebiaeth na galwad ffôn gan drigolion oedd yn dymuno sgwrsio yn Gymraeg. Eto, doedd dim cwynion am ddefnydd y Gwasanaeth o'r Gymraeg yn ystod y cyfnod yma.

Yn ystod y ddwy flynedd diwethaf, bu gostyngiad bach yn nifer y disgyblion sy'n cael eu cludo i ysgolion cyfrwng Cymraeg neu ysgolion dwy iaith; o 3,577 i 3,388 ym mlwyddyn academaidd 2021/22, ac o 3,388 i 3,229 ym mlwyddyn academaidd 2022/23. Er hynny, mae'n ymddangos nad oes yna ostyngiad yn nifer y disgyblion sy'n mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg neu ysgolion dwy iaith.

Roedd Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ym mis Mehefin 2016 wedi ystyried bod y Polisi, Gwybodaeth a Threfniadau Teithio gan Ddysgwyr yn cael effaith gadarnhaol iawn ar y gymuned Gymraeg. Roedd y meini prawf ar gyfer cludiant ysgol yn gyson ac yn deg. Cafodd nifer o anghysondebau yn y ddarpariaeth eu dileu o fis Medi 2018, ond ni fu dim ers y dyddiad hwnnw.

Meysydd Posibl i'w Gwella:

Annog rhagor o staff i ddysgu Cymraeg.

Y Gwasanaethau Cyfreithiol

Dydy'r Gwasanaethau Cyfreithiol ddim yn wasanaeth rheng flaen a phrin iawn yw ei gyswllt â thrigolion ac aelodau'r cyhoedd. Fodd bynnag, mae Hysbysiadau Cyfreithiol, Gorchmynion, hysbysebion ar gyfer cau ffyrdd a swyddi gwag Aelodau Cyfetholedig yn cael eu cyhoeddi'n ddwyieithog, yn ogystal â chofnodion presenoldeb Aelodau. Mae holl ddatganiadau a chyhoeddiadau etholiad mewn canolfannau cyfrif yn ddwyieithog.

Mae gan y gwasanaeth nifer o staff sy'n siarad Cymraeg sy'n cynnwys eiriolwyr cyfreithiol ac uwch reolwyr. Mae'r Gwasanaeth felly yn cynnig y cyfle i ohebu â'r Gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg, boed hynny wyneb yn wyneb, yn ysgrifenedig neu dros y ffôn. Mae modd hefyd cynnal achosion sifil a throseddol yn Gymraeg. Mae hyn yn sicrhau bod y personau hynny sy'n dymuno cynnal eu busnes drwy gyfrwng y Gymraeg yn derbyn yr un lefel o wasanaeth â'r rhai sy'n siarad Saesneg, sydd yn ei dro yn sicrhau bod y Cyngor yn parhau i fodloni'r gofynion a nodir yn Safonau'r Gymraeg.

Dydy'r gwasanaeth ddim wedi derbyn unrhyw gwynion nac ymchwiliadau gan Gomisiynydd y Gymraeg yn ystod y cyfnod dan sylw yn yr adroddiad yma. Mae'r gwasanaeth yn parhau i gefnogi'r Cyngor yn ei ymlyniad at Safonau'r Gymraeg ac yn cynorthwyo swyddogion o wasanaethau eraill i ymdrin â chwynion gan y Comisiynydd yn ogystal â darparu cyngor cyfreithiol ar gymhwysu'r Safonau'r Gymraeg hynny. Mae'n amlwg bod cydberthynas rhwng gwaith y Gwasanaethau Cyfreithiol a'r Uned Gwasanaethau Cymraeg o ran sicrhau cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg a hyrwyddo'r safonau hynny ar draws y Cyngor. Mae perthynas waith agos rhwng y carfanau wedi cynorthwyo'r amcan yma.

Meysydd Posibl i'w Gwella:

Darparu cyfleoedd i staff di-Gymraeg fynychu cyrsiau Cymraeg a gynhelir gan y Cyngor yn flynyddol er mwyn ceisio cynyddu nifer y staff sy'n gyfforddus wrth siarad Cymraeg.

Gweithio'n agosach â'r Uned Gwasanaethau Cymraeg i'w chynorthwyo â'r dull gorfodi sy'n cael ei fabwysiadu ar hyn o bryd gan Gomisiynydd y Gymraeg.

Cymunedau Diogel a Thai Cymunedol

Carfan Materion Tai

Arweiniodd archwiliad o dudalennau gwe y Garfan Materion Tai yn ystod hydref 2022 at waith adolygu cynhwysfawr sy'n golygu bod yr adran bellach yn cydymffurfio'n llawn. Cafodd yr archwiliad ei gynnal yn dilyn cwyn gan Gomisiynydd y Gymraeg. Gan fod y Gwasanaeth wedi ymateb yn brydlon i ddatrys

y materion wedi'u nodi, ni chymerodd y Comisiynydd unrhyw gamau pellach (llythyr i'w gynnwys maes o law).

Carfan Ceisio Cartref RhCT

Mae tudalen y Gwasanaeth Tai ar wefan y Cyngor wedi'i hadolygu a'i diweddarau i sicrhau ei bod yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg.

Mae Carfan Ceisio Cartref RhCT wedi gweithio gyda chwmni Linguaskin eleni i sicrhau bod gwefan Ceisio Cartref RhCT wedi'i chyfieithu, gan gynnwys y broses ymgeisio. Bydd hyn ar waith yn llawn yn 2023/24

Adroddiad y Cabinet

Cafodd Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg ei gwblhau yn rhan o Strategaeth y Rhaglen Cymorth Tai (RhCT) 2022-26.

Mae pob contract ar gyfer gwasanaethau cymorth hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r darparwyr gael polisïau Cymraeg ar waith a chydymffurfio â Safonau'r Gymraeg sy'n berthnasol i'r contract.

Meysydd Posibl i'w Gwella:

Sicrhau bod pob rheolwr yn effro i fanylion Deddf yr Iaith Gymraeg a'u cyfrifoldebau i adolygu eu meysydd gwasanaeth yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg

Gweithredu Modiwl TG Cymraeg Abritas yn 2023/24

Bydd defnyddio swyddogaeth 'chatbot' mae modd ei chyflwyno mewn dros 100 o ieithoedd gwahanol ar dudalennau gwe yn rhoi cyfle pellach i'n cwsmeriaid sy'n dymuno cyfathrebu drwy'r Gymraeg wneud hynny

Tudalen wag